

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL	CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE
DYDD MERCHER, 14 HYDREF 2026 am 2:00 y. p.	WEDNESDAY, 14 OCTOBER at 2:00 p.m.
YSTAFELL BWYLLGOR , SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM	COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY ON ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES

Geraint Bebb (***Is-Gadeirydd/Vice-Chair***), John Ifan Jones, Jackie Lewis, Alwen Watkin, Sonia Williams, Arfon Wyn

Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP

Dafydd Rhys Thomas

LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR

Keith Roberts

ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS

Jeff Evans (***Cadeirydd/Chair***), Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats), R. Llewelyn Jones

HEB YMUNO/UNAFFILIATED

Celfyn Furlong (Reform)

AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)

John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church); Parch./Rev. Llewelyn Moules-Jones (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales); Kathryn Seeney (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector); Christina Williams (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Medi 2026.

4 CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH CYNLLUNIO ARGYFWNG RHANBARTHOL 2025/26 (Tudalennau 9 - 38)

Cyflwyno adroddiad blynyddol y GCARh – CGC am 2025/26.

5 ADRODDIAD CYNNYDD PANEL SGRIWTINI Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (Tudalennau 39 - 44)

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Panel.

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU (RHAN 9: IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL) 2026 (Tudalennau 45 - 118)

Cyflwyno adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

7 BLAEN RAGLEN WAITH 2026/27 (Tudalennau 119 - 128)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a Gwasanaethau Pwyllgor.

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithwir ar Zoom ar 16 Medi, 2026

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Jeff Evans (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Geraint Bebb (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Celfyn Furlong, John Ifan Jones, R. Llewelyn Jones, Keith Roberts, Sonia Williams, Arfon Wyn.

Aelod Cyfetholedig: Y Parchedig Llewelyn Moules-Jones (Yr Eglwys yng Nghymru)

Aelodau Portffolio

Y Cynghorwyr Carwyn Jones (Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol), Alun Roberts (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Ieuan Williams (Aelod Portffolio Prifffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd).

WRTH LAW:

Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitem 3)
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 3)
Pennaeth y Gwasanaethau Tai
Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (ar gyfer eitem 3)
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 3)
Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio (ar gyfer eitem 3)
Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmeriaid (ar gyfer eitem 3)
Pennaeth Democratiaeth (DS)
Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau (GP) (ar gyfer eitem 3)
Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai (DR)
Rheolwr Gwasanaethau Sgriwtini a Phwyllgorau (AH)
Swyddog Cynorthwyol Cartrefi Gwag (OJ)
Swyddog Pwyllgor (ATH)
Swyddog Gwe-ddarlledu (FT)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Jackie Lewis, Dafydd Rhys Thomas, Alwen Watkin, John Tierney (Aelod Cyfetholedig – Yr Eglwys Gatholig), Kathryn Seeney (Aelod Cyfetholedig – Rhiant-lywodraethwr y Sector Cynradd), Christina Williams (Aelod Cyfetholedig – Rhiant-lywodraethwr y Sector Uwchradd ac ADY), y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd), Neville Evans (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid).

1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2026 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

3. MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH1 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio a oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2026/27 i'r Pwyllgor ei ystyried, a chraffu arno. Mae'r adroddiad cerdyn sgorio yn manylu ar berfformiad dangosyddion allweddol sy'n cefnogi gwaith o ddydd i ddydd y Cyngor ac amcanion strategol ehangach Cynllun y Cyngor.

Cyflwynodd y Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau adroddiad y cerdyn sgorio a nododd fod perfformiad ar y cyfan yn gadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o dargedau'r dangosyddion (86%) a gafodd eu monitro yn ystod y chwarter yn unol â'r targed, neu'n agos ato gyda sgôr Gwyrdd neu Felyn. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at berfformiad da mewn sawl maes, gan gynnwys canran y swyddi a hysbysebwyd fel Lefel 3 Cymru ac uwch a gyrhaeddodd 90% yn erbyn targed o 82% (196 o 218 o swyddi gwag); canran y plant a ail-gofrestrwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis a arhosodd 0% yn erbyn targed o 12%; cwblhawyd atgyweiriadau ymatebol i dai mewn 15.6 diwrnod ar gyfartaledd yn erbyn targed o 18 diwrnod; 98.5% o sefydliadau bwyd yn bodloni safonau hylendid bwyd; ailgylchu gwastraff o adeiladau'r Cyngor ar 56.57% yn erbyn targed o 47%, a phob stryd a archwiliwyd yn cael eu hasesu fel rhai glân.

Nodwyd bod saith dangosydd yn tanberfformio - ymatebion i'r ymgynghoriad Cymraeg, cwblhau ymholiadau amddiffyn oedolion o fewn amserlenni statudol, amseroedd ailosod tai (er eu bod wedi gwella'n sylweddol), archwiliadau rheolaidd o fusnesau bwyd risg uchel, cyfraddau ailgylchu gwastraff domestig, amseroedd ymateb Rhyddid Gwybodaeth a lefelau absenoldeb oherwydd salwch. Mae mesurau lliniaru ar waith ar gyfer pob maes a bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn eu monitro i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

Wrth adolygu'r cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer Ch1 2026/27, trafodd y pwyllgor y themâu canlynol:

- **Yr Iaith Gymraeg**

Cododd yr Aelodau sawl cwestiwn am ymatebion i ymgynghoriadau a wnaed yn Gymraeg a sut y gellid gwella'r rhain, gan gynnwys a oedd y targed yn ddigon heriol o ystyried cyfran y siaradwyr Cymraeg ar yr ynys ac a oedd holiaduron ymgynghori yn defnyddio iaith glir a hawdd ei deall. Gofynnwyd cwestiynau hefyd am recriwtio pobl sy'n siarad Cymraeg, yn benodol cyfran y swyddi a hysbysebwyd ar Lefel 3 neu uwch a gafodd eu llenwi mewn gwirionedd gan ymgeiswyr â'r lefel honno o gymhwysedd a ph'un ai a dderbyniwyd lefelau is yn ymarferol.

Dywedodd swyddogion, er bod y targed ar gyfer ymatebion i ymgynghoriadau a wnaed yn Gymraeg yn ymddangos yn isel, yr her yw newid arferion a normau pobl. Unwaith y bydd unigolion yn gadael addysg ac yn mynd i weithleoedd y tu allan i'r sector cyhoeddus, mae'r Gymraeg yn aml yn cael ei defnyddio llai ac mae'r Saesneg yn tueddu i gael ei

defnyddio mwy. Mae targedau yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u gosod ar lefelau a fydd yn sbarduno gwelliant. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn cael eu dylanwadu gan y pwnc, y gynulleidfa a'r dull o ymgysylltu. Er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i gadw ymgynghoriadau yn syml, rhaid cynnal safonau iaith a phroffesiynoldeb, yn enwedig mewn meysydd technegol lle mae terminoleg yn bwysig. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod pob ymgynghoriad yn ddwyieithog, mae wedi treialu gwahanol ddulliau o annog ymatebion Cymraeg, a bydd yn adolygu'r ymgynghoriadau diweddar i nodi unrhyw ymyriadau pellach.

O ran recriwtio, eglurodd Swyddogion fod swyddi a hysbysebair ar Lefel 3 neu uwch yn adlewyrchu angen y gwasanaeth ar gyfer y sgiliau hynny. Yr her yw cydbwyso'r gofyniad i wasanaethu cymunedau drwy'r Gymraeg gyda'r angen i ddenu ymgeiswyr addas. Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmeriaid y byddai'n fodlon archwilio'r data ymhellach, gan gynnwys y rhesymau pam na chafodd 22 o swyddi eu hysbysebu ar Lefel 3 neu uwch yn y Gymraeg.

Nododd yr Aelodau fod y Cyngor yn recriwtio staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i swyddi cymwys proffesiynol ac yn darparu hyfforddiant Cymraeg. Awgrymwyd y gellid ystyried y gwrthwyneb hefyd – recriwtio unigolion â sgiliau Cymraeg Lefel 3 nad ydynt eto yn meddu ar yr holl gymwysterau proffesiynol a'u cefnogi i ennill y cymwysterau hynny.

Cafodd y pwyllgor sicrwydd bod presenoldeb y swyddogion ar gyrsiau Cymraeg yn iach, a'r her yw sicrhau bod yr hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu ar y lefel gywir. Rhaid asesu swyddi ar sail lefel y cymhwysedd yn y Gymraeg sy'n wirioneddol ofynnol i gyflawni dyletswyddau'n effeithiol yn hytrach na hysbysebu yn awtomatig ar y lefel uchaf.

• **Gofal Cymdeithasol a Llesiant**

- Cwestiynodd yr Aelodau'r cynnydd mewn ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a arweiniodd at DP 02 Gofal Cymdeithasol a Llesiant (canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol) yn methu ei darged.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod perfformiad y dangosydd wedi'i archwilio'n fanwl ac y gellid priodoli'r cynnydd i ddau ffactor – newid demograffig ar yr ynys gyda mwy o oedolion yn byw yn hirach ac angen cefnogaeth, a mwy o ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau amddiffyn oedolion ymhlith asiantaethau a sefydliadau sy'n gweithio gydag oedolion agored i niwed. Er mai'r amserlen statudol ar gyfer ymateb i ymholiadau amddiffyn oedolion yw saith diwrnod, gall trafodaethau â thrydydd partion ymestyn yr amser ymateb y tu hwnt i'r amserlen, gan arwain at ei gwblhau ar yr wythfed neu'r nawfed diwrnod. Sicrhaodd y pwyllgor bod adolygiad manwl o'r data yn dangos bod rhesymau dilys dros ymatebion sy'n hwyrach na'r amserlen statudol ac nad oedd hyn wedi arwain at unrhyw niwed i unrhyw unigolion. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi adolygu ei weithdrefnau ymateb a gall ail-leoli staff cymwys i reoli galw uchel pan fo angen.

Trafododd y pwyllgor hefyd effaith cartrefi gwag ar ofal cymdeithasol a dywedwyd wrtho fod unrhyw effaith yn ymylol ac yn anuniongyrchol. Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth bellach i'r pwysau y mae digartrefedd cynyddol yn ei roi ar wasanaethau.

• **Addysg**

Mewn ymateb i gwestiynau am fesurau i wella presenoldeb disgyblion a oedd yn is na'r lefel a gyflawnwyd yn Chwarter 1 y flwyddyn flaenorol, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ac Aelod Portffolio fod presenoldeb yn parhau i fod yn her genedlaethol ac yn amcan strategol i'r cyngor. Eglurwyd y bydd Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant newydd Ynys Môn yn gweithio mewn ffordd fwy integredig ac ataliol yn enwedig ochr yn ochr â Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Nod y dull hwn yw sicrhau bod ymyriadau amserol a phriodol yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi disgyblion yr effeithir arnynt a'u teuluoedd. Mae ADY a chynlluniau cynhwysiant o dan y trefniadau blaenorol ar y cyd hefyd yn cael eu hadolygu i asesu eu heffeithiolrwydd, ac mae capasiti ychwanegol

wedi'i gyflwyno o fewn y tîm Llesiant Addysg. Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi anfon llythyr at rieni yn tynnu sylw at bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd yr Arweinydd Strategol newydd ar gyfer ADY, Cynhwysiant ac Ymgysylltu yn adrodd ar gynnydd ac effaith y gwasanaeth newydd ym mis Tachwedd. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc sicrwydd hefyd bod disgyblion sydd wedi'u heithrio o'r ysgol yn parhau i dderbyn cymorth a darpariaeth addysgol, naill ai trwy ganolfan ddysgu neu leoliad ysgol amgen.

- **Tai**

- Gofynnodd y pwyllgor am eglurhad ynghylch DP 09 – canran yr aelwydydd a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref, o ystyried bod perfformiad yn erbyn y dangosydd yn cael ei adrodd fel 100%. Gofynnodd yr aelodau i bwy mae'r ffigwr yn berthnasol ac a ellid ei rannu rhwng unigolion a oedd wedi sicrhau tai parhaol a'r rhai sydd wedi'u lleoli mewn llety brys neu dros dro.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod y diffiniad o ddigartrefedd a ddefnyddir ar gyfer y dangosydd hwn wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru a'i fwriad yw sicrhau nad oes rhaid i unrhyw unigolyn gysgu allan. O ganlyniad, pan fydd person yn dweud ei fod yn ddigartref, y flaenoriaeth bennaf yw sicrhau bod to uwch ei ben trwy lety brys neu dros dro.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod 46 o unigolion mewn tai cyfleusterau a rennir ar hyn o bryd tra bod 35 arall yn byw mewn llety dros dro hunangynhwysol. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai, at ddibenion y dangosydd, bod atal digartrefedd yn golygu sicrhau bod gan unigolyn fynediad at lety ac nad oes rhaid iddo neu iddi gysgu ar y strydoedd, tra mai'r amcan tymor hir yw cefnogi unigolion i sicrhau tenantiaeth mewn tai parhaol addas.

- **Economi**

- Cwestiynodd y pwyllgor pryd y byddai'r buddsoddiad a wnaed trwy gyllideb y flwyddyn flaenorol yn dechrau gwella perfformiad yn erbyn deddfwriaeth hylendid bwyd. (DP 07 – derbyniodd canran y busnesau bwyd risg uchel archwiliadau rheolaidd a oedd yn 68% yn erbyn targed o 90%)

Eglurodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod archwiliadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal gan dîm lechyd yr Amgylchedd a bod y gyllideb ychwanegol a gymeradwywyd y llynedd wedi'i chyfeirio at y gwasanaeth Safonau Masnach yn hytrach nag lechyd yr Amgylchedd. Eglurodd fod 156 o archwiliadau hylendid bwyd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, gyda 90 arall yn cael eu cynnal yn Chwarter 1 2026/27. Rhoddwyd blaenoriaeth i fusnesau bwyd newydd heb eu sgorio i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y rhaglen archwilio cyn gynted â phosibl. Dywedodd y Swyddog fod y gwasanaeth yn hyderus y bydd yr holl archwiliadau Categori C yn cael eu cwblhau yn ystod Chwarter 2. At hyn, cadarnhaodd fod staff ychwanegol wedi ymuno â'r tîm lechyd yr Amgylchedd ym mis Awst a disgwylir i'r person yma gyfrannu at wella perfformiad yn erbyn y dangosydd yn y cyfnod adrodd nesaf.

Mewn ymateb i gais penodol, cafodd y pwyllgor hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith parhaus i ddatblygu'r sylfaen sgiliau leol a chreu llwybrau hyfforddi a chyflogaeth i bobl ifanc ar yr ynys i'w galluogi i elwa ar y cyfleoedd gwaith y disgwylir eu creu drwy ddatblygu'r cyfleuster niwclear newydd ar safle presennol Wylfa.

- **Newid yn yr Hinsawdd**

Mewn ymateb i nifer o gwestiynau gan aelodau ynglŷn â newid yn yr hinsawdd, perfformiad ailgylchu gwastraff domestig a mesur glendid strydoedd, rhoddodd Swyddogion ac Aelod Portffolio Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yr eglurhad canlynol –

- Mae ysgolion yn cymryd rhan mewn rhaglenni newid hinsawdd achrededig; fodd bynnag, mae'r data perthnasol yn cael ei gasglu a'i adrodd yn flynyddol yn hytrach na bob chwarter.
- Cynhelir archwiliadau glendid strydoedd gan ddefnyddio'r System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol (LEAMS). Cynhelir archwiliadau gan swyddogion y Cyngor a Biffa ar ran y Cyngor a chwblheir tua 50 o archwiliadau bob mis. Mae'r canlyniadau'n cael eu coladu a'u cyflwyno i Cadwch Gymru'n Daclus. Asesir nifer o fesurau gan gynnwys defnydd a dwysedd tir, mathau o sbwriel, a gwasanaethu biniau cyhoeddus. Yn ogystal â hyn, mae contract y Cyngor gyda Biffa yn cynnwys safonau glendid strydoedd, ac mae'r contractwr yn eu cynnal mewn dull rhagweithiol.
- Bwriad y cam o newid y biniau gwastraff gweddilliol 240 litr presennol am finiau llai 180 litr, er ei fod yn ymddangos yn groes i'r hyn y byddid yn ei ddisgwyl o safbwynt cynaliadwyedd, yw cefnogi'r Cyngor i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru i ailgylchu 70% o wastraff cartref. Yn ôl sawl awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedi cyflwyno biniau gwastraff gweddilliol llai mae cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu. Er mwyn cefnogi preswylwyr i ailgylchu mwy, bydd aelwydydd sydd angen capasiti ychwanegol yn gallu gofyn am gynhwysydd ychwanegol ar gyfer papur a chardbord neu ganiau a phlastigion. Bydd biniau gwastraff gweddilliol presennol yn cael eu defnyddio i bwrpas arall a byddant ar gael i aelwydydd mwy.
- Bwriad y buddsoddiad yn nwy ganolfan ailgylchu'r Cyngor yw uwchraddio a moderneiddio systemau ac offer presennol gan hefyd gynyddu capasiti ailgylchu a gwella effeithlonrwydd gweithredol.

Ar ôl adolygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch1 2026/27, nodi a chroesawu'r meysydd oedd yn perfformio'n dda ac ystyried yr ymatebion a roddwyd i'r materion a godwyd, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol -

- **Nodi'r meysydd sy'n cael eu harchwilio gan y Tîm Arweinyddiaeth i reoli perfformiad a sicrhau gwelliannau pellach. Mae'r rhain yn cynnwys: - Y Gymraeg (ymatebion i ymgynghoriadau), Gofal Cymdeithasol a Llesiant (cwblhawyd ymholiadau amddiffyn oedolion o fewn amserlenni); Tai (ailosod eiddo gwag); Economi (archwilio busnesau bwyd risg uchel yn rheolaidd), Newid yn yr Hinsawdd (cyfraddau ailgylchu gwastraff domestig) ac lechyd y Cyngor Cyfan (ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen a lefelau absenoldeb oherwydd salwch).**
- **Argymhell adroddiad y cerdyn sgorio ynghyd â'r mesurau lliniaru a amlinellir ynddo, i'r Pwyllgor Gwaith.**

4. MESUR CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN STRATEGOL CARTREFI GWAG 2023-2028

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn amlinellu cynnydd yn erbyn Cynllun Strategol Cartrefi Gwag 2023-2028 i'r Pwyllgor ei ystyried, a chraffu arno.

Cyflwynodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol yr adroddiad gan nodi bod cartrefi gwag yn adnodd gwastraffus a allai helpu i leihau'r pwysau ar stoc dai Ynys Môn. Mae'r cynllun yn ceisio cynyddu'r cyflenwad tai drwy wella'r drefn o gasglu a dadansoddi data, mwy o ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael, darparu cymorth ariannol i berchnogion eiddo, a defnyddio dulliau gorfodi lle bo'n briodol i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

Rhwng 2023 a 2026, daeth 211 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, gan gynnwys 78 a gefnogwyd trwy grantiau neu fenthyciadau. Ymhlith y prosiectau nodedig roedd adnewyddu Plas Alltran Caergybi ac ailddatblygu hen Glwb Cymdeithasol Biwmares, y ddau ohonynt bellach yn darparu tai fforddiadwy. Mae capasiti'r gwasanaeth hefyd wedi'i gryfhau yn sgil

penodi Swyddog Cartrefi Gwag Cynorthwyol. Yn ogystal â hyn, mae prosesau newydd ar gyfer casglu ac adrodd data wedi'u cyflwyno, gan arwain at wella'r drefn fonitro.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae sawl her yn parhau. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd yn nifer y cartrefi gwag hirdymor, o 421 ym mis Ebrill 2023 i 582 ym mis Ebrill 2025, costau adnewyddu cynyddol a chapasiti cyfyngedig i wneud defnydd ehangach o bwerau gorfodi. Bydd y ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod ar ddatblygu matrices sgorio i dargedu a blaenoriaethu achosion yn well, gwella prosesau CRM a data, codi ymwybyddiaeth ymhlith perchnogion eiddo ac ymdrechion parhaus i gynyddu nifer yr eiddo gwag sy'n dod yn ôl i ddefnydd.

Wrth adolygu'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Strategol Cartrefi Gwag, cododd y pwyllgor y materion canlynol -

- Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw batrwm daearyddol yn y dosbarthiad o gartrefi gwag a chwestiynwyd effeithiolrwydd y cynllun o ystyried y cynnydd yn nifer yr eiddo gwag. Gofynnodd yr Aelodau hefyd pryd y disgwylir y byddai nifer y cartrefi gwag yn dechrau gostwng.

Dywedodd swyddogion a'r Aelod Portffolio, er bod proffil a natur eiddo gwag yn amrywio, bod y mwyafrif wedi'u lleoli mewn ardaloedd arfordirol a threfi. Y tai sy'n tueddu i aros yn wag am y cyfnod hiraf yw tai teras. Bydd y gwasanaeth yn parhau i weithredu'r Cynllun Strategol ac yn defnyddio'r mesurau sydd ar gael i annog perchnogion i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddusrwydd a chanllawiau wedi'u targedu, hyrwyddo cyfleoedd cyllido a defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo gwag, a fydd o fis Ebrill 2027 yn cynyddu'n raddol ar sail yr amser y mae eiddo wedi bod yn wag. Sicrhawyd y pwyllgor bod y cynllun wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynyddu'r cyflenwad tai a sicrhau bod mwy o eiddo ar gael i drigolion yr ynys. Fodd bynnag, cydnabu'r Aelod Portffolio fod rhagweld amodau'r farchnad dai a nodi'r ymyriadau mwyaf effeithiol yn parhau i fod yn her.

Hysbyswyd yr Aelodau hefyd bod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gyfrifol am benderfynu a yw eiddo'n cael ei gynnwys neu ei eithrio o sylfaen dreth y Cyngor. Mae'r penderfyniad hwn yn seiliedig ar nifer o feini prawf gan gynnwys p'un ai yr ystyrir bod eiddo yn addas i'w ddefnyddio.

(Ar y pwynt hwn, gadawodd y Cadeirydd y Gadair am gyfnod byr, a chymerodd yr Is-gadeirydd ei le yn y gadair am y cyfnod hwnnw).

- Gofynnodd yr aelodau a oedd cysylltiadau rhwng ymdrechion i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd a mentrau strategol eraill, megis adfywio canol trefi a dyrannu masnachfreintiau bysiau, i sicrhau dull cydgysylltiedig a chydweithredol.

Roedd yr Aelod Portffolio yn cydnabod pwysigrwydd y pwynt hwn a thynnodd sylw at adnewyddu hen adeilad banc Santander yn Llangefni o dan Gynllun Prydlesu Cymru fel enghraifft. Mae'r prosiect wedi creu chwe fflat uwchben yr adeilad ar stryd fawr y dref gan ddarparu tai ychwanegol yn ogystal â chefnogi gweithgarwch economaidd yng nghanol y dref. Sicrhodd y pwyllgor fod cysylltiadau eisoes yn bodoli rhwng y rhaglen cartrefi gwag a mentrau adfywio a datblygu ehangach ac y bydd y cyswllt hwn o ran gweithgareddau yn parhau.

- Ceisiodd y pwyllgor sicrwydd bod digon o gyllid ar gael i gefnogi'r broses o adnewyddu eiddo gwag a bod y gyllideb yn ddigonol i ateb y galw presennol.

Dywedwyd wrth y pwyllgor fod nifer ehangach o gynlluniau cymorth ariannol bellach ar gael i helpu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Y dull yw ymgysylltu â pherchnogion

eiddo i ddechrau i sefydlu eu bwriad ar gyfer yr eiddo ac yna nodi'r cymorth neu'r ymyrraeth fwyaf priodol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Penderfynwyd derbyn cynnwys yr adroddiad cynnydd sy'n rhoi sicrwydd bod y Cynllun Strategol Cartrefi Gwag yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cael ei weithredu a'i fonitro.

5. MESUR CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI ASEDAU (TAI) 2024-2029

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai sa oedd yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn Cynllun Strategol Rheoli Asedau (Tai) 2024-2029 i'r Pwyllgor ei ystyried, a chraffu arno.

Cyflwynodd y Cyngorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol yr adroddiad gan nodi bod y gwaith o gyflawni'r cynllun yn parhau i fod ar y trywydd iawn gyda'r cynnydd cyffredinol wedi'i sgorio fel Melyn ar hyn o bryd. Mae'r cynllun yn cefnogi ymrwymiad y Cyngor i gydymffurfio â gofynion Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023. Tynnodd sylw at ddwy brif raglen waith gyda'r nod o fodloni'r gwaith i adnewyddu cegin a chyflawni safonau effeithlonrwydd ynni uchelgeisiol a nodir o dan SATC. Yn ystod y cyfnod adrodd, dechreuodd y Gwasanaeth Tai ddwy raglen hirdymor 5 mlynedd ar gyfer ailosod ceginau a gosod systemau solar ffotofoltäig gyda storwyr batris. Dechreuodd y ddwy raglen ar y safle ym mis Ionawr 2025 ac maent yn mynd rhagddynt yn dda.

Mae llwybrau ynni wedi'u targedu wedi'u datblygu ar gyfer pob cartref ac mae 94% o'r gosodiadau solar ffotofoltäig arfaethedig wedi'u cwblhau. Yn sgil ail-fesur 477 o'r eiddo a gwblhawyd dangosir bod 78% bellach yn cyrraedd sgôr EPC C75.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at gydymffurfiaeth barhaus â gofynion diogelwch statudol ochr yn ochr â buddsoddiad parhaus mewn addasiadau a thechnoleg gynorthwyol i gefnogi byw'n annibynnol. Yn ogystal â hyn, mae arolwg STAR diweddaraf y Gwasanaeth Tai yn dangos lefelau uchel o foddhad ymysg tenantiaid. Er bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud, mae nifer o risgiau yn parhau. Mae'r rhain yn cynnwys fforddiadwyedd hirdymor cyflawni'r Cynllun drwy'r CRT, bod tenantiaid yn gwrthod bod yn rhan o'r cynllun, perfformiad contractwyr a chyfyngiadau allanol fel capasiti rhwydwaith a chymeradwyaeth SPEN sy'n ofynnol i ddarparu gosodiadau solar yn gyffredinol. Mae camau yn cael eu cymryd i reoli'r risgiau hyn.

Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn dangos bod y Cynllun Strategol yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gyflawni targedau SATC, cryfhau'r dasg o reoli asedau a chynnal cydymffurfiaeth statudol.

Wrth adolygu'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Strategol Rheoli Asedau Tai, cododd y pwyllgor y materion canlynol –

- Gofynnodd yr aelodau a oes digon o ymgysylltu â thenantiaid i'w hannog i dderbyn gwaith adnewyddu, megis ailosod ceginau, ac a all achosion o denantiaid sy'n gwrthod bod yn rhan o'r cynllun greu heriau ychwanegol pan fydd eiddo yn cael eu hailosod ar ôl i denantiaeth ddod i ben.

Dywedodd swyddogion, er bod yn rhaid parchu dymuniadau tenantiaid, gall achosion o denantiaid yn gwrthod bod yn rhan o'r cynllun gynyddu'r amser sydd ei angen i baratoi ac ail-osod eiddo ar gyfer tenant newydd. Fodd bynnag, mae profiad wedi dangos y gall tenantiaid ailystyried eu penderfyniad, yn enwedig pan fyddant yn gweld gwelliannau yn cael eu gwneud mewn eiddo cyfagos a manteision cegin newydd. Hysbyswyd yr Aelodau bod yr ymateb i'r rhaglen eleni wedi bod yn galonogol gyda mwyafrif y tenantiaid yn nodi eu parodrwydd i gymryd rhan.

- Gofynnodd yr Aelodau am y dulliau a ddefnyddir i asesu anghenion tai.

Dywedwyd wrth y pwyllgor bod data o'r arolwg cyflwr stoc a gwblhawyd yn 2022/23 yn sail i bennu gofynion buddsoddi a rhaglenni gwaith rheolaidd. Gellir defnyddio cofnodion ychwanegol a gwybodaeth leol hefyd lle bo hynny'n briodol.

- Holodd yr aelodau am y dull o newid systemau gwresogi trydan a LPG presennol sy'n gallu bod yn gostus.

Dywedodd swyddogion fod gan tua 50 o gartrefi foeleri gwresogi trydan ar hyn o bryd a bod canlyniadau perfformiad ynni yn wael. Mae'r gwasanaeth wedi ysgrifennu at denantiaid yr eiddo yma i asesu eu parodrwydd i newid systemau; fel arall bydd y systemau'n cael eu huwchraddio pan fydd tenantiaethau yn newid. Esboniodd swyddogion fod y sefyllfa yn fwy cymhleth gyda systemau gwresogi LPG gan fod y rhain yn cael eu defnyddio mewn byngalos gwarchod. Er bod y systemau hyn yn effeithiol, maent yn gostus i'w cynnal. Fel rhan o ymrwymiadau sero net y Cyngor, efallai y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd gyda goblygiadau ariannol.

- Gofynnodd yr Aelodau am eiddo a allai fod yn anaddas i'w moderneiddio.

Dywedwyd wrth y pwyllgor y gallai nifer fach o eiddo fod yn anodd eu huwchraddio ac y bydd angen ystyried opsiynau ar gyfer y cartrefi hyn yn ofalus.

- Ceisiodd yr Aelodau sicrwydd bod tenantiaid cartrefi newydd y Cyngor yn cynnal eu heiddo i'r safon y cawsant eu derbyn. Awgrymwyd y gellid cyflwyno cymhellion i wobrwyo tenantiaid sy'n cadw eu cartrefi mewn cyflwr da, a thrwy hynny annog eraill i wneud yr un peth.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod disgwyl i denantiaid gynnal eiddo. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi Swyddog Rheoli Ystadau a Swyddogion Cynnal a Chadw a'i nod yw cynnal archwiliadau eiddo blynyddol. Ychwanegodd y byddai'n hapus i geisio canfod a yw unrhyw landlordiaid cymdeithasol eraill wedi cyflwyno cynlluniau sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo tenantiaid sy'n gofalu am eu cartrefi.

Penderfynwyd derbyn cynnwys yr adroddiad cynnydd sy'n rhoi sicrwydd bod y Cynllun Strategol Rheoli Asedau (Tai) yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cael ei weithredu a'i fonitro.

6. BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 i'w ystyried a'i adolygu.

Penderfynwyd -

- Cytuno ar y fersiwn bresennol o'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2026/27.
- Nodi cynnydd hyd yma wrth weithredu'r blaenraglen waith.

**Y Cyngorydd Jeff Evans
Cadeirydd**

03/2026

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad Sgriwtini

Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
Dyddiad:	14 Hydref 2026
Pwnc:	Cynghorau Gogledd Cymru - Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol 2025/26
Cadeirydd Sgriwtini:	Cynghorydd Jeff Evans

1. Pwy fydd yr aelod portffolio / swyddog arweiniol a fydd yn cyflwyno'r adroddiad?

Aelod Portffolio	Rôl
Y Cynghorydd Gary Pritchard	Arweinydd y Cyngor
Swyddog Gwasanaeth (Cefnogi)	Rôl
Helen Kilgannon	Rheolwr Rhanbarthol NWC-REPS
Susan Owen Jones	Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth)

2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'n ofynnol i Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru adrodd yn flynyddol i'r pwyllgor hwn, ar ffurf Adroddiad Blynyddol.

3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac Argymhellion

- ☒ Er sicrwydd
- ☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
- ☐ Er gwybodaeth

Argymhelliad/argymhellion:

Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru 2025/26 a chyflwyno sylwadau arno.

4. Sut mae'r argymhelliad/argymhellion yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

4.1 Mae gan y Cyngor ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Rheoliadau (Parodrwydd a Gwybodaeth Gyhoeddus) Argyfyngau Ymbelydrol 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.

4.2 Mae'r Cyngor yn brif ymatebydd ac mae'n cyflawni ei rwymedigaethau trwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru trwy Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru (NWC-REPS).

4.3 Mae'n ofynnol i Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Cyngorau Gogledd Cymru adrodd yn flynyddol i'r pwyllgor hwn, ar ffurf Adroddiad Blynyddol.

5. Themâu sgrwtini allweddol

Themâu allweddol y dylai'r Pwyllgor Sgrwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Digwyddiadau sylweddol ac ymatebion amlasiantaethol yn ystod 2025/26, yn cynnwys tywydd garw, amhariad i seilwaith a digwyddiadau cyflenwad dŵr.
2. Mesurau cyfredol i gydymffurfio gyda dyletswyddau cynllunio ar gyfer argyfwng statudol a chynnal gwydnwch sefydliadol.
3. Gweithgareddau paratoi wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys parhad busnes, hyfforddiant, ymarfer a datblygu cynllun.
4. Risgiau newydd a blaenoriaethau gwasanaeth ar gyfer 2026/27, yn cynnwys addasu i'r hinsawdd, gwydnwch seilwaith, gwydnwch seibr, a chymorth ar gyfer pobl fregus yn ystod argyfwng.

6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

6.1 Mae gan y Cyngor ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Rheoliadau (Parodrwydd a Gwybodaeth Gyhoeddus) Argyfyngau Ymbelydrol 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.

6.2 Mae'r Cyngor yn brif ymatebydd ac mae'n cyflawni ei rwymedigaethau trwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru trwy Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru (NWC-REPS), a Chyngor Sir y Fflint yw'r awdurdod lletyol ar gyfer y gwasanaeth.

6.3 O fewn y Cyngor, mae cyfrifoldebau am gynllunio at argyfyngau ac ymateb iddynt yn cael eu rhannu ymysg y gwasanaethau ac mae cynrychiolwyr gwasanaeth dynodedig yn cael eu nodi o fewn strwythur y Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng.

6.4 Mae'r prif feysydd y canolbwyntiwyd arnynt yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys:

6.4.1 Tywydd Garw ac Amhariad i Seilwaith

Yn ystod 2025/26, cefnogodd NWC-REPS ymateb i amrywiaeth o ddigwyddiadau tywydd garw ac yn ymwneud â seilwaith ledled gogledd Cymru. Gwnaeth y Gwasanaeth Swyddog Dyletswydd fonitro ac asesu 213 o Rybuddion Llifogydd a sawl Rhybudd Tywydd y Swyddfa Dywydd oedd yn effeithio ar y rhanbarth. Gwnaeth y Gwasanaeth gydlynw'r gwaith o rannu gwybodaeth a hyrwyddo ymwybyddiaeth sefyllfaol yn ystod digwyddiadau megis Storm Amy, Claudia, Goretti, tirlithriadau arfordirol yn effeithiol Ynys Môn, digwyddiad cyflenwad dŵr Bryn Cowlyd, amhariadau wrth groesi'r Fenai a materion gweithredol ym Mhorthladd Caergybi.

6.4.2 Gwydnwch a Pharodrzydd Cyngor Sir Ynys Môn mewn Argyfwng

Yn ystod y cyfnod adrodd, cwblhaodd y Cyngor adolygiad o'i drefniadau Parhad Busnes, gan fabwysiadu dull seiliedig ar swyddogaeth i adnabod gweithgareddau hanfodol a chryfhau gwydnwch sefydliadol. Aeth gwasanaethau unigol ati i adolygu a diweddarau eu cynlluniau parhad a chyflwyno cyfeirlyfr o gysylltiadau brys newydd i ddarparu gwybodaeth hollbwysig yn ystod argyfwng.

Cwblhaodd y Cyngor adolygiad ar drefniadau'r Ganolfan Orffwys, gan gyflwyno gweithdrefnau, ymyraethau a threfniadau cyswllt newydd. Cafodd y trefniadau hyn eu profi yn ystod ymarferiad amlasiantaethol oedd yn cynnwys gwasanaethau'r Cyngor a Heddlu Gogledd Cymru, gan ddarparu sicrwydd y gallai'r Cyngor gefnogi trigolion wedi'u dadleoli yn ystod argyfyngau'n effeithiol.

6.4.3 Parodrzydd y Fenai a Morwrol

Mae gwaith i gryfhau trefniadau wrth gefn yn ymwneud â'r ddwy bont dros y Fenai ac argyfyngau morwrol wedi parhau. Cymerodd y Cyngor ran mewn Grŵp Tasg a Gorffen amlasiantaethol oedd yn adolygu trefniadau wrth gefn pe byddai amhariadau'n effeithio'r pontydd dros y Fenai. Mae trefniadau newydd wedi darparu gwell eglurhad mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau asiantaethau, ac wedi'u profi drwy raglen o ymarferion.

Yn ychwanegol, cryfhawyd trefniadau ymateb mewn argyfwng morwrol drwy ddatblygu Cerdyn Gweithredu Awdurdod Lleol a chymryd rhan mewn ymarferion amlasiantaethol i brofi Fframwaith Ymateb i Ddigwyddiad Morwrol Fforwm Gwytnwch Gogledd Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi cyfrifoldebau morwrol sylweddol y Cyngor yn ymwneud â Phorthladd Caergybi, cymunedau arfordirol a chysylltiadau trafndiaeth forwrol.

6.4.4 Hyfforddiant, Ymarfer a Chydweithio Amlasiantaethol

Mae NWC-REPS wedi parhau i gefnogi rhaglen gynhwysfawr o ymarferion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wedi'u dylunio i wella parodrwydd a dilysu trefniadau ymateb i argyfwng. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn ymarferion ymateb i'r pandemig, ymarferion digwyddiadau morwrol, ymarferion colli cyflenwad dŵr ac ymarferion amhariad ar drafnidiaeth. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi hwyluso hyfforddiant a gweithgareddau ymwybyddiaeth ledled gogledd Cymru, gan gryfhau'r gallu i ryngweithredu rhwng awdurdodau lleol, gwasanaethau brys, sefydliadau gwirfoddol a phartneriaid gwydnwch eraill.

7. Asesiadau ar Effaith

7.1. A oes asesiad effaith wedi ei gwblhau (ystyriaethau i gydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, yr iaith Gymraeg)?

☐ Oes

☒ Na

Os na, eglurwch pam: Mae hwn yn adroddiad blynyddol ac nid oes asesiad ar effaith ar wahân wedi ei gwblhau ar gyfer yr adroddiad ei hun.

7.2. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

D/B

7.3. Effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

D/B

7.4. Effeithiau posib ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Mae nifer o ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod adrodd wedi amlygu pwysigrwydd gallu adnabod a chefnogi unigolion bregus yn brydlon mewn argyfyngau. Mae'r digwyddiadau hyn wedi rhoi pwyslais ar yr heriau mae'r asiantaethau sy'n ymateb yn eu hwynebu wrth gasglu a rhannu gwybodaeth yn ymwneud â'r rheiny a all fod angen cymorth ychwanegol yn ystod cyfnod o fethiannau seilwaith estynedig a sefyllfaoedd brys eraill.

I fynd i'r afael a hyn, mae NWC-REPS wedi parhau i arwain gwaith ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r Rheolwr Rhanbarthol yn cadeirio Grŵp Gwybodaeth a Data Partneriaeth Gwydnwch Cymru ar hyn o bryd, sy'n edrych ar opsiynau i wella'r gwaith o rannu a defnyddio data am bobl bregus yn ystod argyfyngau. Mae'r gwaith yn ceisio cefnogi dull amlasiantaethol sy'n cael ei gydlynw'n well ledled Cymru, gan alluogi ymatebwyr i

adnabod pobl fregus yn fwy effeithiol, blaenoriaethu cymorth lle mae ei angen fwyaf a lleihau effeithiau posibl argyfyngau ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, neu sydd ag anghenion gofal neu gymorth ychwanegol.

7.5. Effaith bosib ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

Ni nodwyd unrhyw effaith posib.

8. Goblygiadau Ariannol

Y llynedd, roedd cyfraniad blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn at y gwasanaeth yn £58,752, heb unrhyw newid. Mae'r cyfraniad yn seiliedig ar gyfran o 10.472% tuag at y gyllideb flynyddol ar gyfer y gwasanaeth hwn. Ers y dechrau, mae'r Gwasanaeth wedi lleihau cyfraniadau gan y 6 awdurdod lleol o fwy na £350k. Fodd bynnag, cwblheir adolygiad ar gyllidebau tra bo'r Gwasanaeth yn cael ei gynnal gan Sir y Fflint, sydd yn y broses o gwblhau gwaith modelu tâl, a all effeithio ar gostau'r gwasanaeth. Yn ychwanegol, gwelwyd cynnydd yn y cyllid gan y Fforwm Gwydnwch Lleol.

Awdurdod Lleol	Cyfraniad Blynyddol mewn %
Cyngor Sir Ynys Môn	10.472%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	16.940%
Cyngor Sir Ddinbych	14.865%
Cyngor Sir y Fflint	19.348%
Cyngor Gwynedd	17.979%
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	20.396%
CYFANSWM	100%

9. Atodiadau

Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru 2025/26

10. Awdur yr Adroddiad a phapurau cefndir

Helen Kilgannon – Rheolwr Rhanbarthol NWC-REPS
Susan O Jones - Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth)



Adroddiad Blynyddol 2025/26

Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg o'r gwaith a gwblhawyd yn ystod blwyddyn ariannol 2025-2026 gan GCARh-CGC. Mae'n amlygu cyflawniadau, datblygiadau a chydweithrediadau allweddol a ddarparwyd i gefnogi'r chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, a Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd.



Cynghorau Gogledd Cymru Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol (GCARh-CGC)

Cefnogi Gwytnwch Ar Draws gogledd Cymru

Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol Gogledd Cymru a phartneriaid amlasiantaeth i wella parodrwydd, ymateb ac adferiad.

ymholiadau@nwc-reps.org.uk 01352 702124

Paratowyd gan:
Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru



Cyflwyniad


Mae Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru (GCARh-CGC) yn gydweithrediad rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae'r Gwasanaeth yn darparu dull cydlynol rhanbarthol i argyfyngau sifil posibl trwy ddarparu swyddogaethau cynllunio rhag argyfwng statudol ar ran y chwe awdurdod. Mae'n gweithredu dan lywodraeth Bwrdd Gweithredol ac yn cynnwys uwch gynrychiolwyr gan bob Cyngor, gan sicrhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd strategol cryf.

Mae GCARh-CGC yn cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth allweddol, gan gynnwys Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 2015, Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996, a Rheoliadau Ymbelydredd (Parodwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd) 2019.

Mae'r Gwasanaeth yn gweithio i sicrhau cyn lleied o ddyblygu ymdrechion â phosibl, gwella cysondeb a chydlynid ar draws awdurdodau, gwella cadernid sefydliadol, a chynyddu'r defnydd effeithiol o adnoddau trwy rannu arbenigedd a chydweithio. Mae hefyd yn chwarae rôl allweddol yn cryfhau cyfathrebu a chydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd, gan gefnogi dull cadarn ac integredig i gynllunio rhag argyfwng ar draws y rhanbarth.

Tudalen 15



Y Cyd-destun Cenedlaethol

Cwblhawyd y gwaith cynllunio rhag argyfwng a gwaith cadernid ar draws gogledd Cymru yn ystod 2025-2026 mewn cyfnod o heriau cenedlaethol a rhyngwladol cynyddol. Mae Cofrestr Risg Genedlaethol Llywodraeth y DU yn nodi tywydd difrifol, llifogydd, amhariad i isadeiledd, digwyddiadau seibr, lledaeniad afiechydon heintus, amhariad i'r gadwyn gyflenwi, a therfysgaeth fel y peryglon mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r Deyrnas Unedig.

Adlewyrchwyd nifer o'r peryglon hyn yn uniongyrchol mewn profiadau ar draws gogledd Cymru yn ystod y cyfnod adrodd. Mae achosion o dywydd garw, llifogydd, amhariad i gyflenwadau dŵr, digwyddiadau ar y rhwydwaith gludiant, tannau gwyllt, pryderon mewn perthynas â chyflenwad tanwydd, a chynlluniau seibrgadernid i gyd yn elfennau blaenllaw o waith GCARh-CGC a sefydliadau partner.

Mae newid hinsawdd yn parhau i gynyddu amllder a difrifoldeb tywydd eithafol ar draws y DU, gan roi rhagor o bwysau ar awdurdodau lleol ac ymatebwyr brys. Mae effaith gynyddol stormydd, llifogydd, digwyddiadau yn ymwneud â gwres, erydu arfordirol a thannau gwyllt yn atgyfnerthu'r pwysigrwydd o drefniadau paratoi, ymateb ac adfer.

Ar lefel genedlaethol, rhoir sylw cynyddol i gadernid Isadeiledd Cenedlaethol Hanfodol hefyd, gan gynnwys ynni, telegyfathrebu, cludiant, tanwydd, dŵr, llwybrau masnachu morol, a gwasanaethau digidol. Mae'r digwyddiadau a reolir ar draws gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys amhariadau i gludiant, methiannau yn y cyflenwad dŵr, digwyddiadau yn ymwneud â phiblinellau, cau porthladdoedd a methiannau cyfathrebu'n dangos perthnasedd y risgiau cenedlaethol hyn ar lefel leol a rhanbarthol.

Mae seibrgadernid yn parhau i fod yn flaenoriaeth gynyddol ar gyfer llywodraethau ac awdurdodau lleol fel ei gilydd. Mae strategaethau cadernid cenedlaethol yn parhau i amlygu effeithiau posibl ymosodiadau seibr ar wasanaethau cyhoeddus, gweithredwyr isadeiledd a chadwyni cyflenwi. Mae datblygiad parhaus trefniadau seibrgadernid ar draws y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru'n adlewyrchu'r tirlun fygythiadau esblygol hwn.

Yn ogystal â hynny, mae cyflwyniad Deddf Terfysgaeth (Diogelu Safleoedd) 2025, y cyfeirir ati'n aml fel Cyfraith Martyn, yn rhoi rhagor o bwyslais ar ddiogelwch, parodrwydd a diogelwch y cyhoedd mewn lleoliadau a digwyddiadau cyhoeddus. Mae hyn wedi llywio gwaith partneriaeth parhaus trwy Ddiogelwch Amddiffynnol a ffrydiau gwaith yn ymwneud â CONTEST ar draws y rhanbarth.



Ymateb Rheoli Argyfyngau

Mae GCARh-CGC yn parhau i fod yn swyddogaeth Swyddog ar Ddyletswydd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, gan ddarparu pwynt cyswllt parhaus i gefnogi trefniadau ymateb i argyfyngau ar draws gogledd Cymru. Mae hyn yn sicrhau cydlyniad prydlon, rhannu gwybodaeth, a chefnogaeth i awdurdodau lleol ac asiantaethau partner yn ystod digwyddiadau.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025-2026, cwblhaodd y Gwasanaeth Swyddog ar Ddyletswydd lawer iawn o waith monitro, asesu ac ymateb, gan adlewyrchu'r ystod eang o risgiau sy'n effeithio cymunedau ar draws gogledd Cymru.

Tywydd Garw

Derbyniodd ac asesodd GCARh-CGC 213 o Hysbysiadau Llifogydd a 13 o Rybuddion Llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal â hynny, bu swyddogion yn monitro nifer uchel o Rybuddion Tywydd gan y Swyddfa Dywydd ar draws y rhanbarth.

Awdurdod	Cyfanswm y Rybuddion	Oren	Melyn	Coch
Ynys Môn	39	0	39	0
Gwynedd	73	2	71	0
Conwy	74	2	72	0
Sir Ddinbych	71	2	69	0
Sir y Fflint	55	1	54	0
Wrecsam	63	2	61	0

Ni chofnodwyd unrhyw Rybuddion Tywydd Coch yng ngogledd Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.

Roedd sawl achos o dywydd garw'n ymofyn cydlynu ar draws yr ardal, gan gynnwys Storm Amy, Storm Claudia a Storm Goretti. Fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd gefnogi ymatebion i achosion o lifogydd a thirlithriadau, gan gynnwys tirlithriad yn Nefyn, tirlithriadau arfordirol yn Ynys Môn, a difrod i eiddo yn Llandrillo-yn-Rhos o ganlyniad i stormydd.



Colli Isadeiledd

Roedd amhariad i isadeiledd yn parhau i fod yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro yn ystod y flwyddyn. Cydlynodd GCARh-CGC gefnogaeth ac ymwybyddiaeth sefyllfa ar gyfer digwyddiadau gan gynnwys:

- Digwyddiad mewn perthynas â'r cyflenwad dŵr ym Mryn Cowlyd
- Byrst mewn pibell ddŵr a effeithiodd gymunedau yn Sir y Fflint
- Cau'r ffordd ar Bont Menai dro ar ôl tro er mwyn cwblhau gwaith cynnal a chadw brys

Cau Porthladd Caergybi

Tân yn Nhwnnel Conwy

Methiant cyfathrebu a gafodd effaith ar weithrediadau Twannel Conwy

- Gwrthdrawiad traffig ffordd angheuol yn Nhwnnel Conwy

Mae'r digwyddiadau hyn wedi amlygu pwysigrwydd isadeiledd cludiant, dŵr a chyfathrebu gwydn ar draws y rhanbarth.

Piblinellau

Cefnogodd GCARh-CGC yr ymateb i doriad mewn prif bibell nwy yng Nglan Clwyd, gan weithio ochr yn ochr â darparwyr cyfleustodau ac asiantaethau partner er mwyn cynnal ymwybyddiaeth o sefyllfa a chydlynu trefniadau cyfathrebu.

Tanau gwyllt

Mae tannau gwyllt yn parhau i gyflwyno perygl sylweddol a chynyddol ar draws gogledd Cymru, yn arbennig yn ystod cyfnodau hir o dywydd sych. Cafwyd sawl digwyddiad drwy gydol 2025 a 2026, yn cynnwys tanau yn Rhyd Ddu, Tanygrisiau, Cynwyd, Abererch, Llanfairfechan, Harlech, Llanfeydd a ger Dinbych.

Mae amllder a lledaeniad daearyddol yr achosion hyn yn pwysleisio'r heriau parhaus sydd ynghlwm â pheryglon yn ymwneud â hinsawdd a'r angen ar gyfer cydlyniad amlasiantaeth effeithiol.

Digwyddiadau Sylweddol Eraill

Roedd digwyddiadau ychwanegol lle'r oedd angen cefnogaeth Swyddog ar Ddyletswydd yn cynnwys:

- Cyfarfod heb awdurdod yng Nghoedwig Clocaenog
- Pecyn amheus yn Nepo Alltami CSyFf
- Gweithgarwch trefn gyhoeddus yn yr Wyddgrug
- Tân yn y Ganolfan Great Bear Distribution, Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy
- Gwrthdrawiad trên ym Mlaenau Ffestiniog
- Pryderon mewn perthynas â'r cyflenwad nwy
- Ymarfer Shabina II yng ngogledd Cymru

Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r digwyddiadau a reolwyd yn ystod 2025-2026 yn adlewyrchu nifer o'r risgiau a nodwyd o fewn Cofrestr Risg Genedlaethol y DU, gan gynnwys tywydd garw, llifogydd, amhariad i isadeiledd, bygythiadau seibr, digwyddiadau cludiant a heriau cyflenwad tanwydd. Mae'r risgiau'n parhau i gynyddu'r galw ar awdurdodau lleol ac ymatebwyr brys ar draws y Deyrnas Unedig. Mae effaith gynyddol newid hinsawdd, y ddibyniaeth gynyddol ar isadeiledd hanfodol a bygythiadau diogelwch a chymdeithasol esblygol yn atgyfnerthu'r pwysigrwydd o gynnal cynlluniau rhag argyfwng, cadernid a threfniadau adfer cadarn.

Ymatebion i Ddigwyddiadau Sylweddol

Cefnogwyd **31** o ddigwyddiadau yn ystod 2025

Cefnogwyd **11** o ddigwyddiadau yn ystod 2026

Yn gyffredinol, mae ystod a nifer y digwyddiadau a reolir yn ystod y flwyddyn yn dangos gwerth dull rhanbarthol cydlynol. Trwy ei swyddogaeth Swyddog ar Ddyletswydd, darparodd GCARh-CGC gefnogaeth hanfodol i gynnal ymwybyddiaeth o sefyllfa, hwyluso cyfathrebu a chydlynu gweithgarwch ymateb ar draws gogledd Cymru, gan sicrhau fod awdurdodau lleol a sefydliadau partner yn gallu ymateb yn effeithiol i ystod eang o argyfyngau.

Gweithio gyda'n gilydd

Ategwyd y broses effeithiol o reoli digwyddiadau yn ystod 2025-2026 gan waith partneriaeth amlasiantaeth cryf ar draws gogledd Cymru. Gweithiodd GCARh-CGC yn agos ag awdurdodau lleol, gwasanaethau brys, Cyfoeth Naturiol Cymru, darparwyr cyfleustodau, gweithredwyr cludiant, partneriaid iechyd, Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r sector gwirfoddol er mwyn cynnal ymwybyddiaeth o sefyllfa a rennir a chydlynu gweithgarwch ymateb.

Mae'r flwyddyn hon wedi dangos gwerth trefniadau cadernid sefydledig, gyda phartneriaid yn gweithio ar y cyd i reoli ystod eang o ddigwyddiadau gan gynnwys tywydd garw, llifogydd, amhariad i isadeiledd, tannau gwyllt, digwyddiadau cludiant a phryderon am ddiogelwch y cyhoedd. Trwy rannu gwybodaeth yn brydlon, gwneud penderfyniadau ar y cyd a chydlynu trefniadau cyfathrebu, llwyddodd asiantaethau i leihau'r effaith ar gymunedau a chefnogi ymateb effeithiol ac ymdrechion adfer.

Mae ymrwymiad parhaus partneriaid i hyfforddiant, gweithredu a chynllunio ar y cyd wedi cryfhau'r gwynnwch rhanbarthol ac wedi sicrhau fod gogledd Cymru'n parhau i fod yn barod i ymateb i argyfyngau lleol a sylweddol.

Blaenoriaethau i'r dyfodol

Wrth edrych ymlaen, bydd GCARh-CGC yn parhau i weithio gyda phartneriaid i wella parodrwydd a chadernid ar draws gogledd Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- Gryfhau parodrwydd rhanbarthol i ymdrin â thywydd garw ac effaith gynyddol newid hinsawdd, gan gynnwys llifogydd, erydu arfordirol, tirlithriadau a thannau gwyllt.
- Gwellu cadernid a chynlluniau wrth gefn ar gyfer isadeiledd hanfodol, gan gynnwys rhwydweithiau cludiant, cyfleustodau, cyflenwadau tanwydd a systemau cyfathrebu.
- Gwellu ymwybyddiaeth o sefyllfa a gallu i reoli gwybodaeth er mwyn cefnogi penderfyniadau prydlon yn ystod digwyddiadau sy'n datblygu'n gyflym.
- Cefnogi'r broses o ddatblygu, profi ac adolygu argyfyngau amlasiantaeth a chynlluniau adfer trwy raglenni hyfforddiant ac ymarfer.

- Datblygu cadernid sefydliadol mewn perthynas â pheryglon sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys digwyddiadau seibr, amhariad i isadeiledd cenedlaethol ac argyfyngau cymhleth ar draws sectorau.
- Parhau i hyrwyddo gwaith partneriaeth effeithiol drwy Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd a grwpiau cadernid cysylltiedig.
- Cryfhau cadernid cymunedol trwy gefnogi awdurdodau lleol a sefydliadau partner i wella parodrwydd y cyhoedd a threfniadau cyfathrebu ac adfer.

Wrth i'r tirlun peryglon barhau i esblygu, bydd GCARh-CGC yn parhau i ymrwymo i ddarparu Gwasanaeth Swyddog ar Ddyletswydd 24/7 cadarn a chefnogi partneriaid i ddiogelu cymdeithasau, isadeiledd a'r amgylchedd ar draws gogledd Cymru.

Gwaith a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2025 - 2026

Yn ystod 2025-2026, parhaodd awdurdodau lleol gogledd Cymru, gyda chefnogaeth gan Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru (GCARh-CGC), i gryfhau eu cynlluniau rhag argyfwng, cadernid a threfniadau parhad busnes. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu gwersi parhaus a pharodrwydd, ymateb ac adfer mewn perthynas ag argyfyngau ar draws y rhanbarth.



Cyngor Sir Ynys Môn

Yn ystod 2025-2026, cwblhaodd Cyngor Sir Ynys Môn adolygiad sylweddol o'i Gynllun Parhad Busnes gan wella'r broses o nodi swyddogaethau hanfodol a chryfhau gallu'r Cyngor i gynnal gwasanaethau hanfodol yn ystod unrhyw amhariad.

Wedi'i lywio gan adborth o ymarfer ar lefel rheolwyr. Un datblygiad strategol allweddol oedd y trosglwyddiad o fframwaith yn seiliedig ar wasanaethau i weithgareddau hanfodol yn seiliedig ar swyddogaethau, gan ddisodli categorïau gwasanaeth eang â swyddogaethau hanfodol wedi'u diffinio'n glir, megis darparu gofal hanfodol i unigolion diameddifyn, plant a'r henoed. Mae'r gwelliannau o ran eglurder wedi cryfhau gallu'r Cyngor i nodi gweithgareddau blaenoriaethol, gwella dyraniad adnoddau yn ystod amhariad, ac wedi atgyfnerthu cadernid sefydliadol cyffredinol. Cefnogwyd gwasanaethau unigol i adolygu a diweddarau eu cynlluniau parhad eu

Tudalen 20
Cyflawnwyd cynnydd sylweddol o ran cryfhau trefniadau wrth gefn ar gyfer croesi'r enai. Cynhaliodd Grŵp Tasg a Gorffen amlasiantaeth, a sefydlwyd ym mis Mai 2024, adolygiad cynhwysfawr o ddogfen y fframwaith croesi ar y cyd ag ymatebwyr Categori 1 a Chategori 2. Mae'r gwaith hwn wedi darparu rhagor o eglurder mewn perthynas â rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau ar y cyd yn ystod cyfnodau o amhariad. Adolygwyd y fframwaith diwygiedig yn ffurfiol ym mis Tachwedd 2024 a mis Mawrth 2025, ac fe brofwyd y trefniadau hyn yn ystod ymarfer amlasiantaeth enfawr a hwyluswyd gan GCARh-CGC ym mis Mawrth 2025 trwy senario a oedd yn cynnwys cau Pont Britannia yn ystod gwaith cynnal a chadw arfaethedig. Mae'r rhaglen hon wedi cryfhau cydlynad rhwng sefydliadau partner, wedi lleihau'r posibilrwydd ar gyfer oedi o ran ymateb, a gwella'r parodrwydd cyffredinol ar draws y rhanbarth. Mae diwygiadau pellach i'r fframwaith yn parhau i fod yn destun cymeradwyaeth gan Grŵp Cydlynw Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, ac mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ddatblygu cynllun atal tagfeydd traffig ategol.

Cwblhawyd adolygiad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth canolfannau gorffwys ar draws Ynys Môn yn ystod y cyfnod adrodd. Arweiniodd hyn at weithredu gweithdrefnau gweithredol cyson, diweddarau rhestrau adnoddau, a chyfeiriaduron cysylltiadau



brys newydd ar gyfer pob cyfleuster dynodedig. Darparodd sesiwn frifio staff a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2025 drosolwg o gyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, ynghyd â chanllawiau ymarferol ar weithdrefnau gweithredol a chefnogi unigolion ag anghenion amrywiol. Profwyd y trefniadau hyn yn dilyn hynny trwy ymarfer amlasiantaeth a gynhaliwyd ym mis Medi 2025 yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur. Cymerodd Gwasanaethau Cymdeithasol, Hamdden, Addysg a Heddlu Gogledd Cymru ran yn yr ymarfer, a oedd yn seiliedig ar senario caethwasiaeth fodern gymhleth, gan gryfhau parodrwydd a chydlynad amlasiantaeth ymhellach.

Gwnaethpwyd gwelliannau i barodrwydd ar gyfer argyfyngau morol trwy ddatblygu cerdyn gweithredu Awdurdod Lleol manwl yn dilyn argymhellion gan y Grŵp Tasg a Gorffen Ymateb Morol. Mae hyn yn adlewyrchu rôl strategol Ynys Môn o fewn Cynllun Ymateb i Argyfyngau Morol Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd. Mae'r cerdyn gweithredu hwn yn sefydlu protocolau clir ar gyfer cydlynw ymatebion i ddigwyddiadau morol, gan gynnwys argyfyngau yn ymwneud â chychod a gweithrediadau achub arfordirol, ac yn amlinellu trefniadau cyswllt cadarn â Gwylwyr y Glannau Ei Fawrhydi. Mae'n adlewyrchu cyfleusterau morol sylweddol yr Awdurdod, gan gynnwys goruchwyllo Porthladd Caergybi, harbwsr pysgota ac isadeiledd arfordirol sylweddol. Mae'r Awdurdod hefyd wedi cymryd rhan mewn ymarfer Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i brofi'r Fframwaith Ymateb i Ddigwyddiadau Achub Torfol Mawr ar y Môr, gan ddarparu sicrwydd bod trefniadau'n gadarn, yn effeithiol, ac wedi'u halinio â disgwyliadau ymateb rhanbarthol.

Cyngor Gwynedd

Trwy gydol 2025-26, parhaodd Cyngor Gwynedd i gryfhau ei gynlluniau rhag argyfwng, cadernid, a threfniadau parhad busnes, gan adeiladu ar wersi a ddysgwyd yn dilyn digwyddiadau ac ymarferion diweddar a chydweithrediad rhanbarthol. Mae gweithgarwch ar draws is-grwpiau llywodraethu'r Cyngor wedi canolbwyntio ar barodrwydd, adfer, cymorth dyngarol, cyfathrebu a seibrgadernid.

Blaenoriaeth allweddol yn ystod y flwyddyn oedd rheoli tywydd garw a pherygl llifogydd, yn arbennig mewn ymateb i Storm Darragh a gwaith parhaus mewn perthynas â Fairbourne. Gwnaethpwyd cynnydd o ran datblygu Cynllun Gwagio Fairbourne trwy raglen o ymarferion, ymgysylltu â budd-ddeiliaid a phrofion cyfathrebu. Yn dilyn Ymarfer Hermes, caiff mân ddiwygiadau eu rhoi ar waith ac mae ôl-drafodaeth ffurfiol ar y gweill. Ar lefel ranbarthol, datblygwyd gwaith pellach i gryfhau fframweithiau ymateb i dywydd garw, gan gynnwys trefniadau symudedd staff yn ystod amodau eithafol.

Tudalen 21
Mae ffrydiau gwaith adfer a dyngarol wedi gwella dealltwriaeth o effeithiau ehangach argyfyngau ar gymunedau. Mae cyfres o ymarferion wedi ystyried sefyllfaoedd adfer, gan gynnwys trefniadau cefnogi ar gyfer trigolion, busnesau a staff. Mae'r Is-grŵp Dyngarol wedi canolbwyntio ar wella mynediad at ddata mewn perthynas ag unigolion diamddiffyn, cryfhau'r ddarpariaeth canolfannau gorffwys, a darparu hyfforddiant wedi'i dargedu. Roedd y gwaith hwn yn seiliedig ar brofiad gweithredol yn ystod Storm Darragh a gweithgarwch rhanbarthol ehangach.

Mae hyfforddiant ac ymarfer yn parhau i fod yn faes cynnydd cryf. Mae'r Cyngor wedi darparu rhaglen hyfforddiant yn ymwneud â Bygythiadau a Diogelwch, rheoli Canolfannau Gorffwys a chofnodi gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, hyfforddwyd dau Swyddog Ôl-drafodaeth a deg Swyddog Cofnodi, gyda staff ychwanegol wedi'u nodi ar gyfer datblygiad pellach. Mae Gwynedd wedi cynnal cynrychiolaeth gref mewn hyfforddiant JESIP (Egwyddorion Rhyngweithredu Gwasanaeth Brys ar y Cyd) ac Aur Cymru (GSB), ac wedi cymryd rhan mewn ymarferion rhanbarthol a chenedlaethol, gan gefnogi cydlynad amlasiantaeth effeithiol. Mae'r defnydd o astudiaethau achos a sesiynau ymwybyddiaeth o fewn cyfarfodydd is-grŵp wedi cefnogi dysgu sefydliadol a gwelliant parhaus ymhellach.

Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol o ran cadernid digidol drwy wella ac alinio systemau cynllunio rhag argyfwng hefyd, gan gynnwys y Teil Argyfwng (SharePoint) a Resilience Direct. Mae integreiddio gwell rhwng plattfformau wedi gwella

hygyrchedd, prosesau rhannu gwybodaeth, a chydlynad gweithredol yn ystod digwyddiadau. Mae ymgysylltiad defnyddwyr ar draws y systemau wedi cynyddu, ac mae hyfforddiant wedi'i dargedu a gwelliannau i ddefnyddioldeb wedi cefnogi hynny. Yn ogystal â hynny, datblygwyd nodwedd mapio argyfwng GIS strategol fyw ar gyfer y rota Aur, gan ddarparu ymwybyddiaeth amser real o sefyllfa i gefnogi penderfyniadau strategol.

Mae Cynlluniau Parhad Busnes wedi parhau i ddatblygu, ond mae gwasanaethau gwahanol ar gamau gwahanol o'r broses. Mae rhai cynlluniau adrannol wedi'u cwblhau, ac eraill bron â chael eu cwblhau. Mae adolygiadau cychwynnol wedi nodi dibyniaeth TG a gwynwch staffio fel risgiau allweddol. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddiffinio blaenoriaethau adfer systemau a chryfhau trefniadau wrth gefn.

Mae seibrgadernid yn parhau i fod yn brif faes ffocws. Cyflwynwyd trefniadau llywodraethu er mwyn gwella gallu o ran ymateb a gwynwch, yn seiliedig ar ddigwyddiadau seibr a risgiau trydydd parti diweddar. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu Is-grŵp Seibrgadernid arbennig, gwella prosesau cyfathrebu, a chryfhau parodrwydd sefydliadol ymhellach.



Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Yn ystod 2025-2026, cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy strwythur diwygiedig ar gyfer llywodraethu cynllunio rhag argyfwng a strwythur ymateb yn dilyn cymeradwyaeth gan y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli. Mae Panel Strategol, a gaiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, bellach yn goruchwyllo pum is-grŵp sy'n canolbwyntio ar Weithredoedd, Parhad Busnes, Hyfforddiant a Chyfathrebu, TG a Seibr; Materion Dyngarol; ac Adfer. Mae'r strwythur hwn yn alinio â fframweithiau llywodraethu ac ymateb ar draws awdurdodau eraill yng ngogledd Cymru. Cyfarfu'r is-grwpiau am y tro cyntaf ym mis Chwefror i adolygu'r amgylchedd cynllunio rhag argyfwng presennol a chytuno ar Gylch Gorchwyl ac aelodaeth, ac mae cyfarfodydd chwarterol bellach wedi'u sefydlu.

Cafwyd newid mewn arweinyddiaeth yn ystod y flwyddyn yn dilyn ymddeoliad yr Arweinydd Argyfyngau Sifil Posibl, Peter Brown, mae'r Pennaeth Pobl a Pherfformiad, Fran Lewis, wedi cymryd cyfrifoldeb dros gynllunio rhag argyfwng ers hynny, gan sicrhau parhad y cyfeiriad a'r ddarpariaeth strategol.

Cyflwynwyd cyfres GCARh-CGC o dempledi Parhad Busnes a dogfennau ategol ar draws y Cyngor. Mae'r Polisi a'r Fframwaith cyffredinol wedi cael eu mabwysiadu'n ffurfiol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau'r Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol. Adolygwyd Cynlluniau Parhad Busnes a'u huwchlwytho i Resilience Direct, fodd bynnag, byddant yn parhau ar y fformat blaenorol yn ystod y cyfnod pontio.

Parhaodd y Cyngor i ymgysylltu â gweithgarwch seibrgadernid rhanbarthol, gyda GCARh-CGC yn cyfrannu at y Grŵp Rhaglen Ymateb Seibr drwy gydol 2025. Ers hynny, mae'r gwaith wedi trosglwyddo i Is-grŵp TG a Seibr y Tîm Ymateb a Rheoli Argyfyngau, ac mae'r cynllun gweithredu a'r rhaglen waith cysylltiedig yn parhau i gael eu darparu.

Cwblhaodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau gwytnwch a seibrgadernid Conwy yn ystod y flwyddyn, gan archwilio'r broses o nodi risgiau, rheolyddion gwarchodol a gallu i ymateb. Roedd hyn yn cynnwys adolygu dogfennau a chyfweld staff, gan gynnwys cynrychiolwyr GCARh-CGC, ac ystyried ymateb y Cyngor i ddigwyddiadau seibr blaenorol a'r gwersi a ddysgwyd.

Er mwyn cefnogi Strategaeth Diogelu a Pharatoi Cymru a'r paratodau ar gyfer cyflwyno Cyfraith Martyn, mae'r Grŵp Diogelwch Amddiffynnol a Pharodrwydd wedi parhau i gryfhau trefniadau diogelwch amddiffynnol ar gyfer lleoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Mae Cadeirydd Grŵp Diogelwch Amddiffynnol a Pharodrwydd y Cyngor a'r Bwrdd CONTEST Rhanbarthol yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar barodrwydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg.



Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r Grŵp Diogelwch Ymgynghorol, a gaiff ei gydlynw gan Dîm Rheoli Digwyddiadau Conwy, wedi parhau i gyfarfod bob pythefnos â threfnwyr digwyddiadau. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, Gwasanaethau Brys, GCARh-CGC, a sefydliadau partner, gan ddarparu fforwm ar gyfer cynllunio, cydlynw, a hyrwyddo diogelwch cyhoeddus mewn digwyddiadau.

Darparwyd cefnogaeth barhaus i gynllunwyr y Cyngor hefyd mewn perthynas â chynllun argyfwng amlasiantaeth ar gyfer piblinellau allweddol ac ystyriaethau cynllunio sy'n gysylltiedig â rhwydwaith Wales & West Utilities. Mynychodd Rheolwyr Tactegol sesiynau ymwybyddiaeth ar y cyd gan GCARh-CGC a Chymdeithas Gweithredwyr Piblinellau ar y Tir y DU, gan wella dealltwriaeth o gyfrifoldebau dan Reoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.

Mae Grŵp Partneriaeth Llifogydd Dyffryn Conwy wedi parhau i gyfarfod bob hwarter, gyda thrafodaethau'n canolbwyntio ar nodi lleoliadau diamddiffyn, cynnal amddiffynfeydd llifogydd, a hyrwyddo gwasanaethau rhybuddion llifogydd fewn cymunedau lleol.

Parhaodd hyfforddiant ac ymarfer i fod yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol y flwyddyn. Cymerodd staff ran yn rhaglenni hyfforddiant Aur Cymru, Arian JESIP a rhai gweithredol, gyda hwyluswyr GCARh-CGC yn cyfrannu at ddatblygu a darparu hyfforddiant wedi'i alinio ag anghenion awdurdodau lleol. Mae cyflwyno'r strwythur Grŵp Tîm Ymateb a Rheoli Argyfyngau wedi gwella ymgysylltiad ymhellach ac wedi helpu'r broses o nodi cyfleoedd datblygu. Mae staff Conwy hefyd yn parhau i gael mynediad at ystod o adnoddau e-ddysgu a ddarperir gan GCARh-CGC.

Cynhaliwyd ymgysylltiad cymunedol, gan gynnwys darparu trosolwg o gynlluniau rhag argyfwng a rôl GCARh-CGC i Gynghorwyr Tref a Chymuned ym mis Ebrill 2025. Roedd y sesiwn hon hefyd yn gyfle i fyfrio ar effaith yr amhariad dŵr sylweddol a brofwyd yn gynharach yn y flwyddyn.

Yn dilyn tân craen yn Nhwnnel Conwy ym mis Mehefin 2025, cydnabuwyd staff gweithredol y Cyngor yng Ngwobrau Cymunedol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am eu hymateb i'r digwyddiad.



Cyngor Sir Ddinbych

Yn ystod cyfod adrodd 2025-2026, parhaodd Cyngor Sir Ddinbych i gryfhau ei wytnwch gweithredol drwy raglen hyfforddi, ymgysylltu ac ymarfer amlasiantaeth ragweithiol a strwythuredig. Mae'r gwaith hwn wedi sicrhau fod y Cyngor yn parhau i fod yn barod i ymateb yn effeithiol i ystod eang o ddigwyddiadau ac argyfyngau.

Un ffocws allweddol drwy gydol y flwyddyn oedd nodi gwersi a ddysgwyd yn dilyn digwyddiadau byd go iawn a gwella cydweithrediad rhanbarthol. Mae'r Cyngor wedi hwyluso prosesau rhannu gwybodaeth trwy ymgysylltu â'r awdurdodau cyfagos, yn seiliedig ar eu profiadau gweithredol er mwyn llywio cynlluniau lleol a chryfhau trefniadau gwytnwch.

Mae datblygu a chyflwyno'r Llawlyfr Aelodau Etholedig newydd hwn yn cynrychioli gwelliant sylweddol o ran llywodraethu a pharodrwydd. Mae'r llawlyfr yn darparu Fudalen 24 anllawiau clir ac ymarferol ar rolau a chyfrifoldebau Aelodau etholedig yn ystod argyfyngau, gan gefnogi trefniadau cyfathrebu effeithiol, penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth, ac arweiniad cymunedol cryf yn ystod digwyddiadau.

Mae ymgysylltu â swyddogion cofnodi argyfyngau'r Cyngor wedi parhau i fod yn flaenoriaeth. Darparwyd rhaglen hyfforddi ac ymgysylltu wedi'i thargedu i wella hyder, cysondeb a gallu o fewn y swyddogaeth hanfodol hon. Mae ymarfer galw allan a gwblhawyd y tu allan i oriau gwaith wedi darparu sicrwydd bod modd cysylltu â swyddogion cofnodi, a'u bod yn meddu ar y deunyddiau hanfodol, ac yn gallu ymateb. Roedd yr ymarfer yn llwyddiannus gan arddangos lefel uchel o barodrwydd ar draws y grŵp.

Darparwyd ymarfer cynhwysfawr i brofi cynlluniau, dilysu gweithdrefnau, a nodi meysydd ar gyfer gwelliant parhaus. Cryfhawyd gallu ar lefel strategol drwy ymarfer aml-senario a oedd yn cynnwys y rota Swyddog ar Ddyletswydd Aur, gan atgyfnerthu eglurder rolau, cyfrifoldebau a phrosesau uwchgyfeirio. Defnyddiwyd Cynllun Parhad Gwasanaeth y CSS PDA (Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau) hefyd mewn sefyllfaoedd cymhleth, gan gynnwys achosion o golli adeiladau'r Cyngor, mynediad diawdurdod at ddata, a methiant yn y system TG. Dangosodd hyn ddealltwriaeth weithredol gref gan nodi cyfleoedd ar gyfer mireinio pellach.



Yn ogystal â hynny, cwblhaodd y Tîm Gwybodaeth Mewn Argyfwng Corfforaethol ymarfer seibr yn seiliedig ar senario meddalwedd wystlo. Cadarnhawyd gwaith tîm a chyfathrebu effeithiol dan bwysau yn ystod yr ymarfer gan arwain at gynllun gweithredu manwl i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd, yn arbennig mewn perthynas â sianeli cyfathrebu, mynediad at ddata, a chadernid systemau.



Cyngor Sir y Fflint

Yn 2025-2026, darparodd Cyngor Sir y Fflint raglen gynhwysfawr o ymarferion i brofi a chryfhau gallu ar gyfer ymateb gweithredol, tactegol a strategol. Roedd hyn yn cynnwys darparu Ymarfer Incendium ac Ymarfer Snowfall ar gyfer y Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng, gan ffugio ffrwydrad nwy a rhybudd tywydd coch am eira, yn y drefn honno.

Cwblhaodd gwasanaethau tai senario ffrwydrad nwy hefyd, a nododd angen i wella galluedd cofnodi a llywio datblygiad y Tîm Gofal Digwyddiadau Hanfodol yn uniongyrchol. Mae ymarferion pellach ar y gweill ar gyfer y Tîm Atgyweirio, gan gydnabod eu rôl fel ymatebwyr cyntaf i ddigwyddiad.

Cymerodd y Cyngor ran yn Ymarfer Pegasus, a oedd yn canolbwyntio ar drefniadau ymateb i bandemig. Fel rhan o'r ymarfer hwn, sefydlodd staff Sir y Fflint Gell Dactegol i ystyried a chydlyn ymateb awdurdod lleol i sefyllfa bandemig. Yn ogystal â hynny, mae ymarfer digwyddiad seibr ar y gweill mewn ydweithrediad ag arweinwyr Parhad Busnes a gwasanaethau TG.

Cryfhawyd trefniadau parhad busnes drwy ddatblygu Cynllun Ymateb ac Adfer yn sgil Seibrddigwyddiadau a nodi systemau hanfodol i helpu i flaenoriaethu gwasanaethau yn ystod unrhyw amhariad.

Gwnaethpwyd gwelliannau hefyd i drefniadau cyfathrebu mewn argyfwng, gan gynnwys cyflwyno swyddogaeth sgwrsio Microsoft Teams i helpu i gydlyn digwyddiadau a grŵp Whatsapp arbennig ar gyfer Rheolwyr Canolfannau Gorffwys er mwyn gallu rhannu gwybodaeth mewn modd effeithlon. Mae GCARh-CGC wedi cefnogi'r Tîm Gwybodaeth Argyfwng i ddatblygu Llawlyfr Aelodau Etholedig a darparu dau ddigwyddiad cynllunio rhag argyfwng ar gyfer Aelodau. Yn ystod y sesiynau hyn, amlinellwyd rolau a chyfrifoldebau yn ystod digwyddiadau, darparwyd canllawiau ar ymgysylltu â swyddogion, ac amlygwyd gweithgarwch cadernid parhaus. Mae'r Tîm Gwybodaeth Argyfwng hefyd wedi canolbwyntio ar baratoi ar gyfer rheoli camwybodaeth a chryfhau trefniadau briffio mewnol ar gyfer staff.

Cryfhawyd y Tîm Adfer trwy benodi Cadeirydd newydd, David Fitzsimon, sy'n cefnogi datblygiad parhaus trefniadau cynlluniau adfer.



Mae'r Tîm Gweithrediadau wedi datblygu gwaith ar gynllunio rhag argyfyngau mewn gwarchodfeydd, gan gynnwys ymweliadau safle â Gwarchodfa Maes Glas mewn partneriaeth â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ddatblygu cynlluniau gwagio. Mae ymarferion wedi cefnogi timau i adolygu prosesau cofnodi, dilysu gallu contractwyr, diweddarau cynlluniau presennol, a chryfhau gweithdrefnau ar gyfer rheoli digwyddiadau difrifol. Mae adolygiadau o ddigwyddiadau diweddar, gan gynnwys tywydd garw a digwyddiad yn ymwneud â chyflenwad Dŵr Cymru, wedi llywio gwelliannau i drefniadau gweithredol.

Ar lefel gymunedol, mae cymuned Sandycroft wedi sefydlu Grŵp Llifogydd Cymunedol a chynllun llifogydd lleol i nodi ardaloedd risg, Wardeniaid Llifogydd, a threfniadau cyswllt y tu allan i oriau swyddfa. Cefnogwyd y cyfarfodydd hyn gan GCARh-CGC a swyddogion Cyngor Sir y Fflint, gan gryfhau cadernid a pharodrwydd lleol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Drwy gydol 2025-2026, parhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gryfhau ei drefniadau cynllunio rhag argyfwng drwy raglen o ddatblygu llywodraethu, hyfforddiant, a gwelliant gweithredol.

Darparwyd cyflwyniad ar strwythur y Tîm Ymateb a Rheoli Argyfyngau i Dîm Arwain yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o'r Cynllun Parhad Gwasanaeth diweddaraf, a ddiweddarwyd yn dilyn trafodaeth a chymeradwyaeth ffurfiol gan y tîm. Darparwyd cefnogaeth barhaus i'r Grŵp Gwarchod Mannau Cyhoeddus a'r Grŵp Diogelwch Ymgynghorol, gan gyfrannu at gydlyniant amlasianetaeth a chynlluniau diogelu'r cyhoedd.

Tudalen 26



Datblygwyd cyfres gynhwysfawr o gardiau gweithredu a'u sefydlu ar draws timau gweithredol allweddol, gan gynnwys y Tîm Ymateb a Rheoli Argyfyngau, Tîm Adfer, Tîm Cymorth Dyngarol, Tîm Gwybodaeth a'r Tîm Parhad Busnes. Mae'r dogfennau hyn yn darparu canllawiau clir ac yn cefnogi ymatebion cyson a chydlynol yn ystod digwyddiadau.

Cryfhawyd gallu arweinyddiaeth ymhellach drwy benodi Cadeiryddion newydd i'r Tîm Ymateb a Rheoli Argyfyngau, Tîm Ymateb, Tîm Adfer, a'r Tîm Cymorth Dyngarol. Darperir cefnogaeth wedi'i thargedu i'w galluogi i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Mewn ymateb i'r newidiadau hyn, cwblhawyd adolygiad llawn o'r Cylch Gorchwyl ar gyfer pob tîm er mwyn sicrhau eglurder o ran pwrras a llywodraethu.

Cwblhawyd rhaglen o ymarferion Cynllun Parhad Gwasanaeth ar draws ystod o adrannau, gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Cwsmer a Llywodraethu, Prif Swyddogion, yr Amgylchedd ac Addysg. Mae gwersi a ddysgwyd drwy'r ymarferion hyn wedi cael eu hymgorffori mewn diwygiadau i'r cynllun, ac mae'r fersiynau terfynol bellach wedi'u huwchlwytho i Resilience Direct.

Mae hyfforddiant a gweithgarwch ymwybyddiaeth wedi parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Darparwyd dwy sesiwn ymwybyddiaeth Gwrthderfysgaeth mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer penaethiaid ysgolion Wrecsam ym mis Mehefin 2025, gyda chefnogaeth gan y Tîm Gwybodaeth a'r Tîm Cymorth Dyngarol. Yn ogystal â hynny, darparwyd sesiynau hyfforddiant Resilience Direct rhagarweiniol i staff a oedd yn newydd i'r system, gan gefnogi defnydd effeithiol o'r plattfform.

Cryfhawyd gallu gweithredol ymhellach drwy ddarparu hyfforddiant cofnodi i staff Tai a mynychu cyrsiau hyfforddiant gwytnwch a drefnwyd drwy wasanaeth TG y Cyngor.

Mae'r Cyfeiriadur Cysylltiadau Argyfwng yn parhau i gael ei adolygu'n chwarterol er mwyn sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd. Caiff unrhyw ddiweddiadau ychwanegol eu gwneud yn dilyn Ymarfer Cooper ac unrhyw ddigwyddiadau byw, gan sicrhau fod gwybodaeth hanfodol yn parhau i fod yn gyfredol ac yn hygyrch er mwyn cefnogi ymateb effeithiol i argyfyngau.

Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH), Piblinellau a Chynlluniau Niwclear

Cynlluniau ac Ymarferion Rheoli COMAH

Mae gweithgarwch Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) yn ystod y flwyddyn wedi canolbwyntio ar gynnal cydymffurfiaeth, cryfhau partneriaethau, a sicrhau fod trefniadau cynllunio rhag argyfwng yn parhau i fod yn gyfredol ac yn effeithiol. Ar lefel benodol i safleoedd, cwblhawyd adolygiad o Gynllun Argyfwng Allanol Cyngor Sir y Fflint ar gyfer y safle Synthite yn yr Wyddgrug ym mis Hydref er mwyn sicrhau fod rhestr eiddo gemegol y gweithredwr a'r Parth Gwybodaeth Gyhoeddus yn parhau i fod yn gyfredol. Ar y safle Kronospan yn y Waun, darparwyd Ymarfer CONTAIN mewn cydweithrediad â'r gweithredwr a phartneriaid ehangach Fforwm Gwydnwch Lleol y Gogledd i gefnogi cydymffurfiaeth â Rheoliadau COMAH 2015.

Ar lefel strategol, adolygwyd a diwygiwyd polisi codi tâl COMAH i sicrhau y caiff unrhyw gostau eu hadennill yn llawn ar gyfer pob gweithgarwch taladwy a gwblheir. Mae ymgysylltiad â chyrrff rheoleiddiol wedi parhau drwy fynychu'r cyfarfodydd cydymffurfiaeth COMAH gyda'r Swyddog Iechyd a Diogelwch a Chyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal â hynny, mae'r Grŵp Ymarfer Da COMAH Cenedlaethol dan arweiniad Gwasanaeth Tân ac Achub Manceinion Fwyaf wedi cefnogi'r trefniadau rhannu gwybodaeth a mabwysiadu arfer orau. Cymerodd GCARh-CGC ran fel arsylwr yn Ymarfer Ibex hefyd, a arweiniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Hartlepool a phartneriaid Fforwm Gadernid Leol Cleveland, a oedd yn gyfle i nodi gwersi a ddysgwyd yn dilyn ymarfer amlasiantaeth cenedlaethol.

Cynlluniau ac Ymarferion yng nghyswllt Rheoliadau Diogelwch Piblinellau (MAHP)

Mae gweithgarwch Rheoliadau Diogelwch Piblinellau yn ystod y flwyddyn wedi canolbwyntio ar ymgysylltiad agos â gweithredwyr isadeiledd ac wedi cryfhau ymwybyddiaeth ar draws sefydliadau partner.

Roedd gwaith penodol i weithredwyr yn cynnwys cymryd rhan yn ôl-drafodaeth Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd yn dilyn digwyddiad piblinellau pwysedd uchel Bodelwyddan gyda Wales & West Utilities, er mwyn helpu i rannu gwersi a ddysgwyd a gwella trefniadau ymateb. Cadwyd mewn cysylltiad hefyd â National Gas mewn perthynas ag adeiladu a chomisiynu piblinell gangen pwysedd uchel newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint.



Yn ogystal â hynny, mae ymgysylltiad wedi'i sefydlu â Shotton Mill fel gweithredwr piblinell newydd, gan ddarparu canllawiau ar eu cyfrifoldebau cynllunio rhag argyfwng ac ymarfer statudol dan Reoliadau Diogelwch Piblinellau 1996 wrth iddynt ddatblygu a chomisiynu eu cyfleuster newydd.

Ar lefel ranbarthol, mae GCARh-CGC wedi dylunio a darparu dwy sesiwn ymwybyddiaeth piblinellau pwysedd uchel ar-lein mewn partneriaeth â Chymdeithas Gweithredwyr Piblinellau ar y Tir y DU a Linesearch Before U Dig (LSBUD). Mae'r sesiynau hyn wedi sicrhau fod awdurdodau lleol gogledd Cymru a phartneriaid ehangach Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd yn ymwybodol, yn gymwys ac yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau dan Reoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.

Cynllunio Rhag Argyfwng Niwclear a Gwaith Ymateb

Roedd gwaith cynllunio rhag argyfwng niwclear yn ystod y flwyddyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgorau cenedlaethol a rhanbarthol, mynychu fforymau budd-ddeiliaid ar gyfer safleoedd niwclear, a monitro datblygiadau newydd yn barhaus. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n benodol â datblygiadau yn ymwneud â Great British Energy (Niwclear) ar ran Cyngor Sir Ynys Môn, i gefnogi dealltwriaeth gynnar o gyfrifoldebau cynllunio rhag argyfwng i'r dyfodol dan Reoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth i'r Cyhoedd) 2019.

Gwaith Rhanbarthol GCARh-CGC

Mewn cydweithrediad ag Ymgynghorydd Diogelwch Gwrthderfysgaeth Heddlu Gogledd Cymru, darparodd GCARh-CGC weithdai ar gyfer arweinwyr sector addysg. Roedd hyn yn cynnwys ymarfer digwyddiad difrifol yn eiliedig ar senario ysg ol ym Mae Colwyn, gan alluogi cyfranogwyr ddefnyddio cynlluniau a gweithdrefnau argyfwng presennol ac asesu rhyngweithrediad â gwasanaethau brys.

Mae cronfa ddata hyfforddiant ranbarthol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i gefnogi'r broses o gofnodi a rheoli gweithgarwch hyfforddiant ar draws y chwe awdurdod lleol. Bydd y system yn galluogi GCARh-CGC i uwchlwytho a monitro hyfforddiant a gwblhawyd gan swyddogion, gan ddarparu hysbysiadau awtomatig i atgoffa staff pan fydd arnyn nhw angen diweddarau neu gwblhau hyfforddiant. Mae profion yn cael eu cynnal ar y gronfa ddata ar hyn o bryd cyn ei gweithredu'n llawn.

North Wales Resilience Forum (NWRf)

Mae NGCARh-CGC wedi parhau i gyfrannu'n helaeth at waith partneriaeth rhanbarthol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys darparu cefnogaeth Dirprwy Gadeirydd ar gyfer Grŵp Sector Gwirfoddol Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd ar ôl gwahanu oddi wrth y Grŵp Dyngarol a Gwirfoddol blaenorol. Mae hyn wedi cefnogi rhagor o ffocws ac ymgysylltiad cryfach â phartneriaid y sector gwirfoddol.

Parhawyd i gymryd rhan yng Ngrŵp Iechyd Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd hefyd, yn ogystal ag adolygu a datblygu dogfennau cynllunio rhag argyfwng cysylltiedig a ddyrannwyd i'r grŵp, er mwyn sicrhau aliniad â risgiau cyfredol a threfniadau ymateb.

Hwylusodd swyddogion GCARh-CGC ymarfer Uned Cyfryngau Grŵp Rhybuddion a Gwybodaeth Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, Ymarfer Mercurius. Fe wnaeth yr ymarfer hwn alluogi partneriaid amlasiantaeth i sefydlu a gweithredu uned cyfryngau mewn senario llifogydd ffug, gan gryfhau cydlynid, prosesau cyfathrebu, a chydweithio yn ystod digwyddiadau.

Cymerodd sawl swyddog rheoli argyfyngau GCARh-CGC ac awdurdodau lleol ran mewn dau ymarfer ymateb amlasiantaeth i ddigwyddiadau morol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd a mis Mawrth. Lluniwyd yr ymarferion hyn i ddilysu Fframwaith Ymateb i Ddigwyddiadau Morol Fforwm Gwydnwch Lleol y Gogledd. Roedd ymarfer mis Tachwedd yn canolbwyntio ar bartneriaid gogledd Cymru, roedd ymarfer mis Mawrth ar y llaw arall yn ymestyn dros y ffin i greu ymateb aml-fforwm, gan wella rhyngweithredu a dealltwriaeth a rannir ymhellach ar draws rhanbarthau.

Mae aelodau'r tîm GGARh-CGC yn rhan allweddol o Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd, gan wasanaethu fel Cadeiryddion, Is-gadeiryddion, neu aelodau gweithredol ar draws ystod o grwpiau amlasiantaeth. Mae eu cyfraniad yn cefnogi cynlluniau strategol, parodrwydd, gwytnwch a threfniadau ymateb brys ar draws gogledd Cymru. Cynhelir cynrychiolaeth ar draws y grwpiau canlynol:

- **Grwp Strategol Fforwm Lleol Cymru Gydnerth (LRF)**
- **Grŵp Cydlynu, Hyfforddi ac Ymarfer LRF**
- **Grŵp Asesu Risg LRF**
- **Grŵp Rhybuddion a Gwybodaeth LRF**
- **Grŵp Isadeiledd a Pharodrwydd LRF**
- **Grŵp Dysgu a Datblygu / Rhyngweithredu LRF**
- **Grŵp Marwolaethau Niferus LRF**
- **Grŵp yr Amgylchedd LRF**
- **Grŵp Cadernid Cymunedol a Chymorth Dyngarol LRF**
- **Grŵp Iechyd LRF**
- **Grŵp Isadeiledd Digidol LRF**
- **Grŵp Tywydd Garw LRF**

Ym mis Hydref 2025, roedd GCARh-CGC yn rhan allweddol o hwyluso Cynhadledd Argyfyngau Sifil Posibl Cymru. Mynychodd dros 100 o bobl y digwyddiad diwrnod llawn a oedd yn cynnwys rhaglen amrywiol o siaradwyr gwadd proffil uchel, gan ddarparu fforwm pwysig ar gyfer cydweithio, rhannu gwybodaeth, a chryfhau gwytnwch ar draws Cymru.



Dysgu a Datblygu

Yn ogystal â'r grwpiau hyn, mae GCARh-CGC yn cefnogi Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn yr hyfforddiant Aur Cymru ac ar y Panel Diemwnt ar gyfer Aur Cymru. Mae Rhaglen Aur Cymru'n gwrs datblygu amlasiantaeth a gaiff ei gydnabod yn genedlaethol, mae'n paratoi uwch arweinwyr strategol, gan gynnwys uwch gynrychiolwyr o lywodraeth leol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau brys a'r lluoedd arfog, i arwain a chydlyn ymateb i ddigwyddiadau cymhleth a sylweddol yn effeithiol. Trwy ymarferion ymdrochol a dysgu ar y cyd, mae'r rhaglen yn cryfhau penderfyniadau strategol, cydlyn rhwng asiantaethau, a chadernid o ran rheoli argyfyngau a thrychinebau cenedlaethol. Mae'r Panel Diemwnt yn ffurfio'r uwch grŵp llywodraethu ac asesu amlasianaeth sy'n gyfrifol am ddylunio, darparu, hwyluso a gwerthuso Rhaglen Gydgyssylltu Strategol Aur Cymru. Gydag arweinwyr profiadol o sefydliadau gwytnwch ac ymateb brys allweddol, mae'r panel yn darparu goruchwyliaeth strategol ac yn sicrhau fod hyfforddiant yn ddlewyrchu'r arfer orau gyfredol o ran rheoli argyfyngau ac argyfyngau sifil posibl.

Mae GCARh-CGC ac asiantaethau partner wedi cymryd rhan mewn rhaglen gynhwysfawr o ymarferion amlasiantaeth dros y 12 mis diwethaf, gan gefnogi'r proses o ddilysu trefniadau ymateb a chryfhau gallu gweithredol ar draws amrywiaeth o wahanol fathau o ddigwyddiadau.

Roedd cyfranogiad yn cynnwys Ymarfer Solaris, ymarfer pandemig amlasiantaeth cenedlaethol a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2025 ac a gydlynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn yr ymarfer, profwyd trefniadau ymateb i bandemig Fforwm Lleol Cymru Gydnerth er mwyn paratoi ar gyfer yr Ymarfer Pegasus cenedlaethol dilynol.

Ym mis Awst 2025, cynhaliwyd Ymarfer Toriad Mewn Cyflenwad Dŵr Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd ym Mae Colwyn, a oedd yn gyfle i asiantaethau partner weithredu o fewn Grŵp Cydlyn Tactegol ac is-grwpiau cysylltiedig. Roedd yr ymarfer yn cynnwys gwersi a nodwyd yn dilyn y toriad yng nghyflenwad dŵr Bryn Cowlyd yn gynharach yn y flwyddyn, er mwyn cefnogi cydlynad ac ymateb gwell.

Roedd Ymarfer Pegasus, a ddarparwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025, dan arweiniad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Asiantaeth Ddiogelwch Iechyd y DU, yn profi parodrwydd cenedlaethol a lleol ar gyfer pandemig ar draws sawl cam. Roedd yr ymarfer yn asesu gallu'r DU i ymateb i afiechyd heintus newydd a chryfhau cydlynad amlasiantaeth.

Ym mis Ionawr 2026, canolbwyntiodd Ymarfer Annwn ar Dwnnel Conwy gan brofi'r cydlynad gweithredol amlasiantaeth rhwng gwasanaethau brys a sefydliadau partner. Roedd yr ymarfer yn cynnwys rhoi trefniadau canolfannau gorffwys ar waith, gyda staff Conwy'n rheoli cludiant a lles unigolion wedi'u dadleoli mewn canolfan orffwys ddynodedig, gan roi cyfle i ddilysu cynlluniau a gweithdrefnau mewn sefyllfa o anafiadau torfol.

Dilyswyd y trefniadau ymateb arbenigol ymhellach drwy Ymarfer Pendleton Spirit ym mis Mawrth 2026, dan arweiniad Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. Roedd yr ymarfer hwn yn profi ymateb tactegol i ddigwyddiad yn ymwneud â chwch teithwyr mawr ar y môr, gan gynnwys defnyddio cynlluniau pwynt glanio a rheoli nifer fawr o unigolion wedi'u dadleoli.

Cyfrannodd cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol a GCARh-CGC at Ddiwrnod Galluoedd Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd ym mis Mawrth 2026 hefyd, gan gefnogi'r sicrwydd yn erbyn Argymhelliad R51 yn dilyn Ymchwiliad Arena Manceinion. Roedd hyn yn cynnwys darparu cyflwyniad yn amlinellu cyfrifoldebau awdurdodau lleol, a sefydlu cyfleusterau corffdai dros dro yn benodol yn ogystal â darparu cymorth dyngarol yn ystod digwyddiadau mawr sy'n cynnwys nifer o farwolaethau.

Mae datblygu'r gweithlu wedi parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Darparwyd hyfforddiant cofnodi mewn partneriaeth â GCARh-CGC, a gefnogwyd trwy ddatblygu a dosbarthu dogfen weithdrefnau cofnodi safonol. Mae rhaglenni e-ddysgu yn parhau i gyflawni lefel uchel o ymgysylltiad ar draws yr Awdurdod, gan gefnogi gwybodaeth a pharodrwydd staff.

Cryfhawyd trefniadau cymorth dyngarol ar draws y rhanbarth hefyd. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu mewn canolfannau gorffwys dynodedig ar gyfer rheolwyr a deiliaid allweddi hefyd, a gefnogwyd gan ymarfer dirybudd a gynhaliwyd ym Mhafiliwn Jade Jones yn y Fflint. Roedd yr ymarfer hwn, a gynhaliwyd ochr yn ochr â senario Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn gyfle i ddysgu gwersi gwerthfawr, yn ogystal ag ôl-drafodaeth yn dilyn yr ymarfer i nodi cyfleoedd i gryfhau gwytnwch staffio.

Rhannu Gwersi a Ddysgwyd

Cyfrannodd Cyngor Sir Ynys Môn at gyfarfod Tîm Parhad Busnes, gan adlewyrchu ei ymateb i ddigwyddiad seibr diweddar. Roedd hyn yn gyfle i gael cipolwg gwerthfawr o reoli digwyddiadau, heriau adfer, a gwytnwch sefydliadol, y mae Cyngor Sir Ddinbych wedi'i ystyried ac wedi dechrau ei ymgorffori yn eu trefniadau eu hunain.

Mynychodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sesiwn Tîm Gwybodaeth hefyd, gan rannu gwersi a ddysgwyd trwy reoli trefniadau cyfathrebu yn ystod toriad sylweddol yn y cyflenwad dŵr. Amlygodd hyn y pwysigrwydd o negeseuon cyhoeddus clir a chyson, a'r angen am sianeli cyfathrebu addasadwy yn ystod cyfnodau o amhariad i wasanaethau.

Tdaler 31 Tdyrch i'r dyfodol: Heriau Rhanbarthol a Chenedlaethol

Ar ddechrau 2026-2027, disgwylir i nifer o heriau newydd sy'n datblygu dylanwadu ar drefniadau cynllunio rhag argyfwng a gweithgarwch cadernid.

Newid Hinsawdd a Thywydd Garw

Mae tywydd garw'n parhau i fod yn un o'r risgiau mwyaf sy'n wynebu'r rhanbarth. Mae cynnydd yn nifer y stormydd, llifogydd, erydu arfordirol, tirlithriadau, tywydd poeth a thannau gwyllt yn debygol o roi rhagor o bwysau ar drefniadau ymateb ac adfer awdurdodau lleol. Dylid parhau i roi sylw arbennig i gymunedau arfordirol diamddiffyn ac ardaloedd sy'n wynebu risg uwch o lifogydd.

Seibrddiogelwch a Gwytnwch Digidol

Wrth i sefydliadau ddod yn fwy dibynnol ar systemau digidol a gwasanaethau cwmwl, mae effaith bosibl digwyddiadau seibr yn parhau i dyfu. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol barhau i ganolbwyntio'n gryf ar eu parodrwydd i ymdrin â digwyddiadau seibr, parhad busnes, cynllunio ar gyfer adferiad, ac ymwybyddiaeth staff i sicrhau parhad gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Gwytnwch Isadeiledd Hanfodol

Bydd gwytnwch rhwydweithiau cludiant, cyflenwadau ynni, systemau telegyfathrebu, porthladdoedd, isadeiledd dŵr, a systemau dosbarthu tanwydd yn parhau i fod yn faes ffocws pwysig. Mae digwyddiadau diweddar ar draws gogledd Cymru wedi dangos yr effaith gymdeithasol ehangach y gall amhariad i isadeiledd ei chael ar gymunedau, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus.

Gwytnwch Cymunedol a Chymdeithasol

Mae cydnabyddiaeth gynyddol yn genedlaethol bod gwytnwch yn gyfrifoldeb a rannir rhwng y llywodraeth, ymatebwyr brys, busnesau, sefydliadau gwirfoddol, a chymunedau. Bydd cryfhau gwytnwch cymunedol, cefnogi pobl ddiamddiffyn, gwella gallu gwirfoddol, a gwella parodrwydd y cyhoedd yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol.

Diogelwch Amddiffynnol a Diogelwch y Cyhoedd

Er mwyn gweithredu Cyfraith Martyn, bydd yn rhaid i sefydliadau sy'n gyfrifol am leoliadau a digwyddiadau hygyrch i'r cyhoedd gryfhau trefniadau parodrwydd a diogelwch amddiffynnol. Bydd hyn yn arwain at oblygiadau i awdurdodau lleol drwy eu rolau mewn perthynas â diogelwch digwyddiadau, gwarchod y cyhoedd, cynllunio rhag argyfwng, a gwaith partneriaeth.

Parodrwydd Amlasiantaeth

Mae cymhlethdod argyfyngau modern yn parhau i gynyddu, sy'n cynyddu rhyngweithredu a chydweithrediad ar draws asiantaethau. Bydd GCARh-CGC yn parhau i gefnogi Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd ac awdurdodau lleol trwy hyfforddiant, ymarfer, rhannu gwersi a ddysgwyd, a datblygu ymateb rhanbarthol a threfniadau adfer cydlynol.

Gwaith sydd ar y gweill gan GCARh-CGC ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-2027

Gwaith Rhanbarthol

Bydd rhaglen o ymarferion a hyfforddiant rhanbarthol yn cryfhau parodrwydd a gallu'r awdurdod lleol ymhellach. Bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn Ymarfer Adfer Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd ynghyd ag Ymarfer Adfer yn dilyn Marwolaethau Niferus a luniwyd yn benodol ar gyfer awdurdodau lleol i brofi trefniadau a chyfrifoldebau mewn sefyllfaoedd cymhleth.

Bydd uwch reolwyr o awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn ymarfer Marwolaethau Niferus a ddarperir gan Kenyon International. Bydd yr hyfforddiant yn gwella dealltwriaeth strategol a pharodrwydd ar gyfer rheoli digwyddiadau mawr sy'n cynnwys marwolaethau, gan gynnwys cydlynu, llywodraethu ac ystyriaethau dyngarol.

Yn ogystal â hynny, sefydlwyd rhaglen o weithdai defnyddiol, a oedd yn cynnwys siaradwyr gwadd â phrofiad uniongyrchol o reoli adferiad yn dilyn digwyddiadau mawr. Bydd sesiynau yn y dyfodol yn cynnwys mewnbwn gan uwch swyddog a oedd ynghlwm â'r ymateb yn Arena Manceinion, gan ddarparu mewnbwn gwerthfawr i brosesau adfer a'r gwersi a ddysgwyd.



Cyngor Sir Ynys Môn

Dros y misoedd nesaf, bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn canolbwyntio ar gryfhau parodrwydd am argyfwng a gallu i ymateb drwy nifer o feysydd blaenoriaeth allweddol.

Un o'r prif amcanion fydd datblygu prosesau recriwtio a datblygu gwirfoddolwyr i gefnogi prosesau staffio mewn Canolfannau Gorffwys yn ystod argyfyngau. Bydd cynyddu nifer y personél hyfforddedig yn gwella gwytnwch y Cyngor ac yn darparu capasiti ychwanegol i gefnogi gweithgarwch ymateb brys.

Bydd y Cyngor yn cyfrannu tuag at ddatblygu trefniadau tanau gwyllt aml-asiantaeth ar gyfer Coedwig Niwbwrch, gan dynnu ar wersi o ddigwyddiadau tanau gwyllt sylweddol a brofwyd ar draws y byd. Bydd y gwaith hwn yn cryfhau paratodau lleol, a threfniadau ymateb ac adfer.

Bydd y Cyngor yn parhau i gryfhau ei wytnwch seiber drwy adolygu ymateb brys a threfniadau parhad busnes ar gyfer digwyddiadau seiber ac ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau diweddar i gynlluniau lleol.

Er mwyn cefnogi gwelliant parhaus, mae Ynys Môn yn bwriadu meincnodi ei drefniadau llywodraethu a strwythurau cynllunio brys yn erbyn rhai Awdurdodau Lleol eraill ar draws gogledd Cymru. Bydd y gwaith hwn yn helpu i nodi cyfleoedd i gryfhau trefniadau presennol, mabwysiadu arfer da, a gwella parodrwydd sefydliadol.



Bydd ymgysylltiad parhaus â Grwpiau Budd-ddeiliaid Safle sy'n gysylltiedig â'r Wylfa'n parhau i fod yn flaenoriaeth, gan sicrhau fod y Cyngor yn parhau i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau, maethu gwaith partneriaeth effeithiol, a chefnogi gweithgareddau parodrwydd parhaus mewn perthynas â'r safle.

Gyda'i gilydd, bydd y blaenoriaethau hyn yn cefnogi ymrwymiad y Cyngor i wella gwytnwch, cryfhau partneriaethau, a sicrhau ei fod yn barod i ymateb yn effeithiol i argyfyngau a chefnogi cymunedau lleol lle bo angen.

Cyngor Gwynedd

Wrth edrych tua'r dyfodol, caiff rhaglen datblygu a gwella parhaus ei darparu i gryfhau cynlluniau brys, parhad busnes a gwytnwch sefydliadol ymhellach.

Caiff pob Cynllun Parhad Busnes eu cwblhau a'u hymarfer i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gadarn, yn effeithiol, ac wedi'u halinio â risgiau cyfredol. Darperir hyfforddiant atgoffa ar gyfer staff Canolfannau Gorffwys er mwyn cynnal eu parodrwydd gweithredol ac adolygu lleoliadau blychau adnoddau Canolfannau Gorffwys i gefnogi defnydd effeithiol a phrydlon o adnoddau yn ystod digwyddiadau.

Caiff y Cynllun Trefniadau Argyfwng Mawr ei ddiweddarau i adlewyrchu strwythurau llywodraethu a gofynion gweithredol cyfredol. Yn ogystal â hynny, caiff Cynllun Diogelu a Digwyddiadau Difrifol newydd ei ddatblygu i gryfhau gallu'r Cyngor i reoli digwyddiadau cymhleth a sensitif.

Byddwn yn parhau i wella gallu'r gweithlu drwy hyfforddiant Cofnodi pellach, gan hyfforddi grŵp ychwanegol o staff, a chynyddu gweithgarwch ôl-drafod er mwyn cefnogi dysgu sefydliadol. Bydd Swyddogion Cofnodi hefyd yn cael eu hintegreiddio i gyfarfodydd is-grwpiau er mwyn datblygu hyder, gwella ymwybyddiaeth, a chryfhau eu rôl o fewn strwythurau ymateb i ddigwyddiadau.

Caiff y Cynllun Fairbourne ei gwblhau a'i sefydlu drwy raglen barhaus o ymarferion, gan gynnwys ymarferion bychain ar draws is-grwpiau. Caiff yr Is-grŵp Seibrgadernid ei sefydlu'n ffurfiol, gan gefnogi gwelliannau i barodrwydd a diwylliant sefydliadol mewn ymateb i risg seibr.

Yn gyffredinol, bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu diwylliant cynllunio rhag argyfwng cadarnhaol, gan wella cydlynad, gallu a pharodrwydd ymhellach drwy systemau gwell, hyfforddiant wedi'i dargedu, a strwythurau llywodraethu clir.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dros y cyfnod adrodd nesaf, cwblheir sawl cam allweddol er mwyn gwella cynlluniau rhag argyfwng, trefniadau llywodraethu a gwytnwch sefydliadol ymhellach.

Mae'r Cynllun Trefniadau Argyfwng Mawr yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau ar hyn o bryd i adlewyrchu'r strwythur cynllunio rhag argyfwng diwygiedig. Bydd gwaith yn parhau er mwyn cryfhau a sefydlu'r Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng, gan sicrhau eglurder o ran rolau, cyfrifoldebau ac ymateb cydlynol ar draws y sefydliad.

Hwylusir gweithdy Argyfyngau Sifil Posibl ar gyfer aelodau'r Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng i wella ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau statudol a nodi cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad pellach. Yn gyfochrog â hyn, mae'r Cynlluniau Corfforaethol a Pharhad Gwasanaeth yn destun adolygiad. Caiff ymarfer a oedd yn cynnwys digwyddiad seibr a'i effaith bosibl ar ddarpariaeth gwasanaeth ei ddarparu i asesu effeithlonrwydd trefniadau parhad busnes cyfredol.

Caiff y defnydd o Resilience Direct yng Nghonwy ei adolygu hefyd. Mae gweinyddwyr a defnyddwyr wedi'u cadarnhau a'u cofrestru, a bydd GCARh-CGC yn parhau i weithio'n agos â'r Cyngor i ddatblygu tudalennau sy'n adlewyrchu'r strwythur cynllunio rhag argyfwng newydd a'r dogfennau ategol.

Yn ogystal â hynny, caiff y Cynllun Canolfannau Gorffwys ei adolygu, gan ganolbwyntio'n benodol ar roi gweithdrefnau ar waith ac egluro rolau a chyfrifoldebau staff a gwirfoddolwyr i sicrhau ymateb effeithiol a chydlynol.



Cyngor Sir Ddinbych

Gan adeiladu ar y cynnydd a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi sefydlu rhaglen waith uchelgeisiol i gryfhau cadernid, parodrwydd a gallu gweithredol ymhellach.

Darperir cyfres o ymarferion o amgylch y bwrdd ar gyfer y Tîm Cymorth Dyngarol a'r Tîm Gweithredol, gan ddarparu cyfleoedd i brofi trefniadau ymateb ac atgyfnerthu cydlynad amlasiantaeth. Bydd gallu'r gweithlu'n parhau i wella drwy ddatblygiad parhaus rhaglenni hyfforddiant ac ymarfer ar gyfer Swyddogion Cofnodi, gan sicrhau fod sgiliau'n parhau i fod yn gyfredol, yn gyson ac yn effeithiol.

Bydd y capasiti o fewn y ddarpariaeth canolfannau gorffwys yn cynyddu drwy recriwtio gwirfoddolwyr ychwanegol, a bydd cyflwyno gweithdai ymgysylltu ddwywaith y flwyddyn yn cefnogi hynny. Bydd y sesiynau hyn yn anelu at wella parodrwydd, datblygu hyder, a gwella trefniadau cadw staff ar draws y grŵp gwirfoddolwyr.

Cwblheir profion pellach ar y Cynllun Parhad Gwasanaeth er mwyn dilysu trefniadau a nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant, ynghyd â chwblhau'r Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol. Bydd gwaith hefyd yn mynd rhagddo i sefydlu Cynllun Adfer Fforwm Lleol Cymru Gydnerth o fewn trefniadau'r Cyngor, gan sicrhau trosglwyddiad effeithiol rhwng ymateb ac adfer yn dilyn digwyddiadau.

Yn ogystal â hynny, caiff ymarferion bychain rheolaidd eu hymgorffori yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Argyfyngau Strategol, gan gefnogi dysgu parhaus, cynnal ymwybyddiaeth, ac atgyfnerthu parodrwydd ar lefel strategol.



Cyngor Sir y Fflint

Dros y flwyddyn nesaf, mae sawl blaenoriaeth allweddol wedi'u nodi i gryfhau gwytnwch sefydliadol a gallu gweithredol ymhellach.

Caiiff manylion terfynol capasiti Cofnodi eu cwblhau, gan sicrhau fod pob aelod o staff yn cwblhau hyfforddiant er mwyn paratoi ar gyfer cefnogi'r broses o reoli digwyddiadau yn effeithiol. Caiiff hyfforddiant Resilience Direct a sesiynau trosolwg eu darparu i swyddogion newydd hefyd, gan gefnogi hyder yn y defnydd o'r platfform a sicrhau mynediad cyson at wybodaeth hanfodol yn ystod digwyddiadau.

Cwblheir ymarfer digwyddiad seibr ar gyfer y Tîm Parhad Busnes er mwyn profi'r trefniadau cyfredol a nodi meysydd i'w gwella. Caiiff gallu gweithredol ymhellach ei gryfhau drwy ddarparu ymarfer ar gyfer y Tîm Atgyweirio Tai, gan gydnabod eu rôl fel ymatebwyr yn ystod digwyddiadau.

Bydd gwaith yn parhau er mwyn cyfuno Cynlluniau Parhad Busnes yn un templed safonol, gyda rhaglen o ymarferion i ddilyn i ddilysu eu heffeithlonrwydd. Yn gyfochrog â hynny, caiff Cynllun Adfer Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ei sefydlu o fewn y Tîm Adfer a Thîm y Prif Swyddogion, gan sicrhau eglurder o ran rolau a throsglwyddiad cydlynol o'r cam ymateb i'r cam adfer.

Cynhelir ymgyrch recriwtio wedi'i thargedu i gryfhau'r ddarpariaeth canolfannau gorffwys gan gynnwys staff a Rheolwyr Canolfannau Gorffwys a sicrhau fod capasiti digonol i gefnogi cymunedau yn ystod digwyddiadau.

Yn olaf, caiff Grŵp Diogelwch Amddiffynnol a Pharodrwydd ei sefydlu i wella dull y Cyngor mewn perthynas â chynllunio diogelwch a pharodrwydd, gan alinio trefniadau lleol â pholisi cenedlaethol ac ystyriaethau risg newydd.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae'r gwaith sydd ar y gweill ar gyfer 2026-2027 yn cynnwys rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant a datblygiad a ddarperir i gryfhau parodrwydd a gallu sefydliadol ymhellach.

Caiiff trefniadau adfer eu gwella drwy ddarparu hyfforddiant adfer arbennig ac ymarfer adfer amlasiantaeth, gan sicrhau fod staff yn barod i reoli'r trosglwyddiad o ymateb i adfer yn effeithiol. Caiiff cronfa o swyddogion cofnodi ei sefydlu, ynghyd â hyfforddiant ategol i sicrhau gallu a chadernid digonol o fewn y swyddogaeth hanfodol hon.

Darperir sesiwn ymgysylltu rota Aur i gryfhau dealltwriaeth lefel strategol o rolau a chyfrifoldebau yn ystod digwyddiadau mawr. Bydd ymgysylltiad yn parhau ag aelodau etholedig drwy gyflwyniadau wedi'u targedu a sesiynau hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd, gan sicrhau eglurder o ran rolau ac arweinyddiaeth effeithiol yn ystod argyfyngau.

Caiiff ymwybyddiaeth o seibrgadernid ei gryfhau ymhellach drwy ddarparu sesiwn trosolwg seibr ar gyfer aelodau'r Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng, ynghyd ag ymarfer arbennig i'r tîm i brofi trefniadau ymateb.

Caiiff sesiynau hyfforddiant Resilience Direct eu darparu hefyd i wella hyder a gallu o ran defnyddio'r platfform. Yn ogystal â hynny, cwblheir ymgyrch recriwtio i gynyddu'r gronfa o wirfoddolwyr Canolfannau Gorffwys, gan sicrhau capasiti digonol i gefnogi cymunedau yn ystod digwyddiadau.

GWAITH AR REOLI PERYGLON DAMWEINIAU MAWR, PIBLINELLAU A SAFLEOEDD NIWCLEAR

Cynlluniau ac Ymarferion Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)

Bydd gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi cydymffurfiaeth â Rheoliadau Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) 2015 drwy weithgarwch cynllunio ac ymarfer wedi'i dargedu penodol i'r safle.

Caiff modiwlau ymarfer argyfwng eu dylunio a'u darparu yn Great Bear Distribution (Glannau Dyfrdwy) a FMC Agro Ltd (Pentre) mewn cydweithrediad â gweithredwyr safle a phartneriaid ehangach Fforwm Gwydnwch Lleol y Gogledd. Bydd y gwaith hwn yn profi trefniadau ymateb amlasiantaeth ac yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â gofynion rheoleiddiol.

Bydd y rhaglen hefyd yn cynnwys adolygu ac ailgyflwyno Cynlluniau Argyfyngau Allanol wedi'u diweddarau ar gyfer y ddau safle, gan sicrhau fod trefniadau'n parhau i fod yn gyfredol, yn gywir ac yn effeithiol.

Cynlluniau ac Ymarferion yng nghyswllt Rheoliadau Diogelwch Piblinellau (MAHP)

Cwblheir gwaith i gefnogi cydymffurfiaeth â Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996 drwy ymgysylltiad penodol i weithredwyr a gweithgarwch ymwybyddiaeth ehangach ar draws y rhanbarth.

Ar lefel benodol i weithredwyr, bydd GCARh-CGC yn gweithio gyda National Gas, Uniper UK, a Shotton Mill (Eren) i ddylunio a darparu ymarfer argyfwng aml-weithredwr statudol mewn cydweithrediad â phartneriaid Fforwm Gwydnwch Lleol y Gogledd. Bydd y rhaglen hon yn profi trefniadau ymateb amlasiantaeth ac yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â gofynion rheoleiddiol. Bydd yn cynnwys ailgyflwyno Cynlluniau ar gyfer Piblinellau â Pheryglon Damweiniau Mawr (MAHP) Cyngor Sir y Fflint ar gyfer National Gas ac Uniper, ynghyd â dilysu'r cynllun MAHP ar gyfer isadeiledd piblinellau pwysedd uchel newydd Shotton Mill.

Ar lefel ranbarthol, caiff sesiwn ymwybyddiaeth piblinellau pwysedd uchel ychwanegol ei darparu mewn partneriaeth â Chymdeithas Gweithredwyr Piblinellau ar y Tir y DU a Linesearch Before U Dig (LSBUD). Bydd hyn yn sicrhau fod awdurdodau lleol gogledd Cymru a phartneriaid ehangach Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd yn parhau i fod yn ymwybodol, yn gymwys a chydymffurfio â'u cyfrifoldebau dan Reoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.

Cynlluniau ac Ymarferion NiwcLEAR / REPPiR

Bydd GCARh-CGC yn parhau i gyfrannu at drefniadau parodrwydd am argyfwng niwcLEAR Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi'r broses o adolygu a gweithredu canllawiau diwygiedig pan fydd Llywodraeth y DU yn ail-gyflwyno'r Canllawiau Cynllunio ac Ymateb i Argyfyngau NiwcLEAR Cenedlaethol.

Bydd y gwaith hwn yn sicrhau fod cynlluniau rhanbarthol, gweithdrefnau a gallu'n parhau i fod wedi'u halinio â pholisi ac arfer orau cenedlaethol cyfredol, gan gynnal lefel uchel o barodrwydd ar draws sefydliadau partner.





Tudalen 37



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CONWY
CYNGOR BARDDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

sir ddinbych
denbighshire
County Council



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BARDDEISTREF SIROL
WRECCSAM

This page is intentionally left blank

03/2026

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad Sgriwtini

Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
Dyddiad:	14.10.2026
Pwnc:	Adroddiad Cynydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol
Cadeirydd Sgriwtini:	Jeff Evans

1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

Aelod Portffolio	Rôl
Cynghorydd Euryr Morris	Cadeirydd y Panel Gwasanaethau Cymdeithasol
Cynghorydd Dyfed Wyn Jones	Aelod portffolio ar gyfer Plant Phobl Ifanc a Theuluoedd
Cynghorydd Neville Evans	Aelod Portffolio ar gyfer Oedolion
Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)	Rôl
Fon Roberts	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Er mwyn nodi cynnydd a darparu sicrwydd

3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

- ☒ Er sicrwydd
- ☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
- ☒ Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion): A1 Nodi cynnydd gwaith y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y cyfnod diwethaf.

4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor: 2023-2028. Gofal Cymdeithasol a Llesiant yw un o'r chwe amcan strategol allweddol (Cynllun y Cyngor 2023-2028). Eu nod yw parhau i sicrhau cymunedau iachach, mwy diogel a thecach trwy gynnig amrywiaeth o wasanaethau ataliol, gwella a chefnogol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill o'r un anian. Mae gwaith y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfrannu at y nod hon.

5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Effaith blaen raglen waith y Panel Sgriwtini yn erbyn Cynllun y Cyngor.
2. Meysydd allweddol lle gellir cryfhau gwaith y Panel Sgriwtini.
3. Effeithiolrwydd y Sesiynau Gwaith Maes yn erbyn canlyniadau'r Panel Sgriwtini.

6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi trosolwg o waith Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod blwyddyn ddinesig 2025/26.

Datblygwyd blaenraglen waith ddwy flynedd ar gyfer 2025–2027 ar y cyd gan Aelodau'r Panel a swyddogion. Mae'r Panel yn cynnal dau gyfarfod ffurfiol y flwyddyn, ym mis Mai ac ym mis Tachwedd. Rhwng y cyfarfodydd hyn, trefnir cyfleoedd i Aelodau ymweld â gwasanaethau presennol a darpariaethau newydd yn y gymuned.

Mae agenda pob cyfarfod yn amrywio, ond fel arfer mae'n cynnwys cyflwyniad ar thema benodol, sesiwn ddatblygu a chyfle i adrodd yn ôl ar ymweliadau â gwasanaethau. Mae'r ystod eang o eitemau yn galluogi'r Panel i gasglu tystiolaeth, herio'n adeiladol a chefnogi gwelliant parhaus o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nodir isod y prif themâu, pynciau ac ymweliadau a ystyriwyd yn ystod y cyfnod, ynghyd â chrynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd, yr her a ddarparwyd gan Aelodau, effaith y gwaith craffu a'r camau gwella a nodwyd.

1. Adroddiad ar Weithdrefn Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol

Derbyniodd y Panel gyflwyniad gan y Rheolwr Gofal Cwsmer ar weithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024/25. Ystyriwyd themâu'r cwynion, adborth cadarnhaol, y gwersi a ddysgwyd, trefniadau monitro a'r hyfforddiant sydd angen o ganlyniad i'r cwynion.

Canolbwyntiodd gwaith craffu'r Aelodau ar y meini prawf ar gyfer symud cwyn o Gam 1 i Gam 2; y berthynas rhwng nifer y cwynion a nifer defnyddwyr gwasanaeth; cyfrifoldebau'r Cyngor o gymharu â rhai asiantaethau allanol; cwynion sydd yn digwydd yn aml neu dro ar ôl tro; hyder defnyddwyr gwasanaeth yn y broses; dadansoddi patrymau a themâu; ac olrhain gwersi er mwyn sicrhau gwelliant gwasanaeth.

2. Darpariaeth gofal i bobl hŷn a thai gofal ychwanegol

Cafwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ar y model gofal i bobl hŷn a'r datblygiadau tai gofal ychwanegol ar Ynys Môn.

Heriodd y Panel manteision cymunedol y ddarpariaeth, lefelau rhent, pwysau ariannol posibl, cyfleoedd cyflogaeth, cymorth i bobl ag anghenion cymhleth, trefniadau ar gyfer cyplau sy'n byw â dementia, a'r meini prawf cymhwysedd.

Canlyniadau a Camau Gwella

- Mynegodd Aelodau ddiddordeb mewn ymweld â Hafan Cefni neu Gaergybi i weld darpariaeth debyg ar waith ac mae'r trefniadau ar y gweill i'r ymweliadau yma gael eu trefnu cyn y cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal diwedd mis Tachwedd.

3. Ymweliadau iechyd meddwl a Heddfan

Yn ystod ymweliadau â'r Tîm Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Heddfan, cafodd Aelodau dystiolaeth uniongyrchol am y gwasanaethau, y meini prawf cymhwysedd, y dull sy'n ymwybodol o drawma, modelau cymorth cymunedol a'r cydweithio â'r Bwrdd Iechyd ar y model Gofal fesul Cam.

- Nodwyd angen sylweddol am fwy o le a chapasiti yn Heddfan.
- Pwysleisiwyd yr angen i gryfhau cymorth yn y gymuned i ategu gwaith Heddfan.
- Cydnabuwyd gwerth y bartneriaeth rhwng y staff a'r amrywiaeth o weithgareddau a ddarperir gyda phartneriaid allanol.
- Mynegodd Aelodau ddiddordeb mewn ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth mewn gweithgareddau cymunedol yn y dyfodol.

Darparwyd her adeiladol ar themâu gwasanaeth allweddol a chafwyd gwell dealltwriaeth o'r profiad rheng flaen.

Canlyniadau a Camau Gwella

- Nodwyd bod angen adolygu'r ffurflen adborth gwaith maes er mwyn defnyddio themâu craffu ehangach a chefnogi trafodaeth fwy agored ac mae hyn bellach wedi ei weithredu.
- Cadarnhawyd pwysigrwydd cofnodi canfyddiadau ar ôl pob ymweliad, olrhain materion a sicrhau bod meysydd i'w gwella yn cael sylw cyson.

4. Adroddiad Arolygiad Gofal Cymru – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Maethu Cymru Mon

Cafwyd dau gyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn crynhoi dau adroddiad cadarnhaol iawn yn dilyn adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru. Un yn trafod yr archwiliad sicrwydd I'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ar ail yn edrych mewn manylder ar yr tim Maethu Cymru – Mon.

Bu'r Panel yn craffu ar ganfyddiadau'r adolygiad, y goblygiadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r camau gweithredu sy'n cael eu datblygu i ymateb i'r argymhellion.

Canolbwyntiodd gwaith craffu'r Aelodau ar y pwysau ariannol a'r angen am gyllid ychwanegol; yr heriau o ran recriwtio a chadw staff; a trefniadau hyfforddiant, cysgodi a datblygu ar gyfer hyfforddeion Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr amserlen statudol.

Canlyniadau a Camau Gwella

- Roedd yr Aelodau yn nodi bod yr ddwy adroddiad yn gadarnhaol.
- Roedd yr Aelodau yn awyddus i dreulio amser o fewn y Gwasanaeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gwaith rheng flaen ac mae cynlluniau ar y gweill i drefnu hyn ar gyfer mis Ionawr.

5. Ymweliadau Gors Felen a Haulfryn

Yn ystod ymweliadau â Gors Felen, Llangefni a Haulfryn, Llangristiolus, cafodd Aelodau dystiolaeth uniongyrchol am y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth. Yng Ngors Felen, nodwyd y berthynas gadarnhaol a'r deialog reolaidd rhwng y ganolfan a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y cyfleusterau da ar y safle, gan gynnwys gardd hygyrch newydd, a'r dulliau integredig, cymunedol sy'n cefnogi unigolion i gynnal eu hannibyniaeth. Yn Haulfryn, cydnabuwyd pwysigrwydd y ddarpariaeth o ran cynnig gofal seibiant angenrheidiol i deuluoedd plant ag anableddau dysgu.

Canolbwyntiodd gwaith craffu'r Aelodau ar ansawdd y cyfleusterau a'r cymorth cymunedol sydd ar gael; y berthynas rhwng y darpariaethau a'r Gwasanaethau Cymdeithasol; sut mae gwasanaethau'n cefnogi annibyniaeth defnyddwyr gwasanaeth; a'r angen i sicrhau bod darpariaeth hygyrch ac addas ar gael i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu.

Canlyniadau a Camau Gwella

- Diolchodd Aelodau i'r staff am eu hamser ac am y mewnwelediad a ddarparwyd yn ystod yr ymweliadau.
- Nodwyd bod Haulfryn yn ymateb i angen clir am ddarpariaeth seibiant a gweithgareddau addas i blant ag anableddau dysgu.
- Mynegodd Aelodau ddiddordeb mewn ail-ymweld â Haulfryn unwaith y bydd y safle'n gwbl weithredol.

6. Tai â Chefnogaeth (Anableddau Dysgu)

Cafwyd gyflwyniad gan Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ar Tai â Chefnogaeth (Anableddau Dysgu).

Tynnodd Aelodau sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau Tai â Chefnogaeth yn parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth ac yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol. Cydnabuwyd hefyd werth gweithio mewn partneriaeth a datblygu gwasanaethau'n barhaus er mwyn ymateb i alwadau, heriau a risgiau'r dyfodol.

Canolbwyntiodd gwaith craffu'r Aelodau ar y ffrydiau cyllido sydd wedi'u nodi ar gyfer gwelliannau sylweddol; maint y rhestr aros bresennol ar gyfer Tai â Chefnogaeth ar Ynys Môn; trefniadau llety dros dro i breswylwyr tra bo gwelliannau'n cael eu gwneud; lefel y cysylltiad rhwng preswylwyr a gweithwyr cymdeithasol; y trefniadau cydweithio rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Tai; y ffactorau allweddol wrth ddewis lleoliad addas i ddefnyddwyr gwasanaeth; mewnbwn teuluoedd wrth ddewis lleoliad preswyl priodol; a'r heriau a'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth.

7. Cydweithio efo Panel Addysg i Gryfhau Atebolrwydd

Mae'r Paneli Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg wedi gweithio mewn partneriaeth i graffu ar adroddiadau Diogelu Corfforaethol cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini. Mae'r Paneli wedi cyfarfod ddwywaith fel rhan o'r dull hwn ac wedi cytuno i barhau i weithio mewn partneriaeth. Mae'r dull hwn ar y cyd wedi cryfhau atebolrwydd trwy alluogi Aelodau o'r ddau Banel i ystyried diogelu materion gyda'i gilydd, rhannu gwybodaeth ar draws meysydd gwasanaeth, a herio adroddiadau'n fwy cadarn cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini.

Mae sylw manwl wedi ei rhoid i'r adroddiad 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' ac roedd yr Aelodau yn cael sicrwydd fod gweithdrefnau rhwng y ddwy wasanaeth yn gadarn.

8. Camau nesaf

Bydd y Panel yn cyfarfod eto ym mis Tachwedd, pan fydd yn craffu ar thema Môn sy'n Ymwybodol o Drawma ac ar adroddiad 2025/26 ar sylwadau a chwynion. Bydd y cyfarfod hefyd yn gyfle i Aelodau adrodd yn ôl ar eu hymweliadau â darpariaethau gofal ychwanegol, gan nodi'r prif ganfyddiadau ac unrhyw feysydd sydd angen sylw pellach.

Bydd y Panel hefyd yn adolygu cynnydd ac effaith ei raglen waith hyd yma, ac yn ystyried ei strwythur, ei flaenoriaethau a'r opsiynau ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod ei waith yn parhau i ganolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf i ddefnyddwyr gwasanaeth, yn darparu her adeiladol ac yn cyfrannu'n amlwg at welliant parhaus ac atebolrwydd o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

7. Asesiadau effaith

7.1. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☐ Do

☒ Naddo

Os naddo, eglurwch pam: Amherthnasol

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Crynowch ganfyddiadau'r asesiad effaith. Lle'n briodol atodwch gopi ohono. Gweler y Canllaw ar Gwblhau Adroddiadau Sgriwtini ar MonITor am arweiniad pellach.

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Crynowch ganfyddiadau'r asesiad effaith. Lle'n briodol atodwch gopi ohono. Gweler y Canllaw ar gwblhau Adroddiadau Sgriwtini ar MonITor am arweiniad pellach.

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Crynowch ganfyddiadau'r asesiad effaith. Lle'n briodol atodwch gopi ohono. Gweler y Canllaw ar Gwblhau Adroddiadau Sgriwtini ar MonITor am arweiniad pellach.

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

Positif / Niwtral / Negyddol a sut

8 Goblygiadau ariannol

Dim

9 Atodiadau

10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

Angharad Hughes

03/2026

Cyngor Sir Ynys Môn Adroddiad Sgriwtini

Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
Dyddiad:	14 Hydref 2026
Pwnc:	Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (Rhan9): 2026
Cadeirydd Sgriwtini:	Cynghorydd Jeff Evans

1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

Aelod Portffolio	Rôl
Cynghorydd Dyfed Wyn Jones	Aelod portffolio ar gyfer Plant Phobl Ifanc a Theuluoedd
Cynghorydd Neville Evans	Aelod Portffolio ar gyfer Oedolion
Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)	Rôl
Gethin Morgan	Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol
Fôn Roberts	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Nod Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru yw gweithio ar y cyd ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i helpu i gefnogi cymunedau gwydn a hefyd sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer unigolion sydd angen gofal a chymorth.

Mae hyn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 – y mae un ohonynt wedi'i nodi fel 'Gofal Cymdeithasol a Lles – darparu'r cymorth cywir ar yr amser iawn'. Mae hefyd yn sail i'r Gwerthoedd a nodir yn y Cynllun – Cydweithio – 'Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn'.

3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

- ☒ Er sicrwydd
- ☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
- ☒ Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

1.

A1 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, yn deall ac wedi ystyried y gwaith y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud, yn enwedig mewn perthynas ag Ynys Môn.

A2 Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2026/27 yn feysydd gwaith sy'n cael eu datblygu drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn enwedig mewn perthynas ag Ynys Môn.

4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Mae hyn wedi'i gysoni â'r blaenoriaethau a nodir yn Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2023-28 – mae un ohonynt wedi'i nodi fel 'Gofal Cymdeithasol a Lles – darparu'r cymorth cywir ar y pryd iawn'. Mae hefyd yn sylfaenu ar y Gwerthoedd a nodir yn y Cynllun - Cydweithio - 'Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn'.

5. Themâu sgrwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgrwtini ganolbwyntio arnynt:

1. I ba raddau mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi sicrwydd i aelodau'r Pwyllgor bod Bwrdd Cydweithredol Gogledd Cymru (NWRPB) yn blaenoriaethu gwaith i:
A) gynrychioli dinasyddion Ynys Môn, yn ogystal ag awdurdodau eraill Gogledd Cymru;
B) sicrhau bod amcanion Cynllun Cyngor Ynys Môn yn cael eu gwireddu
C) gynnig gwerth am arian
2. Blaenoriaethau'r flwyddyn ariannol 2026/27 a'r effeithiau tebygol ar gymunedau Ynys Môn.

6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

Uchafbwyntiau a chyflawniadau'r flwyddyn:

- Diwygio Strategaeth Dementia Gogledd Cymru ar ôl ymgysylltu â mwy na mil o bobl, a datblygu ymateb rhanbarthol i Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Dementia.
- Cefnogi mwy na 1,300 o bobl drwy wasanaethau Llyw-wyr Cymunedol, gan wella mynediad at gymorth lles yn y gymuned.
- Cymeradwy a gweithredu Cytundeb newydd ar gyfer Gofal Cartref yng ngogledd Cymru, gan ddod â 97 o ddarparwyr ynghyd drwy drefniant rhanbarthol gwerth hyd at £171 miliwn ac ehangu'r gefnogaeth i oedolion, plant, pobl ifanc a gofalgwyr.

- Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fod yn fwy annibynnol drwy wasanaethau byw â chymorth, cyfleoedd am waith a dyfeisgarwch digidol
- Datblygu a chymeradwyo datganiad o ddiben ar y cyd ar gyfer trosglwyddo gofal, gan sefydlu dull gyffredin o hwyluso llif cleifion a'r drefn o ryddhau pobl o ysbytai ledled gogledd Cymru
- Darparu rhaglenni hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth i hyrwyddo dulliau niwrogynhwysol mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.
- Gweithredu datblygiadau cyfalaf mawr fel Tŷ Croes Atti, Coed y Ddraig, Canolfan Glanhwfa, cyfleusterau seibiant, cynlluniau byw â chymorth a datblygiadau tai gofal ychwanegol.
- Anogwyd trawsnewid digidol drwy hwyluso system newydd ar gyfer rheoli achosion gofal cymdeithasol ymhob un o'r chwech o awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru a mabwysiadu Fframwaith Digidol ym Maes Gofal Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Atgyfnerthwyd y drefn o ddatblygu'r gweithlu rhanbarthol drwy hyfforddiant ar y cyd, cynlluniau recriwtio a dal i hyrwyddo gyrfaoedd drwy'r ymgyrch Gofalwn Gogledd Cymru.
- Datblygwyd Fframwaith Atal a Siarter Angori rhanbarthol ymysg partneriaid ym meysydd iechyd, llywodraeth leol a'r trydydd sector er mwyn atgyfnerthu gwaith atal a hybu lles a gwynnwch cymunedol ledled gogledd Cymru.

7. Asesiadau effaith

7.1. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☐ Do

☒ Naddo

Os naddo, eglurwch pam:

Nid yw Asesiad Effaith Lles Cyffredinol wedi'i gwblhau ar gyfer y Adroddiad Blynyddol, ond bydd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (EIAu) wedi'u cwblhau ar gyfer y elfennau unigol.

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Pwrpas Rhan 9 o'r Ddeddf yw gwella canlyniadau a lles pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darparu gwasanaethau.

Gall nodau allweddol cydweithredu, partneriaeth a chydintegreiddio felly cael eu disgrifio fel:

- Gwella gofal a chefnogaeth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o ddweud a rheolaeth
- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles
- Darparu gofal a chefnogaeth cydlynol, yn ganolog i'r person
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

Pan fydd y Bwrdd yn datblygu adroddiadau rhanbarthol, strategaethau neu ddogfennau, mae swyddogion a'r Aelodau Etholedig sy'n eistedd ar y Bwrdd yn dod â'r rhain i gyfarfodydd perthnasol o fewn eu sefydliadau eu hunain i gael eu cytuno'n ffurfiol. Nid oes gan Fwrddiau Partneriaeth Rhanbarthol drefniadau ar gyfer craffu rhanbarthol, mae hyn yn cael ei wneud ar sail cynghorau lleol.

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Fel 7.1

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Fel 7.1

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

Dim effaith i'w nodi

8 Goblygiadau ariannol

Mae'r 6 Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd PBC yng Ngogledd Cymru yn cronni cyllid i gefnogi gweithio rhanbarthol ar draws y Rhanbarth. Mae hyn hefyd yn ariannu'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol ac mae cytundeb partneriaeth ffurfiol i ategu hyn.

Drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn sianelu ffrydiau ariannu grantiau megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r cronfeydd cyfalaf Tai â Gofal ac Integreiddio ac Ail-gydbwyso. Lle mae'n bosibl codi tâl gweithgaredd partneriaeth rhanbarthol ar y grantiau hyn, mae hyn yn cael ei weithredu.

9 Atodiadau

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru - Adroddiad Blynyddol (Rhan 9) 2026

10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

Gethin Morgan - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – Adroddiad Blynyddol 2026
Emma Edwards - Blaen Adroddiad Sgriwtini



BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD



Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Adroddiad Blynyddol 2026

Lluniwyd yr adroddiad hwn i fodloni'r gofynion y mae Llywodraeth Cymru wedi'u pennu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cynnwys

Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru	3
Uchafbwyntiau a chyflawniadau yn ystod y flwyddyn	5
Y Bwrdd Partneriaeth Plant Rhanbarthol	6
Crynodeb o Raglen y Gronfa Integreiddio Leol	11
Adran 1: Gofal yn y gymuned – atal a chydlynw cymunedol	13
Adran 2: Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at adref	24
Adran 3: Adref o'r ysbyty	33
Adran 4: Cynorthwyo teuluoedd a phlant i aros gyda'i gilydd yn ddiogel	39
Adran 5: Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da	50
Adran 6: Galluogwyr system integredig	55
Cynllun cyflawni blynyddol 2026/27	64
Atodiad 1	67

Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae'n ffrainc imi gyflwyno Adroddiad Blyneddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2025/26. Mae'r adroddiad yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan mae partneriaid ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, tai, addysg, y trydydd sector a chymunedau'n cydweithio i hybu lles a helpu pobl ledled gogledd Cymru i fyw'r bywydau gorau posib.

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, buom yn dal i ganolbwyntio ar atal, estyn cefnogaeth yn gynnar a darparu gofal i bobl yn nes at adref. Gwnaed cynnydd drwy ganolfannau cymunedol, presgripsiynau cymdeithasol, cymorth â dementia, timau adnoddau cymunedol, ailalluogi, dulliau Cartref yn Gyntaf, cymorth ag iechyd emosiynol a lles a gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Mae'r llwyddiannau allweddol yn cynnwys Llwybr Cymorth Cof Gogledd Cymru, y Cynllun Cymunedau sy'n Deall Dementia, gwella'r drefn sgrinio am ddementia ar gyfer pobl â Syndrom Down, y Cytundeb Gofal Cartref newydd i ogledd Cymru, y Fframwaith Lles,

Atal a'r Siarter Angori a dal i fuddsoddi mewn canolfannau cymunedol, gofal seibiant, byw â chymorth, gofal ychwanegol a chartrefi grŵp bychan i blant.

Gweithio'n wych mewn partneriaeth oedd wrth wraidd llwyddiant a gwerth Sbrint y Gaeaf 1 a 2. Drwy gryfhau'r trefniadau cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol a phartneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, bu modd i'r system ymdopi ag oedi mewn llwybrau gofal dan bwysau parhaus yn ystod y gaeaf. Cynhaliwyd sesiynau cyswllt yn rheolaidd yn rhanbarthol a lleol i hybu cyfathrebu, ymddiriedaeth, ymwybyddiaeth gyffredin o'r sefyllfa a datrys problemau ar y cyd, fel nad yw uwchgyfeirio'n beth arferol. Bu defnyddio data a rennir, yn enwedig y dangosfwrdd Claf Iawn, Lle Iawn, yn gymorth i bartneriaid weithio ar sail cyd-ddealltwriaeth, lleihau dyblygu gwaith a chyfeirio eu hymdrechion at ganolbwyntio ar y cleifion.

Mae'r bartneriaeth honno'n bwysig nid yn unig o safbwynt gwella perfformiad, ond hefyd wrth ddatblygu perthnasoedd cryfach, rhannu perchnogaeth a hyrwyddo ymddygiad aeddfed yn y system. Ar sail hynny, bu modd i'r partneriaid ymateb yn fwy effeithiol i wasgfeydd, cefnogi perchnogaeth leol mewn fframwaith rhanbarthol a chreu llwyfan ar gyfer gwelliant cynaliadwy a chydlynus ledled gogledd Cymru.

Mae'r Gronfa Integreiddio Leol wedi cefnogi 36 o raglenni rhanbarthol yn y chwech o fodelau gofal. Mae hynny'n cynnwys cefnogi gofalwyr di-dâl, gwasanaethau ataliol a chynlluniau gwerth cymdeithasol, sydd oll yn helpu i ddarparu gwell gofal yn y gymuned gan ganolbwyntio ar yr unigolion.

Gwyddom fod iechyd a gofal cymdeithasol yn dal i wynebu heriau sylweddol. Mae'r galw'n cynyddu, mae anghenion pobl yn mynd yn fwy cymhleth ac mae heriau'n parhau â'r gweithlu, cyllid a data. Yn yr adroddiad hwn, fodd bynnag, gwelir mor gryf yw ein partneriaeth a'r gwahaniaeth y mae cydweithio'n ei wneud i unigolion, teuluoedd, gofalwyr a chymunedau.

Ar sail blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, cyflwynir rhaglen uchelgeisiol

ar gyfer 2026/27 ac wrth edrych i'r dyfodol, mae ein hymrwymiad yn bendant: dal i gydweithio'n bwrpasol gyda chydymdeimlad ac uchelgais, fel bod pob cam a gymerwn gyda'n gilydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl, teuluoedd a chymunedau ledled gogledd Cymru.

Dod at ein gilydd yw'r man cychwyn; mae aros gyda'n gilydd yn gynnydd; mae gweithio gyda'n gilydd yn llwyddiant.

Diolch,
y Cyngorydd Dilwyn Morgan

Uchafbwyntiau a chyflawniadau yn ystod y flwyddyn

Rydym wedi:

- Diwygio Strategaeth Dementia Gogledd Cymru ar ôl ymgysylltu â mwy na mil o bobl, a datblygu ymateb rhanbarthol i Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Dementia.
- Cefnogi mwy na 1,300 o bobl drwy wasanaethau Llyw-wyr Cymunedol, gan wella mynediad at gymorth lles yn y gymuned.
- Cymeradwy a gweithredu Cytundeb newydd ar yfer Gofal Cartref yng ngogledd Cymru, gan ddod â 97 o ddarparwyr ynghyd drwy drefniant rhanbarthol gwerth hyd at £171 miliwn ac ehangu'r gefnogaeth i oedolion, plant, pobl ifanc a gofalwyr.
- Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fod yn fwy annibynnol drwy wasanaethau byw â chymorth, cyfleoedd am waith a dyfeisgarwch digidol.
- Datblygu a chymeradwyo datganiad o ddiben ar y cyd ar gyfer trosglwyddo gofal, gan sefydlu dull cyffredin o hwyluso llif cleifion a'r drefn o ryddhau pobl o ysbytai ledled gogledd Cymru.
- Darparu rhaglenni hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth i hyrwyddo dulliau niwrogynhwysol mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.
- Gweithredu datblygiadau cyfalaf mawr fel Tŷ Croes Atti, Coed y Ddraig, Canolfan Glanhwfa, cyfleusterau seibiant, cynlluniau byw â chymorth a datblygiadau tai gofal ychwanegol.
- Anogwyd trawsnewid digidol drwy hwyluso system newydd ar gyfer rheoli achosion gofal cymdeithasol ymhob un o'r chwech o awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru a mabwysiadu Fframwaith Digidol ym Maes Gofal Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Atgyfnerthwyd y drefn o ddatblygu'r gweithlu rhanbarthol drwy hyfforddiant ar y cyd, cynlluniau recriwtio a dal i hyrwyddo gyrfaedd drwy'r ymgyrch Gofalwn Gogledd Cymru.
- Datblygwyd Fframwaith Atal a Siarter Angori rhanbarthol ymysg partneriaid ym meysydd iechyd, llywodraeth leol a'r trydydd sector er mwyn atgyfnerthu gwaith atal a hybu lles a gwynnwch cymunedol ledled gogledd Cymru.

Y Bwrdd Partneriaeth Plant Rhanbarthol

Bu'r Bwrdd yn gweithio'n gyson i sicrhau iechyd a lles pobl o bob oed yng ngogledd Cymru

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru'n gweithio â gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a gwasanaethau eraill er mwyn canfod a bodloni anghenion pobl yn ein rhanbarth. Mae hynny'n cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, fel:

- plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth
- pobl hŷn, gan gynnwys pobl sy'n byw â dementia
- pobl ag anabledau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol
- pobl gydag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl
- gofalwyr di-dâl.

Modelau gofal

Un elfen o'n gwaith yw gweithredu modelau gofal cenedlaethol newydd i wella'r ffordd y mae sefydliadau'n cydweithio ar sail yr hyn sy'n bwysig i'r bobl a gefnogwn. Mae model gofal yn disgrifio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu trefnu a'u darparu. Yn yr adroddiad hwn, manylir ynglŷn â'r hyn rydym wedi'i gyflawni yn y deuddeg mis diwethaf ar gyfer pob un o'r modelau gofal, sef:

1. [**Gofal yn y gymuned – atal a chydlynu cymunedol.**](#) Gwasanaethau cymunedol sy'n helpu i ddiogelu preswylwyr rhag problemau hirdymor ag iechyd neu les, gan gynnwys grwpiau cyfeillio, canolfannau cymunedol, cefnogaeth i ofalwyr a mynediad at wasanaethau lles.
2. [**Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at adref.**](#) Cymorth i hybu adferiad wedi afiechyd a bod yn fwy annibynnol yn y tymor hir.
3. [**Adref o'r ysbyty.**](#) Fe fydd pobl angen triniaeth mewn ysbyty o bryd i'w gilydd beth bynnag, ac felly rydym yn helpu pobl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty'n ddiogel ac yn gyflym a gwella adref. Pan mae arnynt angen gofal mewn ysbyty, mae rhwydd hynt iddynt gael hynny.
4. [**Cynorthwyo teuluoedd a phlant i aros gyda'i gilydd.**](#) Bydd partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg yn gweithio gyda theuluoedd i'w helpu i aros gyda'i gilydd yn ddiogel ac atal yr angen i blant dderbyn gofal gan yr awdurdod lleol.
5. [**Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da.**](#) Creu a gwella gwasanaethau i bobl y mae arnynt angen cefnogaeth ag iechyd a lles emosiynol.

Mae [**Adran 6**](#) o'r adroddiad yn sôn am alluogwyr y system, sef yr elfennau hanfodol hynny y tu ôl i'r llenni sy'n ei gwneud yn bosib darparu modelau gofal newydd.

- Y rhaglen gyfalaf ac atebion sy'n seiliedig ar lety – darparu adeiladau, offer a

chyfleusterau i hwyluso gwasanaethau integredig a chreu mannau diogel a chefnogol i bobl fyw.

- Digidol, data a thechnoleg – offer i gynorthwyo'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i wella lles.
- Canolbwynt Cydlynu Dyfeisgarwch Rhanbarthol – yn cynorthwyo â gwaith ymchwil a dyfeisgarwch, gan gynnwys arfarnu prosiectau a'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.
- Y gweithlu – cynllunio'r math o swyddi sydd eu hangen i ddarparu gofal a chymorth a chydweithio i recriwtio a chadw'r bobl iawn yn y swyddi hynny.
- Mwy na geiriau – annog defnyddio'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng ngogledd Cymru.
- Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru
- Cyfathrebu ac ymgysylltu

Sut mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio

Ymysg aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mae Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac eraill. Ceir rhestr o'r holl aelodau ar ein gwefan.

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/bwrdd-partneriaeth-rhanbarthol-gogledd-cymru/aelodaeth/>

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant yn darparu arweinyddiaeth yng nghyswllt amryw faterion sy'n effeithio ar wahanol garfannau oedran rhwng 0 a 25 oed. Dysgwch fwy am y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant, gan gynnwys datganiad cenhadaeth, gwerthoedd ac egwyddorion.

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/plant/bwrdd-partneriaeth-rhanbarthol-plant/>

Mae amryw fyrdau a grwpiau'n adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys:

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant
- Bwrdd Anableddau Dysgu Integredig
- Grŵp Strategol Dementia Rhanbarthol
- Bwrdd Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig
- Bwrdd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl
- Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol
- Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol
- Bwrdd Digidol, Data a Thechnoleg

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn cynorthwyo â chyfarfodydd partneriaeth, gan gynnwys:

- Grŵp Arweinyddiaeth: Cyfarwyddwr o'r chwech o awdurdodau lleol a swyddogion allweddol o'r bwrdd iechyd (gan gynnwys Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Trawsnewid a Chynllunio Strategol) sy'n arwain y cydweithio gydol y system
- Cyfarwyddwyr: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- PGOGC: Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Gogledd Cymru
- PGPGC: Penaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru
- Grŵp Strategol Cynllunio a Newid Gwasanaethau

Ynglŷn â Gogledd Cymru

Mae yno chwech o ardaloedd cynghorau yng ngogledd Cymru, sef Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.


Byddwn weithiau'n cynllunio a darparu gwasanaethau mewn ardaloedd neu isranbarthau, gan weithio fesul dau o ardaloedd cynghorau fel y nodir isod:

- Gorllewin (Ynys Môn a Gwynedd)
- Canol (Conwy a Sir Ddinbych)
- Dwyrain (Sir y Fflint a Wrecsam)



Hunanasesu

Cynhaliom hunanasesiad yn 2024 er mwyn myfyrio ynghylch y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel partneriaeth. Ar y cyfan, credom fod gennym weledigaeth bendant a nodau ac amcanion cyffredin, ynghyd ag aelodaeth amrywiol a chynhwysol ac ymddiriedaeth gref iawn ymysg y partneriaid.



Mae'n dod â phobl ynghyd. Mae'n rhoi lle i
gydweithwyr ddatblygu perthnasoedd, codi
problemau a deall swyddogaethau'r asiantaethau
eraill. (Aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol)

Credom y dylem fod yn fwy pendant ynglŷn â strwythurau llywodraethu, atebolrwydd a phrosesau penderfynu'r bwrdd.

Yn ogystal â'r hunanasesiad, gwnaed gwaith yn ystod y flwyddyn i ganfod cyfleoedd i ddal i gryfhau'r cydlyniant rhwng y sefydliadau, yn enwedig ym maes cylchoedd cynllunio, dulliau cyflawni a chyflymder wrth weithredu ar sail blaenoriaethau rhanbarthol. Er bod y trefniadau llywodraethu'n sicrhau gorolwg ac atebolrwydd cadarn, mae eu cymhlethdod weithiau'n effeithio ar eglurder a phenderfyniadau. Cydnabu'r partneriaid hefyd mor bwysig yw dal i gryfhau'r drefn o rannu gwybodaeth, cyfathrebu a defnyddio data i hwyluso darpariaeth fwy cydlynus ledled gogledd Cymru. Bydd y themâu hyn yn dal i ddylanwadu ar flaenoriaethau datblygu'r Bwrdd yn ystod 2026/27.

Y rhain oedd ein hargymhellion:

1. Adolygu strwythurau llywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a sicrhau eglurder ynghylch y prosesau penderfynu, gan gynnwys cysylltiadau â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r clystyrau cynllunio gofal sylfaenol.
2. Cyhoeddi gwybodaeth eglur am strwythurau llywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, strwythur y tîm rhanbarthol a'r ffordd y gwneir penderfyniadau ynglŷn â chyllid. Rhannu'r wybodaeth honno ar y wefan ac mewn pecyn gwybodaeth i aelodau newydd.
3. Ystyried sut i wella'r ffordd rydym yn ymdrin â heriau a wynebir ym maes iechedd a gofal cymdeithasol.
4. Ennyn mwy o gyhoeddusrwydd am waith y Bwrdd a'i lwyddiannau, gan gynnwys astudiaethau achos i ddangos y gwahaniaeth y mae penderfyniadau'r Bwrdd wedi'i wneud.

Gwnaethom gryn gynnydd wrth gyflawni'r argymhellion hyn, fel y gwelir drwy'r adroddiad, er enghraifft:

- Sicrhau cydsyniad y Grŵp Arweinyddiaeth i sefydlu'r Fforymau Cynllunio Strategol er mwyn cynllunio gweithgareddau ar y cyd yn y dyfodol.
- Bu modd inni ddatblygu'r Fframwaith Lles ac Atal a'r Siarter Angori ar y cyd â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Bydd heriau'n codi o hyd ac mae'r adroddiad hwn yn sôn am y gwaith a wnaed mewn partneriaeth i oresgyn yr heriau hynny yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

- Wrth ddal i ddatblygu'r grŵp 'newyddion da', amlygwyd y gwaith cadarnhaol a wnaed i ennyn mwy o gyhoeddusrwydd i'r bwrdd mewn ffordd integredig.

Byddwn yn dal i fyfyrio ynghylch yr argymhellion hyn er mwyn gwella yn 2026/27 wrth sefydlu'r Fforymau Cynllunio Strategol, y Fframwaith Lles ac Atal a'r Siarter Angori, dal i gydweithio i ymateb i'r heriau a datblygu naratif mwy gobeithiol, optimistaidd a chadarnhaol yn y sector yn gyffredinol ledled y rhanbarth.

Byddwn hefyd eleni'n trefnu hunanasesiad diwygiedig i'n helpu i wella yn y dyfodol a chreu eglurder ynglŷn â swyddogaeth y bwrdd.

Crynodeb o Raglen y Gronfa Integreiddio Leol


Bu'r Gronfa Integreiddio Leol yng ngogledd Cymru'n cefnogi 36 o raglenni rhanbarthol yn y chwech o fodelau gofal yn 2025/26. Buddsoddwyd cyfanswm o fwy na £79 miliwn. Darparodd Llywodraeth Cymru £30.5 miliwn o hynny a chyfrannodd y partneriaid £35.4 miliwn o arian cyfatebol. O hynny, gwariwyd £5.2 miliwn i gefnogi gofalmwyr di-dâl a buddsoddwyd £5.3 miliwn mewn cynlluniau a gwasanaethau gwerth cymdeithasol.

Mae'r holl brosiectau'n llunio astudiaethau achos a straeon am yr effaith y maent yn ei chael. Rydym wedi rhannu rhai o'r rhain yn yr adroddiad gyda chaniatâd y cyfranogwyr. Mae'r prosiectau hefyd yn adrodd ynghylch cyfres o ddangosyddion perfformiad i Gymru gyfan.

Crynodeb o fuddsoddiadau'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol ymhob model gofal

Model gofal	Cyllid Llywodraeth Cymru	Cyfanswm gan gynnwys arian cyfatebol gan y partneriaid
Gofal yn y Gymuned – Atal a Chydlynu	£8,272,902	£10,779,415
Gofal yn y Gymuned – Gofal Cymhleth yn Nes at Adref	£6,081,329	£45,120,980
Adref o'r ysbyty	£3,506,219	£4,099,501
Cynorthwyo teuluoedd a phlant i aros gyda'i gilydd	£10,537,926	£16,501,485
Atebion yn Seiliedig ar Lety	£763,349	£934,426
Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da	£1,371,795	£2,299,919
Cyfanswm	£30,533,519	£79,735,725

Siart 1: Cyfran y buddsoddiad ymhob model gofal



Mapio Effeithiau Ymledol

Cynhaliom weithdai ynglŷn â [Mapio Effeithiau Ymledol](#) ar gyfer prosiectau yn y pump o Fodelau Gofal. Defnyddiwn y dull arfarnu hwn i fesur effeithiau ein prosiectau, boed yn rhai a fwriedir neu fel arall. Mae'n dod â phobl sydd â diddordeb yn y prosiect ynghyd i fyfyrto ynghylch yr hyn a gyflawnwyd, dysgu a gwella. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys

rhai enghreifftiau o'r mapiau a luniom gyda'n gilydd.

Adran 1: Gofal yn y gymuned – atal a chydlynu cymunedol

Mae a wnelo atal a chydlynu cymunedol â helpu pobl i ddeall sut y gallant fod yn dda eu hiechyd a'u lles. Dymunwn greu ymdeimlad o gymuned ac o berthyn yng ngogledd Cymru, er mwyn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd a helpu pobl i gadw'n annibynnol a gwella eu hiechyd meddyliol a chorfforol.

Cyllid

Ariennir y gwaith â £10,779,415 o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol a chyllid drwy'r Cynllun Gweithredu Dementia, Ymhellach, yn Gyflymach a grantiau cyfalaf ar gyfer y model gofal hwn.

Beth gyflawnon ni



Defnyddiodd **114,072** o bobl y gwasanaeth; 13,346 ohonynt am y tro cyntaf.



Fe wnaeth **4,677** o bobl gynnal neu wella eu lles a'u hiechyd emosiynol.



Roedd **99%** o bobl yn fodlon ar y wybodaeth, cyngor a chymorth a gawsant.

Mae ein prosiectau'n cefnogi pobl hŷn, pobl sy'n byw â dementia, pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol fel awtistiaeth, pobl ag anghenion â'u hiechyd emosiynol a meddyliol a'u lles, a gofalwyr di-dâl. Mae hynny'n cynnwys prosiectau penodol i gynorthwyo'r bobl hynny, fel Cymorth Gofalwyr, timau Un Pwynt Mynediad a Chyflogaeth â Chymorth i Bobl ag Anableddau Dysgu yn y rhanbarth. Cyflwynir isod y cyflawniadau a llwyddiannau allweddol yn y Model Gofal hwn.

Canolbwyntiau Cymunedol ac ymyrryd yn gynnar

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, rydym wedi atgyfnerthu'r gefnogaeth mewn cymunedau lleol i helpu pobl i gael cefnogaeth yn gynt a chadw mewn cysylltiad. Ehangwyd canolbwyntiau cymunedol a gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol i ddarparu mwy o gefnogaeth hygyrch yn lleol a helpu i sicrhau nad yw anghenion yn dwysáu.

Rydym wedi cwblhau Canolfan Dementia Glanhwfa, sydd wedi gwella hygyrchedd a chynyddu cyfranogiad o weithgareddau cymunedol. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd amrywiaeth helaeth o weithgareddau wythnosol a misol i hybu cysylltiad, lleihau unigrwydd a meithrin gwytnwch.

Datblygwyd cynllun peilot gwytnwch cymunedol yn Nyffryn Nantlle, sy'n un enghraifft o gryfhau trefniadau cydweithio rhwng 13 o ganolfannau a gwella mynediad at wasanaethau lleol ledled Gwynedd. Mae Gwynedd hefyd wedi dechrau'r gwaith o drawsnewid llyfrgelloedd yn ganolbwyntiau cymunedol integredig, gan greu mannau hygyrch lle darperir amrywiaeth o wasanaethau i gymunedau lleol.

Presgripsiynu cymdeithasol a llywio cymunedol

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, rydym wedi atgyfnerthu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol a llywio cymunedol er mwyn helpu pobl i gael cefnogaeth ar yr adegau iawn. Cefnogwyd mwy na 1,300 o bobl drwy'r gwasanaethau Llywio Cymunedol, gan hybu mynediad at gefnogaeth â lles a helpu pobl i ddod o hyd i'r cymorth angenrheidiol yn nes at adref.

Cynhaliom sesiynau codi ymwybyddiaeth a Phwyntiau Siarad i feithrin gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael ac annog pobl i geisio cefnogaeth yn gynt. Mae hynny wedi helpu i leddfu'r gwasgafeydd ar wasanaethau cyhoeddus drwy atal atgyfeiriadau amhriodol a hwyluso ymyrraeth gynharach. Ymhob agwedd ar y gwaith, rydym wedi atgyfnerthu'r trefniadau at gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng sectorau, hybu cydlyniant ac estyn cefnogaeth i fwy o bobl.

Un pwynt mynediad

Daliom ati i atgyfnerthu'r un pwynt mynediad fel cyrchfan allweddol ar gyfer cefnogaeth ataliol ac mae'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ar yr adegau iawn. Defnyddiwn sgysiau "Beth sy'n bwysig" i hwyluso ffordd o weithio sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn a'u cryfderau.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn â'r trothwyon a sefydlu gweithdrefnau atgyfeirio newydd i hybu cysondeb a chyfrannu at benderfyniadau mwy pendant. Yn ogystal â hynny, datblygwyd cynlluniau newydd fel clinigau cymunedol, sy'n helpu i leihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus ac yn darparu cefnogaeth mewn mannau mwy hygyrch.

Cefnogaeth ag anableddau dysgu a hybu annibyniaeth

Buom yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fagu annibyniaeth drwy wasanaethau i hwyluso cynnydd a phontio, gan gynnwys pobl yn symud ymlaen i gynlluniau byw â chymorth.

Mae'r gwaith wedi dod yn ei flaen wrth lunio Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru ar gyfer 2026 i 2036, drwy gyd-gynhyrchu ac ymgysylltu er mwyn sicrhau bod y

blaenoriaethau'n gyson â phrofiadau a dyheadau pobl.


Rydym hefyd wedi cyflwyno dulliau digidol, gan gynnwys apiau ar gyfer cyfathrebu a gweithgareddau, er mwyn gwella hygyrchedd a hybu cyfranogiad. Ehangwyd cyfleoedd i gyfranogi a gwella lles drwy amrywiaeth o weithgareddau a rhaglenni rhanbarthol, gan gefnogi pobl i gael mwy o gysylltiad â'u cymunedau.


Cyflogaeth â chymorth

Bu'r gwasanaethau cyflogaeth â chymorth yn dal i helpu pobl i symud ymlaen a chael gwaith gwerth chweil. Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, derbyniodd y gwasanaethau cyflogaeth â chymorth 374 o atgyfeiriadau a chafodd 46 o bobl swyddi cyflogedig yn sgil hynny, ac eraill yn cael cyfleoedd eraill am waith di-dâl.

Rydym wedi cefnogi pobl i ddal ati yn eu swyddi a chadwodd pobl eu swyddi am fwy na chwe mis ar gyfartaledd. Soniodd rhwng 72% a 79% o'r rheiny a gefnogwyd eu bod wedi cynnal neu wella eu lles oherwydd y gefnogaeth.

Mapio Effeithiau Ymledol





Mae'r gwasanaeth Cyflogaeth â Chymorth Rhanbarthol yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu i ddod o hyd i waith am gyflog, yn ogystal â darparu cefnogaeth yn y gweithle i'r gweithiwr a'r cyflogwr fel ei gilydd.

Lluniwyd y map uchod gan y tîm cydweithredol (rheolwr gwasanaeth, gweithiwr cymdeithasol, Cydlynnydd Llwybrau Cyflogaeth a hyfforddwr swyddi) a fu'n myfyrio ynghylch hynt yr unigolion drwy'r gwasanaeth. Mae J yn ei bedwardegau ac mae'n byw mewn llety â chymorth. Cyn iddo gwrdd â'r tîm Chyflogaeth â Chymorth, soniodd y gweithiwr cymdeithasol ei fod yn rhwystredig ac yn anfodlon â'i fywyd, a bod hynny'n creu gwrthdaro ar yr aelwyd weithiau, a byddai'n aml yn ffonio'r gweithiwr cymdeithasol neu'n treulio llawer o amser â nhw pan oeddent yn ymweld â phreswylwyr eraill. Roedd yn cyfranogi o'r gwasanaethau dydd ond yn teimlo nad oedd hynny'n addas iddo.

Mae'r Cydlynnydd Llwybrau Cyflogaeth yn elfen hanfodol o weithredu'r model hwn – maent yn gweithio'n agos ag unigolion, gweithwyr cymdeithasol a hyfforddwyr swyddi er mwyn sicrhau fod cyfranogwyr yn pontio'n ddidrafferth ac i reoli newidiadau'n ofalus. Mae'r map yn dangos mai'r Cydlynnydd yw'r sbardun ar gyfer newid meddylfryd yr unigolyn. "Mae gan y Cydlynnydd Llwybrau Cyflogaeth fwy o amser na gweithwyr cymdeithasol i weithio ag unigolion ac maent yn gaffaeliad mawr i'n gwasanaeth."

Nod y gwasanaeth yw cefnogi pobl i gael gwaith am gyflog; mae'r map yn dangos fod gweithio'n wirfoddol fel garddwr wedi cyfrannu'n uniongyrchol at well canlyniadau i'r unigolyn dan sylw. Yn ystod y sesiwn, mynegodd yr hyfforddwr swyddi siom nad oedd wedi cael swydd gyflogedig. Dywedodd rheolwr y gwasanaeth, 'ond mae o wedi cael lleoliad gwirfoddol rŵan, mae ganddo bwrpas ac mae'n dweud ei fod 'yn hapusach nag y bu erioed'. Nid yw'n defnyddio gwasanaethau dydd bellach ac felly mae'r Cyngor yn arbed costau, ac mae'n cysylltu â'i weithiwr cymdeithasol yn llai aml, felly mae llai o alw ar eu hamser hwythau. Fe ddywedoch fod yr aelwyd gyfan yn dawelach.'

Pwysleisiodd gymaint o gamp oedd hynny a soniodd bod y gefnogaeth a ddarparwyd wir

wedi canolbwyntio ar yr unigolyn, er nad oedd yr unigolyn mewn gwaith cyflogedig, fel yr oedd amcan y gwasanaeth yn y pen draw.

Rhaglen Ymhellach yn Gyflymach

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, mae cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r rhaglen 'Ymhellach, yn Gyflymach' wedi ariannu dull cydlynol, system gyfan o atgyfnerthu gofal cymunedol ledled gogledd Cymru. Mae'r buddsoddiad wedi galluogi'r partneriaid yn y rhanbarth i gyflawni blaenoriaethau allweddol, gan gynnwys cynyddu gallu cymunedau i gyflawni, gofal wedi'i rag-gynllunio, gofal lliniarol, gofal cartref, gofal preswyl a phresgripsiynu cymdeithasol, gyda phwyslais pendant ar wella canlyniadau a lleihau'r galw am wasanaethau aciwt.

Mae'r rhaglen wedi cyfrannu'n helaeth at ehangu gallu cymunedau i gyflawni, yn enwedig drwy ddarparu mwy o ofal cartref, gwasanaethau ailalluogi a dulliau dyfeisgar fel micro-ofal a gofal gan un unigolyn. Yn sgil hynny, bu cynnydd yn narpariaeth a hyblygrwydd gofal mewn cymunedau lleol, daeth pobl adref o'r ysbyty'n fwy prydlon a bu llai o oedi mewn darparu gofal. Mae hyn hefyd wedi cynyddu gallu'r gweithlu i gyflawni a hybu ei wytnwch, sy'n galluogi gwasanaethau i ymateb yn fwy effeithiol i'r galw a sicrhau dilyniant mewn gofal.

Drwy'r buddsoddiad Ymhellach, yn Gyflymach, bu modd datblygu modelau gofal mwy rhagweithiol ac ataliol. Mae hynny'n cynnwys rhag-gynllunio gofal yn well ar gyfer y rheiny sydd mewn mwyaf o berygl o fod ag angen gofal brys, ehangu'r gwasanaeth Gofal Estynedig yn y Cartref a hwyluso mynediad at ofal arbenigol lliniarol a gofal diwedd bywyd, gan gynnwys ar benwythnosau. Mae'r modelau hynny wedi cyfrannu at ymyrryd yn gynt, cydlyn gofal yn well a sicrhau y caiff llai o bobl eu derbyn i'r ysbyty pan mae modd osgoi hynny, yn ogystal â galluogi pobl i ddal i fyw gartref yn unol â'u dymuniadau.

Hefyd, mae'r rhaglen wedi gwella mynediad at gefnogaeth gymunedol ac anghlinigol drwy bresgripsiynu cymdeithasol a gwasanaethau yn y gymuned. Mae'r gwasanaethau hynny wedi helpu i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol, wedi hybu lles pobl a galluogi cefnogaeth yn gynt, ac wedi lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau ieuchyd a rhai statudol. Mae integreiddio hynny yn y timau adnoddau cymunedol a'r modelau amlddisgyblaethol wedi ategu system gofal mwy cydlynus ac ymatebol.

At ei gilydd, mae'r rhaglen wedi cyfrannu at hwyluso llif y system a hybu gwytnwch mewn llwybrau cymunedol ac ysbytai. Drwy gysoni'r gweithlu, gwasanaethau a dulliau ataliol, mae'r cyllid Ymhellach, yn Gyflymach wedi ategu model gofal mwy integredig, gan wella'r canlyniadau i bobl a hybu symudiad cynaliadwy gydol y rhanbarth at ofal yn nes at adref.

Rhaglen Dementia

Cryfhau'r gefnogaeth â Dementia ledled gogledd Cymru

Mae rhaglen dementia gogledd Cymru'n dal i gryfhau'r gefnogaeth integredig, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a ddarperir i bobl sy'n byw â dementia a gofalwyr di-dâl. Ceir llwybr cymorth cof rhanbarthol bellach, sy'n cyfuno'r gwasanaethau asesu cof, canolfannau dementia, cefnogaeth cyn diagnosis ac ar ôl diagnosis, llyw-wyr mewn ysbytai, cymorth gan gymheiriaid, eiriolaeth, cyngor ar fudd-daliadau, ymgysylltu â'r gymuned a gweithgarwch lleol sy'n ystyriol o ddementia.

Cynyddodd yr atgyfeiriadau at y llwybr yn y trydydd sector o 3,598 rhwng 2022 a 2023 i 5,026 rhwng 2024 a 2025, a chynyddodd yr atgyfeiriadau at lyw-wyr mewn ysbytai 21 y cant rhwng 2025 a 2026. Mae gwella'r gwasanaethau asesu cof wedi lleihau'r amseroedd aros, gwella ansawdd y data a chryfhau'r trefniadau trosolwg.

Mae newidiadau yn y system, gan gynnwys adlunio System Gweinyddu Cleifion Cymru, dangosfyrddau a'r swyddogaeth olrhain y llwybr cymorth cof, wedi hwyluso'r llif a hybu amlygrwydd y gwasanaethau. Drwy weithgarwch yn y gymuned, datblygiadau cludiant a'r fforwm Banc Atgofion, atgyfnerthwyd hygyrchedd, ymwybyddiaeth a chyfraniadau gan bobl sydd wedi byw drwy'r profiad.

At ei gilydd, mae'r rhaglen yn dangos gwerth cydlynu'r ymdrechion yn y rhanbarth i wella mynediad, hybu integreiddio a darparu cefnogaeth mewn cymunedau.

Ymgysylltu Rhanbarthol, Atal ac Iechyd yr Ymennydd

Cafwyd llwyddiant wrth gyflawni blaenoriaethau rhanbarthol Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru, gan roi pwyslais cryf ar ymgysylltu, atal a pharatoi ar gyfer Ymgyrch Iechyd yr Ymennydd. Diwygiwyd Strategaeth Dementia Gogledd Cymru ym mis Mai 2025 ar sail ymgysylltu helaeth â mwy na 1,000 o bobl ynghyd â phartneriaid ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Mae hynny'n sicrhau bod y dull gweithredu rhanbarthol yn gyson â'r anghenion a'r polisi cenedlaethol ar hyn o bryd.

Mae'r rhanbarth wedi llunio ymateb ar y cyd i Lywodraeth Cymru a fydd yn ystyried hynny wrth lunio Cynllun Gweithredu Dementia 2026-36. Nod hynny yw sicrhau fod partneriaid â phobl â phrofiad o fyw gyda'r cyflwr yn ganolog i ddatblygu'r blaenoriaethau cenedlaethol newydd.

Roedd yr ymateb yn gyson â'r sylwadau a gafwyd gan amryw fudd-ddeiliaid, gan gynnwys y chwech o awdurdodau lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid yn y trydydd sector fel Cymdeithas Alzheimer, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Cynnal Gofalwyr a Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru. Cafwyd cyfraniadau hefyd gan ddau o grwpiau o ofalwyr â phobl wedi byw drwy'r profiad, a oedd yn cynrychioli lleisiau mwy na hanner cant o bobl.

Wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn aeth heibio, ymgysylltwyd yn helaeth ledled y rhanbarth i ennill gwell dealltwriaeth o brofiadau a blaenoriaethau pobl y mae dementia'n effeithio arnynt.

Un rhan o hynny yw'r Ymgyrch Gwrando ar Ddementia a gynhaliwyd ymhob un o'r

chwech o siroedd. Gwahoddwyd cymunedau i leisio'u barn ynglŷn â gofal dementia a chafwyd cannoedd o ymatebion a fu'n sail i lunio wyth o flaenoriaethau allweddol i'r rhanbarth, gan gynnwys mynediad at ofal a chymorth, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cefnogaeth i ofalwyr di-dâl a datblygu cymunedau sy'n deall dementia. Y blaenoriaethau hynny bellach sy'n llywio'r dull mwy cydlynus, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sydd ar waith mewn gwasanaethau dementia yng ngogledd Cymru.

Yn ogystal â hynny, ac wrth baratoi ar gyfer Ymgyrch Iechyd yr Ymennydd, mae'r rhanbarth wedi rhoi sêl bendith ar sesiwn codi ymwybyddiaeth a ddatblygwyd, sy'n canolbwyntio ar atal dementia a lleihau risgiau. Datblygwyd adnoddau ar gyfer yr ymgyrch i gynorthwyo â rhannu negeseuon allweddol yn gyson ledled y rhanbarth, gan sicrhau eu bod yn hygyrch, yn ymarferol ac yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf. Lluniwyd yr adnoddau ar y cyd â phartneriaid i sicrhau cysondeb a mynd ati gyda'n gilydd i hyrwyddo iechyd yr ymennydd.

Bydd y ddarpariaeth yn seiliedig ar hyfforddi hyfforddwyr, a darperir yr hyfforddiant hwnnw gydol 2026/27.

Cymunedau sy'n deall dementia

Gweithiwyd mewn partneriaeth wrth adolygu'r dogfennau cyfarwyddyd ar gyfer cynllun achredu Cymunedau sy'n Deall Dementia a'u diwygio. Mae hynny'n sicrhau fod yno fframwaith cyson, clir a chefnogol i gymunedau ledled y rhanbarth sy'n gweithio i ennill cydnabyddiaeth. Ffurfiwyd paneli hefyd i gynorthwyo â cheisiadau a'u hasesu.

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, mae Cymunedau sy'n Deall Dementia wedi dal i dyfu a chryfhau ledled y rhanbarth. Mae yno bellach 14 o Gymunedau sy'n Deall Dementia achrededig a thri o Gynghorau sy'n Deall Dementia ledled y rhanbarth. Enillodd Tywyn gydnabyddiaeth yng Ngwynedd ac mae ardaloedd eraill fel Porthmadog, Pwllheli a Chaernarfon wedi mynegi diddordeb. Yng Nghonwy, enillodd Abergele gydnabyddiaeth am yr eildro ac ymgysylltwyd yn fwyfwy ag amrywiaeth eang o fusnesau a sefydliadau lleol.

Mae Sir Ddinbych wedi dal i wneud cynnydd ac enillodd amryw drefi statws Cymuned sy'n Deall Dementia, gydag eraill yn gweithio at gael eu hachredu, gyda chymorth y panel rhanbarthol. Ymhelaethwyd ar hyn yn Wrecsam i gynnwys amrywiaeth fwy eang o fannau cymunedol fel ysgolion, eglwysi a chanolfannau hamdden, gyda'r nod o wreiddio ymwybyddiaeth o ddementia'n fwy helaeth mewn mannau cyffredin.

Yn Sir y Fflint, comisiynwyd sefydliad yn y sector gwirfoddol i arwain datblygiad a gweithrediad y cynllun Cymunedau sy'n Deall Dementia. Gyda hynny fe ffurfiwyd grŵp

llywio a throsolwg sy'n cynnwys amrywiaeth o bartneriaid cymunedol, gan gynnwys Cymunedau sy'n Deall Dementia yn Nhreffynnon a'r Fflint, i lywio ac ategu'r gwaith.

Enillodd Ynys Môn achrediad fel Cyngor sy'n Deall Dementia drwy'r cynllun rhanbarthol. Mae hynny'n gam mawr at gryfhau'r dull system gyfan, dan arweiniad y gymuned, o gefnogi pobl y mae dementia'n effeithio arnynt.

Cefnogi gofalwyr di-dâl

Mae Grŵp Gweithredol Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru'n dal i oruchwylio gweithrediad y cynllun gweithredu rhanbarthol ar gyfer gofalwyr, yn unol â Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'r dyletswyddau a bennwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn unol â'r Cod Ymarfer, mae partneriaid ym meysydd iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn cydweithio i sicrhau y caiff gofalwyr eu canfod, eu cynnwys fel partneriaid yn y gofal, a'u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain.

Mae gwasanaethau a ariennir drwy'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr a rhaglenni rhanbarthol, gan gynnwys cymorth i ofalwyr mewn ysbytai gan Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru a Chynnal Gofalwyr, a darparu egwylliau byr gyda chyllid Amser, wedi dal i gefnogi gofalwyr ledled gogledd Cymru. Mae'r gwasanaethau hynny'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth hollbwysig, yn cynorthwyo pobl wrth ddod adref o'r ysbyty ac yn cynnig egwylliau hyblyg wedi'i personoleiddio, sy'n cyfrannu at gynnal lles gofalwyr a'u galluogi i ddal ati i ofalu.

Yn ystod 2025-26, bu'r Grŵp Gweithredol yn atgyfnerthu ymateb cydlynol y rhanbarth i'r heriau a nodwyd mewn gwaith raffu a gwella'n genedlaethol. Un rhan o hynny oedd datblygu cyfres gyffredin o flaenoriaethau rhanbarthol ar sail cyfraniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Prosiect Gofalwyr Di-dâl ADSS Cymru a gofalwyr ledled y rhanbarth. Mae'r blaenoriaethau hynny'n canolbwyntio ar ganfod gofalwyr yn gynnar, cryfhau mynediad at wybodaeth a chynghor, gwella cysondeb ac ansawdd asesiadau o anghenion gofalwyr, cefnogi ymarfer y gweithlu a sicrhau fod llais gofalwyr a gofalwyr ifanc yn sail ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau.

Yn y dyfodol, bydd y partneriaid yn dal i gyflawni'r blaenoriaethau hyn drwy'r Grŵp Gweithredol ac yn hybu dull gweithredu mwy cyson ac effeithiol ledled y rhanbarth. Mae'r gwaith yn gyson ag egwyddorion craidd y Ddeddf, gan gynnwys ata;, gweithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu, a bydd yn cynorthwyo gogledd Cymru wrth ymateb i'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl sydd ar y gweill, a gwella'r canlyniadau i ofalwyr a'r bobl sy'n derbyn cefnogaeth ganddynt.

Gogledd Cymru Iach


Gwnaed cryn gynnydd eleni wrth ddatblygu Fframwaith Atal Rhanbarthol Gogledd Cymru, ynghyd â phartneriaid ym meysydd iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector,

er mwyn atgyfnerthu gwaith atal yn nulliau gweithredu'r system gyfan. Mae'r fframwaith yn cynnwys blaenoriaethau cyffredin a Siarter Angori ac mae'n rhoi pwyslais ar ddysgu ar sail arferion da sy'n bodoli eisoes. Wrth ymgysylltu'n helaeth ledled y rhanbarth, gan gynnwys cynnal digwyddiad system gyfan, mynegwyd cefnogaeth frwd i hyn ac amlygwyd yr angen am arweinyddiaeth bendant, cydweithio a gweithredu'n ymarferol. Mae hynny'n gyson â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys y Cod Ymarfer, sy'n rhoi pwyslais ar atal, ymyrryd yn gynnar a gweithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau lles. Y cam nesaf fydd gwreiddio'r Fframwaith yng nghynlluniau'r sefydliadau, atgyfnerthu trefniadau cydweithio a sicrhau canlyniadau y gellir eu mesur wrth hybu lles a lleihau anghydraddoldeb ledled gogledd Cymru.

Rhaglen gyfalaf: Cynyddu Darpariaeth Seibiant

Mae buddsoddiadau cyfalaf yn dal i atgyfnerthu'r gefnogaeth ataliol a chydlyniant cymunedol drwy ehangu mynediad at ddarpariaeth gofal seibiant a galluogi teuluoedd i gadw'n wydn yn eu cymunedau.

Mae buddsoddi mewn gofal seibiant yn hwyluso mynediad at egwylliau wedi'u cynllunio a chefnogaeth gydlynus i'r bobl sy'n derbyn gofal a gofalwyr di-dâl.



Ar Ynys Môn, agorodd canolfan seibiant dydd newydd i blant ag anableddau dysgu ym mis Awst 2025, gyda chymorth £655,000 o Gronfa Tai â Gofal Llywodraeth Cymru. Mae'r ganolfan yn darparu cefnogaeth hyblyg i hyd at ugain o blant ar yr un pryd, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau ysgol. Mae'r cyfleusterau pwrpasol yn cynnwys ystafell synhwyrdd, manau gweithgarwch ac ystafelloedd newid hygyrch, ac mae uned seibiant â dwy o ystafelloedd gwely'n cael ei hadeiladu ar y safle hefyd.

Yn Wrecsam, mae ymestyn canolfan seibiant i blant wedi creu mwy o leoedd a gwell hygyrchedd i blant ag anghenion mwy cymhleth. Mae hynny'n galluogi mwy o blant i gael gofal seibiant yn nes at adref, sy'n fuddiol i deuluoedd ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r ardal, yn ogystal â sicrhau cefnogaeth gyson i deuluoedd a gofalwyr.

Mae'r datblygiadau hyn oll yn atgyfnerthu'r gefnogaeth ataliol ac yn helpu i gynnal teuluoedd a threfniadau gofal mewn cymunedau lleol.

Heriau

Mae'r diagram isod yn dangos yr heriau allweddol y mae prosiectau'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol wedi'u hamlygu.

Galw a chymhlethdod

Y galw'n cynyddu a'r anghenion yn fwy cymhleth.

Y gweithlu a'r gallu i gyflawni

Gwasgfreydd ar recriwtio a staffio.

Mynediad ac amrywiaeth

Mynediad yng nghefn gwlad ac anghydraddoldeb.

Nid yw cyfleoedd i wreiddio ymarfer effeithiol yn gyson a'i ehangu ledled y rhanbarth ond megis dechrau datblygu.

Integreiddio a systemau

Heriau â chydlynw a rhannu data.

Cyfngiadau hirdymor ar gyllid.

Gellid cryfhau'r drefn o rannu gwybodaeth, cyfathrebu a darparu'n gydlynus.

Mae angen dal i ddatblygu'r gallu i gyflawni o safbwynt agweddau digidol a data.

Ceir cyfleoedd o hyd i ehangu arferion da'n gyson ledled y rhanbarth.

Camau nesaf

Ar sail y llwyddiannau a'r heriau hyn, yn y flwyddyn nesaf byddwn yn:

- Dal ati i ehangu canolbwyntiau cymunedol a phresgripsiynu cymdeithasol er mwyn cyrraedd mwy o bobl a sicrhau gwell cysondeb ledled gogledd Cymru.
- Dal i ddatblygu modelau ymyrryd yn gynnar er mwyn atal problemau rhag gwaethygu a lleihau'r galw ar wasanaethau statudol.
- Canolbwyntio mwy ar recriwtio, cadw staff a datblygu'r gweithlu, yn enwedig felly 'wrth y drws ffrynt' ac mewn gwasanaethau cymunedol.
- Ymchwilio i fodelau darparu newydd a ffyrdd o gymysgu sgiliau i wneud y gorau o'r gallu i gyflawni a sicrhau effeithlonrwydd.
- Cefnogi staff drwy hyfforddiant a datblygu, gan gynnwys atgyfnerthu dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sgysiau "Beth sy'n bwysig".
- Gweithio at ddarparu gwasanaethau a llwybrau mwy cyson yn yr holl siroedd.
- Gwella'r drefn o rannu a sicrhau fod systemau'n gweithio â'i gilydd, fel bod

gwybodaeth yn llifo'n well ymysg y gwasanaethau.

- Cryfhau'r dystiolaeth o'r effaith ac arbedion costau, i annog buddsoddiadau yn y dyfodol.

Adran 2: Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at adref

Mae gofal cymhleth yn nes at adref yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, i bobl ag anghenion cymhleth. Y nod yw cefnogi bobl i gadw'n annibynnol ac osgoi gorfod mynd i'r ysbyty, gan dderbyn gofal gartref neu'n agos at adref drwy ddulliau amlasiantaethol cydlynus.

Cyllid

Derbyniwyd £6 miliwn ar gyfer y model gofal hwn drwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol yn ogystal â chyllid drwy Her 50 Diwrnod y Pwyllgor Gweithredu Gofal, Ymhellach, yn Gyflymach a grantiau cyfalaf.

Beth gyflawnon ni



Defnyddiodd **31,184** o bobl y gwasanaeth; 2,798 ohonynt am y tro cyntaf.



Ataliwyd anghenion **4,534** o bobl a dderbyniodd gefnogaeth rhag dwysáu.



Roedd **99%** o bobl yn fodlon ar y wybodaeth, cyngor a chymorth a gawsant.

Timau adnoddau cymunedol

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, rydym wedi atgyfnerthu'r timau adnoddau cymunedol i ddarparu gofal amlddisgyblaethol mwy cydlynus yn y 16 o ardaloedd. Mae hynny wedi galluogi gwell cydweithio ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a gofal sylfaenol, gwella cyfathrebu a sicrhau gofal mwy cydlynus.

- Cyflwynwyd llwybrau atgyfeirio penodol mewn ymarfer cyffredinol yn ogystal â chyfathrebu'n well yn dilyn atgyfeiriadau, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau a sicrhau dilyniant mewn gofal.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn rheolaidd fel y gellid ymdrin yn fwy holistig ag achosion cymhleth, gwneud penderfyniadau ar y cyd a darparu cefnogaeth fwy cyson.

Gwasanaethau cymorth cymhleth a dwys

Rydym wedi ehangu'r gwasanaethau gofal brys ac arbenigol mewn cymunedau, gan helpu i leihau nifer y bobl sy'n mynd i'r ysbyty ac unedau brys.

- Darparwyd cefnogaeth gadarnhaol ag ymddygiad drwy ddulliau ymarferol yn y fan a'r lle, gan gyflawni gwell canlyniadau i bobl ag anghenion mwy cymhleth.
- Cryfhawyd y drefn o weithio'n amlasiantaethol a myfyrio ynghylch ymarfer, gan roi hwb i hyder y staff ac ansawdd y gefnogaeth.
- Cefnogwyd pobl drwy ymyriadau therapi galwedigaethol arbenigol, gan hybu annibyniaeth a lleihau'r angen am ofal hirdymor.

Gwasanaethau ailalluogi ac atal codymau

Bu'r gwasanaethau ailalluogi'n cefnogi pobl i ddod yn ôl at eu hunain, adennill eu hannibyniaeth ac aros gartref, gan leihau'r ddibyniaeth ar ofal a chymorth parhaus. Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, cefnogwyd 235 o bobl drwy ailalluogi a dim ond naw y cant ohonynt oedd angen gofal hirdymor yn sgil hynny.

- Darparwyd ymyriadau a hyfforddiant i atal codymau, cefnogi pobl i fyw'n fwy diogel yn y gymuned a lleihau risg.
- Cyflawnwyd cyfradd na chafodd eu cludo i'r ysbyty o 75% (hynny yw, bu modd i'r Gwasanaeth Ambiwylans osgoi mynd â phobl i'r ysbyty), gan helpu pobl i osgoi mynd i'r ysbyty heb fod angen.
- Cryfhawyd y llwybrau rhwng gwasanaethau ambiwlans, cymunedol a gofal sylfaenol.
- Diwygiwyd systemau data a threfniadau rhannu gwybodaeth er mwyn targedu gwaith atal yn well.

Cymorth i'r sector gofal

Buom yn cefnogi'r sector gofal i gynyddu'r gallu i gyflawni a hybu cynladwyedd y gweithlu.

- Darparwyd rhaglenni hyfforddiant i staff gofal, gan gynnwys meddyginiaeth, codi a symud, a lles.
- Cefnogwyd darparwyr micro-ofal a chwmnïau bach, gan gynyddu'r gallu i gyflawni yn y sector ac annog gofal mwy hyblyg yn y gymuned.
- Datblygwyd dulliau hyfforddi safonol ac adnoddau digidol, gan hybu gallu'r gweithlu i gyflawni a sicrhau cysondeb.

Grymuso annibyniaeth

Buom yn cefnogi pobl i gael mwy o ddewis a rheolaeth ar eu gofal a'u cymorth.

- Cefnogwyd pobl ag anableddau dysgu i ddylanwadu ar eu rhaglenni cefnogaeth a gweithgarwch, gan hybu cyfranogiad a lles.

- Aethpwyd ati i hyrwyddo a chefnogi taliadau uniongyrchol er mwyn galluogi trefniadau gofal mwy hyblyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Cefnogwyd pobl i ddatblygu sgiliau ac annibyniaeth, gan helpu i leihau dibyniaeth hirdymor ar wasanaethau.

Ceir enghraifft isod o'r ffordd y mae prosiectau'n cefnogi mentrau cymunedol i feithrin hyder, datblygu sgiliau a hybu lles yr unigolion.

Mae llawer o bobl ar Ynys Môn wedi holi ynglŷn â chymryd rhan mewn podlediadau, sy'n boblogaidd iawn ar y cyfan. Bu TAPE: cerddoriaeth a ffilm cymunedol yn ein helpu i roi cychwyn arni. Bu modd inni fynd i weithdai a phrynu'r offer. Bwriedir cyhoeddi podlediadau'n rheolaidd i drafod amryw bynciau. Yr unigolion sydd wedi cychwyn y prosiect hwn a hwy sydd wedi'i lywio'n gyfan gwbl; buont ynghlwm wrth y gwaith o'r cychwyn cyntaf. Fi drefnodd yr offer, lleoedd i recordio, y cyfweiliadau ac mi fues i'n helpu efo'r cynllunio.

Beth weithiodd yn dda a beth na weithiodd cystal:

Cawsom gefnogaeth ardderchog gan TAPE a gan fod y prosiect yn rhywbeth y gofynnodd pobl amdano, mae'r grŵp yn frwdfrydig iawn dros wneud y peth yn llwyddiant. Mae pethau'n mynd yn dda iawn ar hyn o bryd.

Sut beth yw 'da' neu 'lwyddiant':

Mae cyfranogiad a mwynhad y grŵp wedi bod yn fendigedig; mae pawb yn y grŵp wedi cyfrannu at y prosiect. Y canlyniad yn y pen draw fydd casgliad o bodlediadau. Mae'r grŵp wedi penderfynu cwrdd unwaith y mis i ddal ati â'r prosiect a gan fod yr offer yn symudol, gallwn fynd yma ac acw o amgylch Ynys Môn.

Gwersi a ddysgwyd:

Mae'r grŵp a minnau wedi dysgu sut i raglennu podlediad, defnyddio'r offer a recordio, a'u cyhoeddi drwy'r cyfrwng iawn. Y peth pwysicaf i mi ydi bod y prosiect wedi'i lywio'n gyfan gwbl gan yr unigolion. Eu llais nhw, eu dewis nhw a'u rheolaeth nhw.

Canlyniadau:

"Rydw i'n dysgu sgiliau newydd ac mae'n fy helpu i fagu hyder."

"Mae'n beth cyffrous i gymryd rhan ac mae o'n gyfle da."

"Dwi'n ennill profiad."

“Dwi’n dod i adnabod pobl newydd.”

“Rydyn ni’n dysgu gan ein gilydd ac wedi gwneud ffrindiau.”

Casgliad:

Bu’n wych gweld y grŵp yn magu hyder a bu’n brofiad cadarnhaol ar y cyfan. Mae gan y grŵp lawer o gynlluniau i fynd â’r prosiect yn ei flaen.

Osgoi costau

Cynhaliwyd ymarfer osgoi costau i gael amcan o’r arbedion posib yn sgil prosiectau wedi’u hariannu drwy’r Gronfa Integreiddio Ranbarthol a’u gweithredu drwy’r model gofal hwn.

Mae’r cyfrifiad yn rhoi amcangyfrif o nifer y derbyniadau i’r ysbyty dros nos a gafodd eu hosgoi, drwy nodi pobl na wnaeth eu hanghenion ddwysáu a dod i dybiaethau ynglŷn â hyd cyfnodau pobl yn yr ysbyty a’r costau dyddiol. Wedyn, cymerir i ystyriaeth werth y costau hynny a gafodd eu hosgoi i gostau gweithredu’r gwasanaeth, i ddangos pa fudd a gyflawnir am bob punt a gaiff ei gwario.

Lluniwyd ffeithlun ar sail data ynghylch perfformiad y prosiectau hynny, a gyflwynwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2025 i 2026.

Cost Avoidance

* estimated cost savings to the Health and Social Care system as a result of RIF funded project interventions

Number of individuals who reported the support provided prevented them from escalating their level of need:

1175

Total number of individuals who accessed projects within this MoC:

1697

£6.4 million*

* estimated cost savings to the Health and Social Care system as a result of RIF funded project interventions

£10,538,044*

This is based on OT specialist service, BCU/WAST Falls and frailty pilot, and Community Urgent Care Hubs data only.

Rhaglen Ymhellach, yn Gyflymach

Mae cyllid Llywodraeth Cymru drwy'r rhaglen 'Ymhellach, yn Gyflymach' wedi dal i gynnal datblygiad gofal yn y gymuned ledled gogledd Cymru gyda phwyslais ar alluogi pobl ag anghenion mwy cymhleth i dderbyn gofal yn nes at adref. Bu'r rhaglen yn annog dull cydlynol o atgyfnerthu'r ddarpariaeth gymunedol fel nad yw pobl ond yn mynd i'r ysbyty pan mai hynny sydd fwyaf addas.

Ledled y rhanbarth, defnyddiwyd y cyllid i hwyluso mynediad at wasanaethau yn y gymuned, gan gynnwys ailalluogi, gofal cartref a chartrefi gofal. Mae hynny wedi cynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael mewn cymunedau a galluogi mwy o bobl i dderbyn gofal yn nes at adref, gan arwain at bobl yn dod adref o'r ysbyty'n gynt a bod llai o ddibyniaeth ar wasanaethau aciwt.

Ceir tystiolaeth o roi'r buddsoddiad hwn ar waith drwy amryw ddulliau sy'n seiliedig ar leoedd. Yn y Gorllewin, defnyddiwyd y cyllid i ariannu dulliau cymunedol o ymdrin â bregusrwydd, fel bod modd canfod achosion yn gynt a chefnogi pobl mewn perygl o ddirywio. Yn ardaloedd y Canol, buddsoddwyd mewn rhag-gynllunio gofal a gofal lliniarol, ynghyd â darpariaeth cam-i-fyny a cham-i-lawr i gynorthwyo â gofal y tu hwnt i'r ysbyty. Yn y Dwyrain, defnyddiwyd y cyllid i ehangu ofal yn y gymuned ac arfer dulliau mwy cydlynus o gefnogi pobl ag anghenion cymhleth.

Mae'r datblygiadau hyn yn gyson â symudiad at fodelau gofal mwy rhagweithiol a chymunedol. Maent yn cefnogi pobl i gadw'n annibynnol yn hwy a derbyn gofal mewn mannau sy'n briodol i'w hanghenion a'u dewisiadau.

Cytundeb Comisiynu Gofal Cartref Rhanbarthol

Mae amryw asiantaethau'n darparu gofal cartref (gofal ar yr aelwyd) ledled gogledd Cymru. Cynhaliodd yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd drefn gaffael wrth adnewyddu Cytundeb Gofal Cartref Gogledd Cymru, a Chyngor Sir Ddinbych fu'n arwain y gwaith. Cyflwynodd tua 100 o ddarparwyr gofal gynigion a phenodwyd 97 ohonynt. Gallai'r cytundeb fod yn werth tua £171 miliwn a bydd mewn grym am hyd at wyth mlynedd.

Mae cynnal trefn gaffael sylweddol ar y cyd yn gyson â'r egwyddorion a bennir yn y *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth: Cod Ymarfer (2024)*, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth, bod yn dryloyw a mabwysiadu dull rhanbarthol cyson wrth gomisiynu.

Mae'r cytundeb yn pennu'r amodau a thelerau y mae'n ofynnol i'r darparwyr eu bodloni. Mae'n hyblyg ac yn galluogi partneriaid i weithio â darparwyr gofal i ddatblygu ac ymestyn yr amrywiaeth o ofal cartref a gwasanaethau cefnogi sydd ar gael ledled y rhanbarth. Mae hynny'n gyson â'r Cod, sy'n rhoi pwyslais ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a galluogi dyfeisgarwch a gwelliant parhaus mewn trefniadau comisiynu.

Ehangwyd cwmpas y cytundeb hefyd. Roedd yn canolbwyntio o'r blaen ar ofal cartref safonol i oedolion. Mae bellach yn cynnwys cefnogaeth i blant a phobl ifanc, gofal cartref cymhleth a gofal seibiant (egwyliau byr) i blant, pobl ifanc, oedolion, teuluoedd a gofalwyr di-dâl. Ehangwyd cwmpas y cytundeb i adlewyrchu dull gweithredu mwy integredig ac ataliol sy'n cefnogi pobl i gadw'n annibynnol gartref, ac mae'n gyson â'r Cod sy'n rhoi pwyslais ar fodloni anghenion amrywiol a newidiol y boblogaeth.

Daeth y cytundeb i rym ar 1 Ebrill 2025. Ers hynny, mae amseroedd aros am becynnau gofal wedi gostwng ar gyfartaledd ledled y rhanbarth. Mae hynny'n deillio o gynyddu nifer y darparwyr drwy'r cytundeb. Mae rhai o'r darparwyr hefyd wedi ymestyn eu gwasanaethau i ardaloedd a fu'n anos eu cyrraedd yn y gorffennol. Dengys y canlyniadau hyn sut y gall dull comisiynu cydlynol a rhanbarthol hwyluso mynediad at wasanaethau a chyflawni gwell canlyniadau i bobl, yn unol â'r Cod sy'n rhoi pwyslais ar werth, ansawdd a lles.

Mae'r gwaith yn enghraifft ymarferol o gomisiynu ar y cyd ac mae'n ategu gweithrediad y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth. Mae'n gyson â symudiad parhaus at fodel gofal mwy cynaliadwy, sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac yn bodloni anghenion pobl sy'n derbyn gofal a chymorth ledled gogledd Cymru, gan gydnabod y bydd angen mwy o waith i wreiddio'r holl agweddau ar y Cod mewn trefniadu comisiynu yn y dyfodol.

Rhaglen gyfalaf: Byw â chymorth i bobl ag anableddau dysgu



Mae buddsoddi cyfalaf yn hybu datblygiad llety a gwasanaethau yn y gymuned sy'n galluogi pobl ag anghenion cymhleth i fyw yn eu cymunedau eu hunain, mewn mannau a ddyluniwyd i hybu annibyniaeth, adferiad a lles hirdymor.

Mae Sylva Gardens yn sir Conwy'n ddatblygiad preswyl â thri o fflatiau dwy ystafell wely i bobl ifanc ag anableddau dysgu dan ofal yr Awdurdod Lleol. Ariannwyd y cynllun yn rhannol drwy grant o Gronfa

Tai â Gofal Llywodraeth Cymru a sicrhawyd gan Gymdeithas Tai First Choice.

Mae rhywun yn byw ymhob un o'r fflatiau bellach ers i'r preswilydd cyntaf symud i mewn ym mis Mai 2025. Mae hyn wedi galluogi pobl ifanc a leolwyd y tu allan i'r ardal o'r blaen i ddychwelyd i'w cymunedau lleol, cynnal cysylltiadau â'u teuluoedd a'u rhwydweithiau cymorth a derbyn gofal yn rhywle mwy addas.

Mae'r datblygiadau hyn yn lleihau dibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r ardal ac yn cefnogi pobl i fyw'n fwy annibynnol yn eu cymunedau.

Cytundeb Comisiynu Byw â Chymorth

Daw'n bryd adnewyddu Cytundeb Comisiynu Byw â Chymorth Gogledd Cymru, sy'n cyfuno tai annibynnol â gofal a chymorth wedi'i deilwra, ym mis Ebrill 2027. Mae'r paratodau ar droed i adolygu'r contract a'r cynllun a'u diwygio ar gyfer y drefn gaffael newydd.

Mae'r gwaith yn gyson â'r egwyddorion a bennir yn y *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth: Cod Ymarfer (2024)*, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac yn hyrwyddo annibyniaeth a lles, gan sefydlu modelau gofal a chymorth cynaliadwy.

Cyngor Sir Ddinbych fydd yn arwain y drefn gaffael gan weithio â'r holl awdurdodau lleol eraill a'r bwrdd iechyd. Ffurfiwyd gweithgor pwrpasol i gynorthwyo â'r gwaith, sy'n dod â phartneriaid ynghyd i drafod comisiynu mewn ffordd gydlynol a rhanbarthol. Mae'r dull cydweithredol hwn yn gyson â'r Cod sy'n rhoi pwyslais ar weithio mewn partneriaeth, rhannu cyfrifoldeb a defnyddio adnoddau cyfunol yn effeithiol i gyflawni gwell canlyniadau.

Bwriedir cyhoeddi galwad i'r farchnad yn ddiweddarach yn 2026 gyda'r nod o sefydlu contract rhanbarthol newydd ym mis Ebrill 2027. Mae caffael o'r newydd yn rhoi cyfle i wreiddio egwyddorion y Cod ymhellach, gan gynnwys canolbwyntio ar ansawdd, gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd, a sicrhau fod y gwasanaethau byw â chymorth yn dal i fodloni'r anghenion ledled gogledd Cymru.

Heriau

Mae'r diagram isod yn dangos yr heriau allweddol y mae prosiectau'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol wedi'u hamlygu.

Galw a chymhlethdod

Y galw'n cynyddu a'r anghenion yn fwy cymhleth.

Y gweithlu a'r gallu i gyflawni

Prinder staff a gwasgfeydd ar y gallu i gyflawni.

Mynediad ac amrywiaeth

Anghydraddoldeb mewn mynediad at y gwasanaeth a chyfranogiad.

Nid yw cyfleoedd i wreiddio ymarfer effeithiol yn gyson a'i ehangu ledled y rhanbarth ond megis dechrau datblygu.

Integreiddio a systemau

Heriau â chydlyn, rhannu gwybodaeth a data gyda chyfleoedd i gysoni'r dulliau gweithredu ymhellach ac ymestyn arferion effeithiol ledled gogledd Cymru.

Gwasgfeydd ariannol a risgiau hirdymor o ran cynaladwyedd.

Rhoi ymarfer effeithiol ar waith yn gyson ledled y rhanbarth.

Rhannu gwybodaeth a chydlynu'n well.

Defnyddio data a gwybodaeth a rennir yn well.

Camau nesaf

Ar sail y llwyddiannau a'r heriau hyn, yn y flwyddyn nesaf byddwn yn:

- Integreiddio'n well yn ddigidol drwy safoni cyfryngau TG a datblygu isadeiledd ar gyfer data a rhannu data.
- Mynd i'r afael â'r heriau i'r gweithlu a'r gallu i gyflawni drwy ehangu'r cynlluniau

hyfforddiant a datblygu sgiliau, ymchwilio i ddulliau gweithredu newydd a chynorthwyo i gadw staff.

- Integreiddio'n ddyfnach a gweithio fel system gyfdan drwy ddatblygu llwybrau a phrotocolau atgyfeirio pendant ymysg y gwasanaethau a dal i gryfhau'r gwaith amlddisgyblaethol.

Adran 3: Adref o'r ysbyty

Oherwydd gwell gofal iechyd a mynd i'r afael â phethau eraill sy'n peri afiechyd, mae pobl yn byw'n hŷn ac mae mwy ohonynt yn datblygu cyflyrau iechyd hirdymor (cronig) y mae angen triniaeth ar eu cyfer gydol eu hoes. Mae hynny'n cynyddu'r galw am ofal mewn ysbytai, ond yn aml iawn byddai'n well darparu gofal a thriniaeth yng nghartrefi pobl neu yn eu cymunedau lleol.

Diben 'adref o'r ysbyty' yw cael pobl adref o'r ysbyty mor ddiogel a chyn gynted â phosib fel bod modd iddynt ddod yn ôl at eu hunain gartref. Wedi iddynt adael yr ysbyty, rydym yn cadw golwg ar y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i'w helpu i adfer yn gynt ac osgoi gorfod treulio mwy o amser yn yr ysbyty. Mae hyn hefyd yn helpu ysbytai a gwasanaethau gofal i reoli eu darpariaeth yn well a sicrhau fod y bobl sydd angen gofal meddygol brys yn medru derbyn hynny'n gyflym.

Mae'r dull gweithredu hwnnw'n gyson â'r llwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu a blaenoriaethau'r system yn gyffredinol, ac mae'n helpu i hwyluso llif cleifion drwy ysbytai a sicrhau mynediad at ofal aciwt i'r bobl hynny y mae arnynt fwyaf o angen amdano.

Cyllid

Yn ogystal â'r £4 miliwn a dderbyniwyd o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol, rydym hefyd wedi defnyddio cyllid o'r Pwyllgor Gweithredu Gofal a grantiau cyfalaf i ategu'r model gofal hwn.

Beth gyflawnon ni



Defnyddiodd **3,491** o bobl y gwasanaeth; 166 ohonynt am y tro cyntaf.



Ataliwyd anghenion **2,376** o bobl a dderbyniodd gefnogaeth rhag dwysáu.



Roedd **100%** o bobl yn fodlon ar y wybodaeth, cyngor a chymorth a gawsant.

Cartref yn Gyntaf a chydlynu'r drefn ryddhau - cynorthwyo pobl i ddod

adref o'r ysbyty'n brydlon

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, rydym wedi atgyfnerthu'r dulliau gweithredu Cartref yn Gyntaf i gynorthwyo pobl i ddod allan o'r ysbyty'n brydlon ac adfer gartref. Mae gwaith amlasiantaethol yn rhan annatod o'r timau Cartref yn Gyntaf a'r timau adnoddau cymunedol ac mae hynny'n arwain at well penderfyniadau a chynlluniau gofal mwy cydlynus.

- Cynyddwyd y gallu i gyflawni drwy ehangu llwybrau a sicrhau fod mwy o'r gweithlu ar gael, ac fe helpodd hynny i ymateb yn gynt i'r galw.
- Cefnogwyd mwy na 1,300 o bobl drwy Tuag Adref, fel bod modd iddynt adfer ac ailalluogi gartref.

Osgoi derbyniadau i'r ysbyty

Rydym wedi atgyfnerthu'r gwasanaethau 'wrth y drws ffyrnt' i gynorthwyo ag ymyrryd yn gynnar ac osgoi derbyn pobl i'r ysbyty heb fod angen.

- Aethpwyd ati i wella'r gwasanaethau therapi mewn unedau brys ac unedau asesu, fel bod modd asesu ac ymyrryd yn brydlon.
- Cyfrannwyd at fyrhau cyfnodau pobl yn yr ysbyty ac atal datgyflyru drwy ddarparu cefnogaeth yn gynt.
- Darparwyd offer a chefnogaeth wedi i bobl ddod o'r ysbyty, i'w galluogi i aros adref yn ddiogel.

Gofal cam-i-fyny a cham-i-lawr a gofal canolraddol

Rydym wedi dal i ddatblygu gofal cam-i-fyny a cham-i-lawr a gofal canolraddol i gefnogi pobl i adfer y tu hwnt i'r ysbyty.

- Darparwyd gwelyau cam-i-fyny a cham-i-lawr i gynorthwyo â rhyddhau pobl o'r ysbyty'n gynt ac osgoi derbyn pobl i'r ysbyty.
- Galluogwyd asesiadau a chynlluniau gofal amlasiantaethol drwy dimau integredig.
- Addaswyd y ddarpariaeth i ganolbwyntio ar brynu gwelyau yn ôl y galw i roi gwell gwerth am arian ac ymatebyn fwy effeithiol.

Rhyddhau o'r ysbyty a llif y cleifion

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, bu'r partneriaid ledled gogledd Cymru'n dal i gydweithio drwy ddarparu trosolwg ac adroddiadau i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn hwyluso llif pobl allan o'r ysbyty a'u hynt yn sgil hynny i'r man iawn i dderbyn gofal.

Ceir ymrwymiad pendant ar y cyd i sicrhau y caiff pobl sy'n glinigol barod i adael yr ysbyty gefnogaeth i ddychwelyd adref cyn gynted â phosib, yn unol â'r dull gweithredu Cartref yn Gyntaf.

Gwnaed cryn gynnydd wrth atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio ymysg gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a sefydliadau sy'n bartneriaid. Cydweithiwyd i adolygu'r trefniadau presennol, ymateb i'r disgwyliadau cenedlaethol ar sail gweithgarwch archwilio a chytuno ar weledigaeth ar gyfer gwella'r drefn o ryddhau pobl o'r ysbyty. Ategwyd hynny gan amrywiaeth o waith gwella, gan gynnwys archwiliadau, gweithdai ac ymgysylltu gydol y system i ennill gwell dealltwriaeth o'r arferion ar hyn o bryd a phennu'r blaenoriaethau ar gyfer newid.

Un o'r cerrig milltir allweddol oedd datblygu a chymeradwyo amcan ar y cyd ar gyfer trosglwyddo gofal ledled gogledd Cymru.

Amcan ar y cyd

Datblygwyd yr amcan ar y cyd er mwyn galluogi pobl i fyw eu bywydau gorau y gallent yn ddiogel yn eu cymunedau, rhoi mynediad iddynt at wasanaethau iechyd priodol dim ond pan mae angen hynny a'u cefnogi i ddychwelyd adref cyn gynted â phosib.

Camau gweithredu y cytunwyd arnynt

- Trosglwyddir pobl i lwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu 1–3 cyn pen 48 wedi barnu ei bod yn glinigol ddiogel eu trosglwyddo.
- Trosglwyddir pobl ar lwybr 0 o'r ysbyty erbyn hanner dydd.
- Rydym yn ymrwmo i gefnogi pobl yn briodol, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn er mwyn cyflawni'r canlyniadau a phrofiadau gorau posib i wella ansawdd eu bywydau.
- Ni wneir unrhyw benderfyniadau am ofal hirdymor mewn lleoliadau aciwt.
- Caiff pobl gyfle i gael mynediad at lwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu am hyd at chwe wythnos.
- Darperir cefnogaeth brydlon wrth drosglwyddo pobl o'r ysbyt i'w cartrefi.
- Sicrhau fod gan bobl fynediad at ofal sy'n addas ei swm a'i sylwedd, os oes angen.
- Mabwysiadir dull cartref yn gyntaf i gynnal annibyniaeth pobl lle bynnag y bo modd.
- Dal i ddatblygu ymarfer Aseswyr Dibynadwy.

Wrth gytuno ynghylch yr amcan ar y cyd a'r camau gweithredu, byddwn gyda'n gilydd yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael ac yn cyflawni canlyniadau rhagorol i bobl drwy weithio mewn ffordd integredig.

Mae hynny'n cyfleu uchelgais bendant, sy'n seiliedig ar gryfderau, i gefnogi pobl i fyw'n ddiogel yn eu cymunedau derbyn gofal yn yr ysbyty dim ond pan mae angen hynny a dychwelyd adref cyn gynted â phosib. Datblygwyd yr amcan hwn ar y cyd ag uwch-reolwyr o'r holl sefydliadau a rhoddwyd cymeradwyaeth ffurfiol iddo fel sail ar gyfer dull gweithredu mwy cyson i'r system gyfan.

Yn ogystal â hynny, mae'r partneriaid wedi ymrwymo i lunio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i ategu'r dull gweithredu Cartref yn Gyntaf, gan gynnwys llwybrau rhyddhau i adfer ac asesu a threfniadau Aseswyr Dibynadwy. Mae hynny'n gyson â'r disgwyliadau cenedlaethol ac yn creu fframwaith mwy pendant i sefydliadau gydweithio er mwyn hwyluso llif cleifion, lleihau oedi a sicrhau ymarfer mwy cyson ledled y rhanbarth.

Cafwyd buddsoddiadau drwy raglenni cenedlaethol i gynorthwyo â datblygu gwasanaethau yn y gymuned i hwyluso hynt pobl adref o'r ysbyty a lleihau'r ddibyniaeth ar ofal mewn ysbytai. Mae hynny wedi cynnwys atgyfnerthu gwasanaethau ailalluogi, gofal cartref a chefnogaeth gymunedol yn gyffredinol, gan helpu mwy o bobl i ddychwelyd adref yn ddiogel a chael y gofal iawn yn y man mwyaf priodol,

Mae hwyluso llif pobl o'r ysbyty'n dal yn flaenoriaeth bwysig i'r rhanbarth. Dysgwyd yn ystod Sbrint y Gaeaf mor werthfawr yw dal ati i gydweithio, rhannu dealltwriaeth o sefyllfaoedd a defnyddio data'n fwy cyson i ategu penderfyniadau gydol y system, a defnyddio data i hybu cyd-ddealltwriaeth yn hytrach nac uwchgyfeirio.

Defnyddiwyd y dangosfwrdd Claf iawn, Lle iawn yn fwy helaeth yn ystod 2025/26 ac mae hynny wedi gwneud llwybrau'n fwy amlwg, lleihau dyblygu gwaith a hybu gwaith mwy effeithlon; mae rhai o'r timau'n sôn eu bod wedi arbed hyd at ddwy awr a hanner bob wythnos, sy'n eu galluogi i ganolbwyntio mwy ar symud gofal yn ei flaen a rhyddhau pobl o'r ysbyty. Er bod cynnydd yn y galw, cymhlethdod anghenion pobl a gwasgafeydd ar y gallu i gyflawni mewn gwasanaethau cymunedol a gofal yn dal i ddylanwadu ar brydlondeb rhyddhau pobl o'r ysbyty, mae'r datblygiadau hyn yn tanlinellu mor bwysig yw arfer dulliau cydlynus fel system gyfan er mwyn sicrhau fod pobl yn derbyn y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn.

Wrth droi ein golygon at 2026 i 2027, ceir cyfle amlwg i ddatblygu ar sail y cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Bwriedir datblygu cynllun gwella ar gyfer y system gyfan a'i weithredu'n unol â'r amcan ar y cyd, gan ddal i ganolbwyntio ar gydlynw'n well, gwreiddio dulliau cyson a gwneud y defnydd gorau o'r gallu i gyflawni mewn cymunedau drwy sefydlu system gymhleth ac addasol.

Gweithredir y cynllun ar sail y trefniadau llywodraethu rhanbarthol a sefydlwyd a bydd y Grŵp Arweinyddiaeth â throsolwg ar y gwaith ac yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Ar y cyfan, mae'r gwaith yn gosod seiliau cadarn ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus yn y drefn o ryddhau pobl o'r ysbyty, cefnogi pobl i dderbyn gofal yn y lle iawn, ar yr adeg

iawn a gwella'r canlyniadau a phrofiadau ledled gogledd Cymru.

Y Rhaglen Gyfalaf

Datblygiad Gofal Ychwanegol De Ynys Môn



Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cael £10.1 miliwn o'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso, £3 miliwn o Gronfa Tai â Gofal Llywodraeth Cymru, £3 miliwn o'r Gronfa Datblygu Tir, £5.5 miliwn drwy'r Grant Tai Cymdeithasol a £10.4 miliwn o gyfalaf a fuddsoddwyd gan

awdurdodau lleol i ddatblygu cynllun gofal ychwanegol newydd ynghyd â darpariaeth gofal preswyl.

Bydd y datblygiad yn cynnwys:

- canolfan gofal ychwanegol â 45 o welyau
- cartref gofal preswyl â 28 o welyau'n darparu gofal dementia arbenigol
- man neilltuol i dîm adnoddau cymunedol ddarparu gwasanaethau integredig yn lleol.

Disgwylir gorffen y cynllun rhwng 2028 a 2029. Bydd y cynllun integredig yn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn hwy, gan sicrhau y gallant gael gofal a chymorth ar yr adegau iawn.

Ysbyty Brenhinol Alexandra

Rhoes Llywodraeth Cymru sêl bendith ar yr achos busnes gwerth £33.6 miliwn ar gyfer y cam cyntaf yn natblygiad Ysbyty Brenhinol Alexandra yn Sir Ddinbych.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cael £10.4 miliwn o'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso a £23.2 miliwn o Gronfa Gyfalaf Cymru Gyfan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i gyflawni'r cam cyntaf.

Bydd y ganolfan newydd yn cynnwys uned mân anafiadau i drin mwy na 20,000 o bobl y flwyddyn ac uned ailalluogi â 14 o welyau i gefnogi pobl i ddychwelyd adref a dod â thimau iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd.

Drwy ehangu'r gwasanaeth radioleg a sefydlu cyfleusterau deintyddol newydd, bydd gan bobl well mynediad at ofal a bydd hynny'n cyfrannu at lwybrau mwy effeithiol ar gyfer rhyddhau pobl o'r ysbyty, pobl yn treulio llai o amser yn yr ysbyty a chanlyniadau gwell yn nes at adref.

Heriau

Galw a chymhlethdod

Gwasgfeydd ar y system ac arafu llif y cleifion.

Y gweithlu a'r gallu i gyflawni

Anawsterau recriwtio a chyfyngiadau ar y gallu i gyflawni.

Defnyddio

Trafferth yn canfod defnyddwyr priodol ar wasanaethau/y galw'n esblygu mewn achosion cymhleth

Mesuriadau a data

Adroddiadau anghyson a thystiolaeth brin o'r effaith.

Camau nesaf


Ar sail y llwyddiannau a'r heriau hyn, yn y flwyddyn nesaf byddwn yn:

- Dal i ehangu Cartref yn Gyntaf a modelau cymunedol ar gyfer rhyddhau pobl o'r ysbyty.
- Atgyfnerthu ansawdd y data ac adroddiadau, yn enwedig yng nghyswllt atal anghenion rhag dwysáu.
- Datblygu cynllun gwella rhanbarthol 12 mis i hybu Trosglwyddo Unigolion yn Ddiogel ac yn Brydlon i'w Cymunedau o Ysbytai Ledled Gogledd Cymru.

Adran 4: Cynorthwyo teuluoedd a phlant i aros gyda'i gilydd yn ddiogel

Mae cefnogi teuluoedd a phlant yn canolbwyntio ar sicrhau y gall plant, pobl ifanc a theuluoedd ledled gogledd Cymru gael y gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn. Mae'r model yn cynnwys ymyrraeth gynnar a chefnogaeth arbenigol a dwys, a rhoddir pwyslais pendant ar gadw teuluoedd gyda'i gilydd, hybu lles ac atal anghenion rhag dwysáu lle bo modd.

Mae'r model gofal yn seiliedig ar ein strategaeth 'y Drws Cywir' a'r fframwaith NYTH fel y'i cyflwynir isod. Mae hynny'n cynnwys rhoi rhwydd hynt i oedolion y mae'r plentyn yn ymddiried ynddynt, y rhai hynny sydd agosaf at y plentyn, at arbenigedd a fydd yn eu cefnogi i 'ddal gafael' ar blant lle bynnag y bo modd yn lle 'atgyfeirio ymlaen'. Ac os oes angen cefnogaeth fwy arbenigol, dymunwn sicrhau nad oes unrhyw 'ddrws anghywir'. Caiff plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu cynnwys yn ein ffyrdd newydd o weithio a fydd yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, a chefnogir eu lles ym myd addysg a thrwy gymunedau diogel a chefnogol.



Cyllid

Yn ogystal â'r £10.5 miliwn a gafwyd o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol, rydym hefyd wedi defnyddio grantiau cyfalaf i ategu'r model gofal hwn.

Beth gyflawnon ni

Beth gyflawnon ni



Defnyddiodd **15,802** o bobl y gwasanaeth; 4,140 ohonynt am y tro cyntaf.



Ataliwyd anghenion **1,700** o bobl a dderbyniodd gefnogaeth rhag dwysáu.



Dywedodd **100%** o bobl eu bod o'r farn bod eu hannibyniaeth wedi gwella neu aros yr un fath.

Ymyrraeth gynnar ac atal

Cryfhau teuluoedd

Rydym wedi:

- Cyflwyno dulliau o gofnodi lleisiau plant, gan gynnwys dyfeisgarwch digidol (er enghraifft, ap MoMo).
- Ehangu'r gefnogaeth i ofalwyr ifanc, gan gynnwys dulliau sy'n ystyriol o drawma a rhaglenni lles wedi'u targedu.
- Darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan gynnwys brysbennu cyflym ar gyfer achosion uchel eu risg.
- Ymestyn Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd er mwyn gwella'r gefnogaeth gynnar a gydlynir i deuluoedd.
- Cynnal sesiynau galw heibio i ddarparu cefnogaeth gymunedol mewn ysgolion a mannau lleol.

Datblygu gwytnwch teuluoedd

Atal anghenion rhag dwysáu

Rydym wedi:


- Cefnogi teuluoedd drwy raglenni ymddygiad, ymarfer sy'n ystyriol o drawma a phroffilio niwroamrywiaeth.
- Ehangu cynadleddau grŵp teulu i roi teuluoedd mewn cysylltiad â chymorth cynnar a rhwydweithiau atgyfnerthol.

Cefnogaeth ddwys ac arbenigol

Cefnogi plant ag anghenion cymhleth

Rydym wedi:

- Darparu cefnogaeth ddwys a therapiwtig a chymorth preswyl er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i aduno â'u teuluoedd.
- Cefnogi plant drwy wasanaethau preswyl gan dîm aml-ddisgyblaethol o arbenigwyr.
- Ymestyn llety â chymorth a chartrefi grŵp bychan i gynyddu'r dewis o leoliadau lleol.
- Gwella llwybrau i bontio at annibyniaeth, gan ganolbwyntio ar barodrwydd emosiynol a sgiliau bywyd.



Mae'r map hwn yn dangos sut mae tîm integredig sy'n gweithio â theuluoedd ag anghenion cymhleth yn ymdrin ag anghenion y teulu fel un system gyfan, gan ddefnyddio amryw ymyriadau dros gyfnod o ddwy flynedd.

Uwchlaw'r llinell, fe welwn y gweithgareddau a chanlyniadau a fwriedir ac isod mae'r gwaith anfwriadol y bu'r tîm mewn sefyllfa dda i gynorthwyo ag ef ar hyd y ffordd. Mae hynny wedi creu cyd-ddealltwriaeth o hyd yr amser sydd ei angen wrth weithio â theuluoedd, beth sy'n gweithio'n dda yn ymarferol a'r canlyniadau ac effeithiau ymledol ar y system ehangach.

'Hoffwn fedru dweud wrth ein harianwyr, dyma pam fod ein gwasanaeth yn cymryd amser i gyflawni canlyniadau, a'n bod ni bob amser yn chwilfrydig am ffyrdd y gallwn newid ein dulliau gweithio i gyflawni gwell canlyniadau i blant a theuluoedd' Rheolwr tîm.

Mae'r tîm yn cynnwys seicolegydd clinigol, therapydd teulu systemig, therapydd galwedigaethol, gweithwyr cefnogi teuluoedd arbenigol a llyw-wyr lles. Ar ôl cynnal gweithdy mapio, hwylusodd yr Hwb Cydlynw Arloesi Rhanbarthol sesiwn gyda'r tîm i fyfyrio ynghylch yr hyn a ddysgwyd a gwneud synnwyr ohono.

Beth mae'r wybodaeth yn ei ddweud wrthym am y rhesymau pam fod gwella canlyniadau'n cymryd amser?

- Mae'n cymryd cryn amser i ffurfio perthnasoedd a chynghreiriau gan fod y teuluoedd yn fwy tebygol o fod wedi wynebu trawma, problemau ymlynid a phrofiadau negyddol o faes iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi creu diffyg ymddiriedaeth 'Mae'n rhaid inni ddangos ein hwynebaw a gwneud yr hyn y dywedwn y byddwn yn ei wneud, dro ar ôl tro, i ddatblygu ymddiriedaeth' - Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd
- Yn aml, mae ymddiriedaeth yn datblygu yn ystod digwyddiadau arwyddocaol mewn bywyd fel profedigaeth neu ysgariad, lle mae modd i'r tîm gefnogi teuluoedd mewn cyfnodau o newid.

- Mae'r tîm yn cydweithio ag ysgolion, iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a theuluoedd i ymdrin ag ymddygiad sy'n peri pryder ac yn hytrach nag atgyfeirio pobl at wasanaethau eraill, maent yn meithrin cyswllt a chydweithio â hwy.
- Yn sgil cynnydd/gwell ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth mewn teuluoedd, datblygwyd perthnasoedd gwaith agos â chydweithwyr ym maes iechyd, sydd wedi creu offeryn proffilio sy'n cael ei ehangu ledled gogledd Cymru.
- Mae'r tîm yn gweithio â theuluoedd unwaith yr wythnos, yn wahanol i fodolau gofal dwys, systemig a chymhleth, gan gynnwys lleoliadau preswyl a chefnogaeth gymunedol 24/7 i aelodau o'r teulu (MST-FIT).
- Yn sgil ymyriadau arbenigol a rhoi mynediad at ymgynghoriadau gofal iechyd clinigol ynglŷn â niwroddatblygiad, datblygwyd dealltwriaeth o ymddygiad a fu'n sbardun ar gyfer newid ymddygiad oedd yn peri pryder a gwella iechyd meddwl teuluoedd.
- Unwaith y mae rhieni a phlant yn deall eu hymddygiad eu hunain yn well, gall cefnogaeth systemig wedyn eu helpu i fagu dealltwriaeth o'r ffordd y mae eu hymddygiad yn effeithio ar ddynnameg y teulu.

Dysgu system gyfan

Mae ymddygiad yn ffordd o gyfleu angen na chaiff ei fodloni.

Ceir mwy a mwy o dystiolaeth o blaid newid ymddygiad (gan arwain at well canlyniadau a mwy o effaith ar y system ehangach) drwy ddefnyddio dulliau systemig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (yng nghyd-destun y Gronfa Integreiddio Ranbarthol, mae hynny'n cynnwys Therapi Aml-systemig, Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol a dulliau systemig o weithio â theuluoedd). Mae'r modelau hyn yn defnyddio offerynnau a thechnegau clinigol (er enghraifft, Therapi Ymddygiad Dialectig, Therapi Ymddygiad Gwybyddol). Drwy gyfuno'r dulliau hyn a chydweithio â'r holl bartneriaid yn ecosystem y teulu (ysgol, gofal cymdeithasol, cefnogwyr lles ac iechyd) yn galluogi ymarferwyr i gyflawni'r canlyniadau gorau posib. Mae'r gwaith cychwynnol i Fapio Effeithiau Ymledol yn dangos fod dulliau systemig yn cyflawni canlyniadau mwy parhaus o gymharu ag ymyriadau â chyfyngiad amser sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Dulliau systemig sy'n mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi'r ymddygiad.

Mae dulliau systemig yn arwain at lai o ymddygiad sy'n peri pryder a llai o leoliadau preswyl a lleoliadau'r tu allan i'r sir, gan aduno plant gartref (Therapi Aml-systemig) a chefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd (Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol, Therapi Aml-systemig Cymunedol). Nid yn unig bod y gwasanaethau hyn yn lleihau dwysedd yr anghenion cymorth yn y gymuned, ond mae teuluoedd hefyd yn eu gadael heb fod angen cyfraniad iechyd neu ofal cymdeithasol yn y gymuned (Therapi Aml-systemig).

Mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn cydweithio wrth ymdrin â'r achosion.

Mae prosiectau a ariennir drwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol yn hybu lles drwy

amryw fodelau gofal ac yn allweddol wrth hyrwyddo dulliau systemig o ymdrin ag ymddygiad ac iechyd meddwl. Er enghraifft, darparu cyngor a chyfeirio pobl at wasanaethau i sicrhau y bodlonir anghenion amgylcheddol a seicolegol pobl a chreu sylfaen gadarn cyn cychwyn yr ymyrraeth therapiwtig.

Mae'r Gronfa Integredig Ranbarthol yn ariannu llawer iawn o waith i gefnogi ysgolion unigol drwy brosiectau awdurdodau lleol ar gyfer plant a theuluoedd. Mae'r offeryn proffilio niwroddatblygiad wedi creu cyfle i weithio â phartneriaid addysg mewn awdurdodau lleol yn y rhanbarth er mwyn cryfhau'r perthnasoedd a dal i gefnogi'r gwasanaethau addysg, sy'n bartneriaid allweddol wrth ddylanwadu ar ymddygiad.

Mae gwella iechyd meddwl plant yn dibynnu ar gefnogi iechyd meddwl a lles y teulu cyfan.

Drwy weithio â'r teulu cyfan, "rydym yn gweld hanesion pobl yn troi o fod yn llawn o broblemau i fod yn straeon am wytnwch" – Therapydd Teulu Systemig

Mae Mapio Effeithiau Ymledol yn dylanwadu ar newid meddylfryd o 'brofi' i 'wella'.


Mae'r Hwb Cydlynu Arloesi a thîm y Gronfa Integreiddio Ranbarthol yn dal i ddatblygu perthnasoedd cefnogol ac ymddiriedus â phartneriaid i hybu newid cadarnhaol a deall beth sy'n gweithio. Drwy'r dull hwn, manteisir i'r eithaf ar y cyllid ac ychwanegir gwerth drwy gynnig cyfleoedd am welliant parhaus. Mae Mapio Effeithiau Ymledol yn treiddio i'r system ehangach drwy arweinwyr gwasanaethau a bydd hynny'n rhoi dealltwriaeth fwy trylwyr inni o'r ffordd y mae gwasanaethau'n effeithio ar ei gilydd, beth sy'n gweithio a'r blaenoriaethau i'w hariannu.

"Hoffwn eirioli'n fwy effeithio ar ran y gwasanaethau rwy'n eu rheoli; bydd Mapio Effeithiau Ymledol yn fy helpu i fagu dealltwriaeth o'r agweddau allweddol ar y ddarpariaeth sy'n arwain at well canlyniadau" – Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Beth sydd ar goll/beth fyddem ni'n ei wneud yn wahanol?

- Mae angen cyllid hirdymor ar gyfer y model dwys, holistig hwn oherwydd hyd yr amser y mae'r gwasanaeth yn gweithio â theuluoedd.
- Bu'r tîm yn myfyrio ynghylch y gweithgarwch helaeth yn y naw mis cyntaf, mae cynghori a chyfeirio'n ffordd werthfawr o sicrhau fod teuluoedd yn cael eu cefnogi ac yn teimlo'i bod yn ddiogel i weithio â ni, ond cydnabu'r tîm ar brydiau ei bod yn rhy gynnar am ryw ymyrraeth benodol: "efallai bod arnom angen arafu er mwyn symud ymlaen, mae'n rhy hawdd ildio i'r demtasiwn o fod eisiau neidio i mewn yn syth a 'thrwio' pethau" – rheolwr tîm

Map Effeithiau Ymledol Dim Drws Anghywir



Mae'r Map Effeithiau Ymledol uchod yn dangos sut mae'r canlyniadau wedi gwella i'r bobl ifanc a fu'n rhan o grŵp a gomisiynwyd i greu cyfres o fideos 'Dim Drws Anghywir' i Lywodraeth Cymru. Mae'n dangos yr effeithiau ymledol dros amser ar systemau ehangach, gan gynnwys ysgolion, gwasanaethau iechyd, Sefydliad Ffilm Prydain a'r diwydiant ffilmiau.

TAPE, cwmni cynhyrchu lleol, a fu'n hyfforddi'r bobl ifanc ac mae'r cwmni'n disgrifio'i hun fel eiriolwr creadigol – meddai Steve o TAPE, 'mae hynny'n golygu rhoi'r cyfle i bobl, dangos iddynt beth i'w wneud a chamu'n ôl gan dybio fod ganddyn nhw'r gallu.' Bu pobl ifanc o Ysgol y Gogarth, ysgol i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ynglŷn â phob agwedd ar reoli prosiect ffilmio, gan gynnwys ymdrin â chleientiaid, cynnal cyfarfodydd, ysgrifennu e-byst a chynhyrchu'r ffilm.

O ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect, cafodd un person ifanc gynnig hyfforddiant gan Sefydliad Ffilm Prydain, ond nid oedd y cwrs yn un hygyrch. Yn sgil hynny, bu'n gweithio

â Sefydliad Ffilm Prydain i wneud yr hyfforddiant yn hygyrch. Creodd hynny gwrs sy'n gynhwysol i bawb; fe wnaeth yr un peth eto gydag un o gyrsiau eraill y Sefydliad, a pherson ifanc arall yn cyfrannu at wella hygyrchedd cwrs animeiddio. Mae pob her y maent yn ei wynebu'n creu ymwybyddiaeth ac yn addysgu pobl yn y diwydiant ffilmiau.

Mae Hope Productions yn dal i greu effeithiau ymledol yn y diwydiant ffilm a theledu drwy weithio â Sefydliad Ffilm Prydain, y BBC, Final Draft ac eraill, gan herio canfyddiadau ynglŷn â gallu pobl ag anableddau dysgu i wneud ffilmiau a rhaglenni teledu, a gwneud cyrsiau am bob elfen o'r broses gynhyrchu'n fwy cynhwysol a hygyrch.

Bu pennaeth yr ysgol dan sylw'n trafod sut mae'r prosiect wedi cefnogi'r ysgol i gyflawni blaenoriaethau'r cwricwlwm, gan arwain at fwy o bobl ifanc yn mynd i golegau a phrifysgolion prif ffrwd.

Mae pobl ifanc yn dod o hyd i ffyrdd newydd o fynegi eu hunain, dysgu sgiliau newydd, codi eu huchelgeisiau, dod yn fwy annibynnol a gwella eu lles meddyliol.

Rhaglen gyfalaf: Cartref grŵp bychan i blant



Drwy fuddsoddi cyfalaf ledled Conwy, Ynys Môn, Gwynedd, Sir y Fflint a Wrecsam, bu modd datblygu cartrefi bychan yn y gymuned ar gyfer plant, gan ddarparu mannau graenus a chefnogol i blant a phobl ifanc na fedrant aros â'u teuluoedd.

Dyluniwyd y cartrefi hyn ar gyfer grwpiau bychan i greu amgylchedd sefydlog a chartrefol gyda charfan gyson o staff cefnogi. Mae'r datblygiadau'n cynnwys adeiladau newydd ac adnewyddu eiddo presennol mewn trefi ac yng nghefn gwlad.

Drwy'r model hwn gall plant aros yn nes at eu cymunedau, cynnal perthnasoedd pwysig a chael mwy o sefydlogrwydd yn eu trefniadau gofal.

Mae'r datblygiadau'n arwain at well canlyniadau i blant drwy ddarparu gofal yn nes at adref a chyfrannu at symud ymlaen at ddarpariaeth ddielw ledled y rhanbarth.

Heriau

Erys heriau ym meysydd:

Galw a chymhlethdod

Cyfraddau atgyfeirio uwch mewn gwasanaethau ac achosion cynyddol gymhleth, gan gynnwys niwroamrywiaeth, problemau iechyd meddwl a thrawma.

Y gweithlu a'r gallu i gyflawni

Heriau wrth recriwtio i swyddi arbenigol/therapiwtig a gwasanaethau'n gweithio hyd eithaf eu gallu, sy'n arwain at restrau aros a blaenoriaethu'r achosion â'r mwyaf o risg.

Mynediad a chyfranogiad

Mae prinder staff yn creu amseroedd aros hir am wasanaethau diagnostig/arbenigol (er enghraifft, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc) ac yn cynyddu'r amser sydd ei angen i feithrin perthnasoedd ymhob achos.

Digonolrwydd lleoliadau a llif plant a phobl ifanc drwyddynt

Nid oes digon o ofalwyr maeth/llety â chymorth ar gael, na lleoliadau lleol ar gyfer anghenion cymhleth. Mae'r llif drwy'r system yn araf ac mae hynny'n rhwystro llwybrau, cynyddu costau a rhoi pwysau ar wasanaethau preswyl ac arbenigol.

Mae newidiadau yn y ddeddfwriaeth ynglŷn â defnyddio llai o leoliadau er elw wedi gwaethgu'r prinder lleoliadau.

Camau nesaf

Ar sail y llwyddiannau a'r heriau hyn, yn y flwyddyn nesaf bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant yn dal i gyflawni'r weledigaeth strategol ar gyfer y tri o'i flaenoriaethau:

Niwroamrywiaeth: Cefnogi plant a phobl ifanc i gael cyfleoedd bywyd cyfartal

Ffocws strategol:

- Sefydliadau'n gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gyflawni'r dull drws cywir - y cymorth iawn, yr adeg iawn, y ffordd iawn
- Gwella amgylcheddau niwrogadarnhaol yn y blynyddoedd cynnar ac yn yr ysgol ac yn ystod cyfnodau pontio
- Ehangu gwybodaeth gydol y gweithlu am niwroamrywiaeth a lles
- Symud o ddull meddygol o ddarparu diagnosis / triniaeth i ddull cymdeithasol yn seiliedig ar anghenion lle mae cymdeithas yn fwy cynhwysol a hygyrch
- Ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i bobl ar restrau aros
- Pontio o wasanaethau plant a phobl ifanc i wasanaethau oedolion
- Yr holl sefydliadau'n cydymffurfio â'r cod ymarfer Awtistiaeth ac yn ymateb i'r newid i'r Cod Ymarfer Niwroamrywiaeth

Cefnogi Lles Meddyliol: Gyda'n gilydd rydym yn ymrwmo i adeiladu system gydgysylltiedig ledled gogledd Cymru sy'n blaenoriaethu cefnogaeth deg ar gyfer lles meddyliol babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cefnogaeth iechyd meddwl.

“y cymorth iawn, yr adeg iawn, y ffordd iawn” (0 – 25 oed)

Ffocws strategol:

- Sefydlu dull system gyfan, sy'n cael ei arwain gan anghenion, gydol y gwasanaethau iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a chymunedol, a ddarperir gan sefydliadau sy'n gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd mewn ffordd gydlynol, ragweithiol, deg a chynaliadwy.
- Darparu ymyrraeth gynnar sy'n seiliedig ar anghenion yn y pwynt mynediad, trwy wasanaethau wedi'u cydleo (ar-lein neu wyneb yn wyneb), gan ddarparu mynediad symlach at gymorth.
- Grymuso staff ar bob lefel i gyflawni newid, trwy ddealltwriaeth gyffredin o'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni a defnyddio iaith gyffredin.
- Galluogi trefniadau pontio esmwyth yn ôl yr angen ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc.
- Cyswllt â gweithgareddau Niwroamrywiaeth â blaenoriaeth

Dielw: Ymrwymiad i gael gwared ar elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal

Ffocws strategol:

- Datblygu strategaeth leoli ranbarthol gyda nodau cyffredin a darpariaeth ranbarthol
- Ymgysylltu â phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd wedi byw'r profiad o dderbyn gofal mewn modd amserol a phriodol
- Sefydliadau'n cydweithio'n rhanbarthol i gynnal ein gweithlu gyda strategaeth gweithlu ar y cyd
- Sicrhau bod gofal am fabanod, plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn dod yn fusnes i bawb, gyda dull sy'n cael ei lywio gan y gymuned

Adran 5: Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da

Mae hyrwyddo iechyd a lles emosiynol yn canolbwyntio ar ddarparu cefnogaeth holistig, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn gwella canlyniadau iechyd meddwl i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae'r model yn ffafrio ymyrraeth gynnar, atal, cyswllt cymunedol ac annibyniaeth, gan helpu pobl i reoli eu lles a'u hatal rhag bod angen gwasanaethau statudol.

Cyllid

Mae'r model gofal hwn yn derbyn £1.3 miliwn o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol.

Beth gyflawnon ni



Defnyddiodd **18,747** o bobl y gwasanaeth; 4,849 ohonynt am y tro cyntaf.



Fe wnaeth **90%** o bobl gynnal neu wella eu lles a'u hiechyd emosiynol.



Ataliwyd anghenion **100%** o'r bobl a dderbyniodd gefnogaeth rhag dwysáu.

Lles cymunedol ac ymyrryd yn gynnar

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, rydym wedi atgyfnerthu'r gefnogaeth yn y gymuned er mwyn hyrwyddo lles emosiynol ac ymyrryd yn gynnar. Cynhaliwyd amrywiaeth helaeth o weithgareddau i hybu annibyniaeth, hyder a chynhwysiad cymdeithasol.

- Galluogwyd pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau buddiol fel celfyddydau, chwaraeon, garddio a digwyddiadau cymunedol.
- Cefnogwyd pobl i ddylanwadu ar wasanaethau drwy gydgyngyrru a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Darparwyd mwy o gyfleoedd am gysylltiad cymdeithasol a chyfranogi o gymunedau lleol.

Canolfannau Fedra I – Mynediad Agored at Gymorth Iechyd Meddwl

Mae gwasanaeth Fedra I y Bwrdd Iechyd yn cefnogi pobl â'u hiechyd meddwl a'u lles. Mae'n cysylltu pobl â'u cymunedau ac yn seiliedig ar gydweithio gwyb ymysg gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a phartneriaid yn y trydydd sector. Mae hynny'n cynnwys meddygon teulu, timau Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol, fferyllfeydd, y Tîm Awtistiaeth Integredig, gweithwyr cymdeithasol,

yr heddlu, y gwasanaeth tân a gwasanaethau tai.

Eleni, sefydlom rwydwaith rhanbarthol o ganolfannau iechyd meddwl mynediad agored, gan estyn cymorth cynnar heb fod angen atgyfeiriad, diagnosis na chroesi trothwyon.

- Galluogwyd pobl i gael cefnogaeth drwy sesiynau un-i-un, gweithgareddau grŵp a chynlluniau lles.
- Lleihawyd unigrwydd a hybwyd lles y bobl a gafodd gefnogaeth.
- Mwy o hyder a hunan-reolaeth.
- Helpu i atal argyfyngau a lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau statudol.

Hyfforddiant, sgiliau ac ymwybyddiaeth

Rydym wedi hybu'r ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o les emosiynol a niwroamrywiaeth yn yr holl wasanaethau.

- Darparwyd hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ym maes gofal cymdeithasol, ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar.
- Hyrwyddwyd dulliau niwro-gynhwysol yn yr holl wasanaethau.
- Hybwyd dealltwriaeth y gweithlu o les emosiynol a sut i gefnogi pobl yn fwy effeithiol.

Swyddogion lles cymunedol a chefnogaeth wedi'i thargedu

Rydym wedi darparu mwy o gefnogaeth wedi'i thargedu a'i theilwra ar gyfer pobl ag anghenion mwy cymhleth, i'w helpu i gynnal eu hannibyniaeth a'u lles.

- Darparwyd cymorth pwrpasol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl ag anghenion cymhleth.
- Darparwyd cymorth seibiant i 98 o bobl gan helpu i gynnal teuluoedd a gofalwyr di-dâl.
- Sefydlwyd dulliau cadarnhaol o gefnogi ag ymddygiad er mwyn gwella'r canlyniadau a lleihau gofid.
- Cynyddwyd gallu'r gweithlu i gyflawni ac atgyfnerthwyd sgiliau drwy hyfforddiant arbenigol.

Cefnogi annibyniaeth a chyfranogiad cymunedol

Dengys yr astudiaeth achos isod sut mae'r prosiect yn helpu pobl i fagu annibyniaeth a hyder a chyfranogi'n ystyrlon o'u cymunedau lleol.

Astudiaeth achos

Mae SH yn byw â'u rhiant ac mae'n berson cymdeithasgar dros ben. Mae ganddynt lawer o ffrindiau sy'n ymuno â'n grwpiau. Mae SH yn berson hapus a chlên sy'n hoff o fod yng nghwmni ei ffrindiau.

Mae SH yn dod i'n nosweithiau cymdeithasol ac yn gwybod ein bod yn cynnig hyfforddiant i fynd ar y bws. Dymunai SH wneud yr hyfforddiant i fynd ar y bws gan y byddai hynny'n fuddiol wrth wirfoddoli yn y dyfodol, ac yn galluogi SH i ddod i grwpiau'n annibynnol. Gweithiwr cymdeithasol SH a'u hatgyfeiriodd fel bod modd iddynt fyw bywyd mwy annibynnol a chael cymorth i wirfoddoli yn y dyfodol.

Sut beth yw 'da' neu 'lwyddiant':

Bûm yn cefnogi SH yn gyson â theithio drwy fynd ar y bws â nhw o'u cartref i'r dref fawr agosaf. Fe wnes i hynny am nifer o wythnosau ac yn raddol fe fagodd SH yr hyder a'r sgiliau angenrheidiol i fynd ar y daith yn annibynnol. Unwaith roedd SH yn teimlo'u bod yn barod, dechreuont deithio ar eu pen eu hun i gwrdd â mi, a mynd adref yn annibynnol ar y bws. Roedd hynny'n dangos cymaint o gynnydd a fu yn hyder SH, eu hannibyniaeth a'u gallu i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn ddiogel.

Canlyniadau:

O ganlyniad i'r hyfforddiant teithio a'r gefnogaeth barhaus, bu cynnydd sylweddol yn hyder SH a'u hannibyniaeth wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Maent bellach yn gallu teithio'n annibynnol o'u cartref i'r dref fawr agosaf ac yn ôl, ac wedi magu sgiliau i ddatrys problemau'n well ac ymwybyddiaeth o drefniadau cludiant cyhoeddus. Mae'r ffaith fod SH yn gallu dod i gwrdd mewn man penodol a dychwelyd adref heb gefnogaeth yn dangos gwell hunandibyniaeth a bod llai o angen am ymyrraeth gan staff. Mae'r canlyniad hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at les SH yn gyffredinol, eu hannibyniaeth a'u cyfranogiad o'r gymuned. Ar ôl cael hyfforddiant i fynd ar y bws, dechreuodd SH fynd i grwpiau dawnsio wythnosol ac mae'n teithio'n annibynnol i'r rheiny.

Casgliad:

"Roedd yr hyfforddiant i fynd ar y bws yn dda, dwi'n medru gweld fy ffrindiau'n amlach. Dwi'n hapus yn mynd ar y bws ar fy mhen fy hun."

Rhaglen gyfalaf: lechyd cymunedol a chanolfannau lles



Mae datblygiadau fel y Ganolfan Anableddau Dysgu Gymunedol yn Nolgellau'n dangos sut y gall buddsoddi cyfalaf ddod â gwasanaethau ynghyd yn yr un man, gan wella mynediad, lleihau stigma a hwyluso ymyriadau cynnar.

Mae Canolfan Dolfleurig yn creu cyfleoedd newydd i bobl, gan gynnwys cynlluniau hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu, ac yn

cryfhau'r cysylltiadau â'r gymuned leol.

Mae'r canolfannau hyn yn ategu dull mwy cydlynus o ddarparu gofal, gan helpu pobl i gael y gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn yn eu cymunedau.

Mae'r cynllun yn werth £3.6 miliwn, gan gynnwys £1.8 miliwn o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso ac £1.8 miliwn mewn arian cyfatebol gan Gyngor Gwynedd, a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau yn haf 2026.

Heriau

Galw a chymhlethdod

Yn enwedig mewn gwasanaethau ymyrryd yn gynnar.

Y gweithlu a'r gallu i gyflawni

Heriau â recriwtio a chadw staff yn effeithio ar gynladwyedd y gwasanaeth.

Rhwysterau rhag mynediad

Yn enwedig mewn ardaloedd gwledig (cludiant a chynwysiad digidol).

Ansicrwydd ynghylch cyllid hirdymor

Effaith bosib ar gynladwyedd hirdymor y gwasanaethau a'r gallu i gynllunio a chyflawni gwelliannau mwy hirdymor gydol y system.

Erys nifer o heriau mewn gwasanaethau iechyd a lles emosiynol. Mae'r galw'n cynyddu a'r achosion yn fwy cymhleth, yn enwedig mewn gwasanaethau ymyrryd yn gynnar, ac mae hynny'n dal i greu gwasgfa ar y ddarpariaeth sydd ar gael. Mae heriau parhaus wrth recriwtio a chadw staff hefyd yn effeithio ar gynladwyedd y gweithlu, sy'n medru effeithio ar barthad gwasanaethau a'u gallu i gyflawni. Gall fod yn anos cael mynediad at gefnogaeth mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yng nghefn gwlad ble mae cludiant a chynhwysiad digidol yn dal i greu rhwystrau. Yn ogystal â hynny, gallai ansicrwydd ynglŷn â chyllid hirdymor effeithio ar gynladwyedd y gwasanaethau a chyfyngu ar y gallu i gynllunio a buddsoddi at y dyfodol.

Camau nesaf

Ar sail y llwyddiannau a'r heriau hyn, yn y flwyddyn nesaf byddwn yn:

- Ymestyn gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal yn y gymuned.
- Atgyfnerthu gallu'r gweithlu i gyflawni a hybu ei les a'i sgiliau.
- Gwella hygyrchedd, yn enwedig yng nghefn gwlad ac ymysg pobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol.
- Datblygu modelau cynaliadwy hirdymor, gan gynnwys y rhaglen Fedra I.

Ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed, gweler [adran 4, cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd](#).

Adran 6: Galluogwyr system integredig

Ceir tystiolaeth isod o'r gwaith hanfodol a wnaed y tu ôl i'r llenni i'w gwneud yn bosib darparu modelau gofal newydd.

Rhaglen gyfalaf: adeiladau ac isadeiledd

Ariennir y rhaglen ranbarthol gan £11.5 miliwn o gyllid cyfalaf a £763,349 o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol. Mae'r rhaglen yn gweithredu'r Cynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/cyfalaf/>. Ar gyfer pob un o'r modelau gofal uchod, darperir enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'r rhaglen gyfalaf wedi galluogi'r gwaith.

Yn ystod y flwyddyn aeth heibio, cyflawnwyd nifer o brosiectau drwy'r rhaglen gyfalaf:



Tŷ Croes Atti - canolfan â 56 o welyau yn y Flint (Sir y Fflint) sy'n cyfuno gofal preswyl hirdymor a gwasanaethau ailalluogi canolraddol i gefnogi pobl i ddod o'r ysbyty'n ddiogel a chanolbwyntio ar yr unigolyn wrth iddynt adfer yn y gymuned.



Coed y Ddraig – canolfan les gymunedol bwrpasol yn yr Wyddgrug (Sir y Fflint). Mae'r ddarpariaeth yn cynnig gweithgareddau dydd a chyfleoedd am waith i bobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anghenion cymorth iechyd meddwl. Darperir gwasanaethau integredig gan dimau

gwasanaethau cymdeithasol a'r bwrdd iechyd.



Canolfan Glanhwfa –
Canolfan Gymunedol
Integredig yn Llangefni, a
sefydlwyd i ddarparu
cefnogaeth i bobl hŷn, pobl
sy'n byw â dementia,
gofalwyr di-dâl a'r gymuned
ehangach. Roedd y prosiect
yn cynnwys adnewyddu'r
adeilad presennol, gosod
liff, ehangu'r lle y gellir ei
ddefnyddio a chreu canolfan

hygyrch newydd sbon sydd bellach yn gartref parhaol i Ganolfan Dementia Ynys Môn a
Gwasanaeth Asesu Cof Gogledd Cymru.



Canolfan Deuluoedd
Llanrwst - prynodd Cyngor
Bwrdeistref Sirol Conwy
Ganolfan Deuluoedd
Llanrwst i'w hadnewyddu, er
mwyn ymestyn y
gwasanaethau a gynigir i
deuluoedd a chreu mwy o
gyfleoedd i weithio mewn
partneriaeth. Yn sgil y
buddsoddiad, gellir darparu
mwy o wasanaethau ar yr un
pryd yn y ganolfan newydd,

sy'n arbed teuluoedd yng nghefn gwlad rhag gorfod teithio'n fynych i'r ganolfan. Mae'r
ganolfan yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth, gan gynnwys clybiau babanod
wythnosol a gynhelir ar y cyd ag ymwelwyr ieuchyd, grwpiau gofalwyr ifanc a chefnogaeth
â chamdriniaeth ddomestig i bobl o bob oed.

Diben yr elfen hon o'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol yw galluogi pobl i fyw ble bynnag y
dymunant, ym mha bynnag ffordd y dymunant a chadw'n ddiogel ac yn iach gyda
chefnogaeth yn eu cymunedau. Mae hynny'n cynnwys helpu pobl i ennill neu adennill
bywydau annibynnol fel y bo'n briodol. Mae'r diagram isod yn dangos yr hyn a
gyflawnwyd ar gyfer yr agwedd hon ar y rhaglen.



Defnyddiodd 1,246 o bobl y
gwasanaeth;
49 ohonynt am y tro cyntaf.



Roedd **95%** o bobl yn fodlon ar y wybodaeth, cyngor a chymorth a ddarparwyd.



Dywedodd **100%** o'r unigolion eu bod yn teimlo bod eu hannibyniaeth wedi gwella neu wedi aros yr un fath gyda chefnogaeth y prosiect.

Bwrdd Partneriaeth Digidol, Data a Thechnoleg

Eleni, cytunodd y bwrdd partneriaeth digidol, data a thechnoleg i fabwysiadu Fframwaith Digidol ym Maes Gofal Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae hynny'n gyson iawn â'n blaenoriaethau ni ac yn gosod strwythur cyffredin ar gyfer ein gwaith.

Newid mawr

Mae'r Rhaglen Cysylltu Gofal genedlaethol yn cynnwys caffael a gweithredu systemau rheoli achosion newydd ar gyfer gofal cymdeithasol, iechyd meddwl ac iechyd cymunedol a datblygu cofnodion gofal a rennir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae datblygiadau bellach ar droed i weithredu'r system rheoli achosion gofal cymdeithasol newydd ledled gogledd Cymru.

Dyfeisgarwch disglair

Bu'r digwyddiad arddangosfa ddigidol y llynedd yn dal i gefnogi arferion dyfeisgar ymhell ar ôl i'r digwyddiad ddod i ben. Arweiniodd hynny at geisiadau i banel annog arloesi iechyd a Mwy a cheisiadau am gyllid Contractau ar gyfer Arloesi, ac anogwyd cwmnïau technoleg i gymryd rhan yn y fframwaith Digidol ym Maes Gofal. Rydym wedi llunio adroddiad ynghylch yr hyn a ddysgom a'i rannu ar ein gwefan i gynorthwyo pobl eraill sy'n bwriadu cynnal digwyddiadau tebyg. Arddangosfa ddigidol: yr hyn a ddysgom <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/arddangosfa-ddigidol-yr-hyn-a-ddysgwyd-gennym/>.

Rydym hefyd wedi dal i ddiweddarau ein rhestrau o brosiectau arloesol a'u rhannu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gefnogi'r rhaglen waith genedlaethol o 'syniadau gwyhych'.

Y pethau pwysig

Fel tîm rhanbarthol, rydym yn gweithio'n agos â chydweithwyr o'r chwech o gynghorau lleol yng ngogledd Cymru, y bwrdd iechyd a phartneriaid eraill. Gofynnwyd yn fynych am greu ffordd syml o rannu dogfennau a chydweithio ar brosiectau rhanbarthol - mae gennym bellach dri o safleoedd SharePoint rhanbarthol.

Casglu gwybodaeth

Mae a wnelo'r elfen hon o'r fframwaith Digidol ym Maes Gofal â chanfod arferion, cynlluniau peilot a phrosiectau presennol, eu harfarnu a'u rhannu. Dymunwn atgyfnerthu'r maes hwn a byddwn yn dechrau drwy ddatblygu strategaeth ar gyfer gofal wedi'i galluogi gan dechnoleg yng ngogledd Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, buom hefyd yn gweithio gyda Gofal Iechyd Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol eleni i ddarparu sylwadau er mwyn helpu i wella llwyfannau rhannu data.

Themâu trawsbynciol

Mae ein gwaith hefyd yn ymdrin â themâu trawsbynciol fel seibrddiogelwch, isadeiledd, cynhwysiant, caffael ac arweinyddiaeth. Mae cynhwysiant digidol yn dal yn flaenoriaeth allweddol yng ngogledd Cymru ac rydym yn gweithio'n agos gyda Chynhwysiant Digidol Cymru yn hynny o beth. Rydym hefyd yn gweithio ag Uchelgais Gogledd Cymru i wella isadeiledd digidol, gan gynnwys WiFi a 4G ledled y rhanbarth.

Yr Hwb Cydlynw Arloesi Rhanbarthol

Mae Hwb Cydlynw Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cefnogi partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol i brofi syniadau, dysgu o arfer a gwella gwasanaethau ledled y rhanbarth. Gwelir effaith y tîm yn amlwg yn yr adroddiad hwn wrth arfarnu prosiectau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, y ffrwd waith digidol, data a thechnoleg, cyfathrebu a datblygu'r wefan.

Gofal a chymorth – beth sy'n bwysig i chi

Tîm yr Hwb Cydlynw Arloesi sy'n cynhyrchu'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth sy'n sail ar gyfer gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bwriedir cyhoeddi'r asesiad nesaf ym mis Ebrill 2027 ac felly buom yn canolbwyntio ar y pethau canlynol eleni.

- Cyhoeddi bwletinau ymchwil <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/hwb-cydlynw-ymchwil-arloesi-a-gwelliant/ystadegau/bwletinau-ymchwil/> sy'n dangos nifer y bobl y mae angen gwahanol fathau o ofal a chymorth arnynt. Roedd hynny'n cynnwys creu proffil o boblogaeth gogledd Cymru a chyhoeddi bwletin i ofalwyr di-dâl yn benodol.
- Crynhoi'r dystiolaeth ymchwil <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/hwb-cydlynw-ymchwil-arloesi-a-gwelliant/ystadegau/chwiliadau-am-lenyddiaeth-a-chrynodebau-o-dystiolaeth/> ynglŷn ag amryw anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys dystiolaeth ynglŷn â gofal cartref a niwrowahaniaeth.
- Casglu straeon pobl drwy weithgareddau ymgysylltu <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/gweithgareddau-ymgysylltu/> ledled gogledd Cymru.
- Rhannu arolwg <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad->

poblogaeth-gogledd-cymru/ymgyngghoriadaap/ i ganfod beth sy'n bwysig i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Cartrefi cynhesach, anadlu haws: cefnogaeth sy'n dod o hyd i'r bobl sydd ei hangen

Gall cadw'n gynnes yn y gaeaf ein helpu i aros yn iach, yn enwedig i bobl sy'n byw gyda chyflyrau fel asthma ac arthritis.

Bu dau o Hybiau Cydlynu Arloesi Rhanbarthol yn ymchwilio i ffyrdd y gall data iechyd helpu i ganfod pobl a fyddai'n elwa fwyaf ar gymorth ychwanegol. Yng Nghwm Taf Morgannwg, bu'r tîm yn helpu preswylwyr i ymgeisio am Gredyd Pensiwn i gael mwy o arian ar gyfer pethau hanfodol fel gwres. Yng Ngwent, canolbwyntiwyd ar inswleiddio cartrefi'n well. Golygodd y ddau ddull fod llai o bobl angen gofal ysbyty ar gyfer anawsterau anadlu dros y gaeaf.

Mae Llywodraeth Cymru bellach yn awyddus i weld dulliau tebyg yn cael eu mabwysiadu ar draws Cymru trwy eu Rhaglen Arloesedd ar Waith newydd. Yng ngogledd Cymru, bu'r Hwb Cydlynu Arloesi'n cwrdd â phobl mewn timau iechyd, tai a budd-daliadau er mwyn deall beth sydd eisoes yn gweithio yn y rhanbarth. A thrafod sut allai'r math yma o gefnogaeth wedi'i thargedu wneud gwahaniaeth i bobl leol.

Mae'r tîm yn ystyried ffyrdd o gysylltu data i weld lle byddai cymorth wedi'i dargedu yn gwneud y mwyaf o wahaniaeth i bobl.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth neu gymryd rhan yn y prosiect, cysylltwch â ni ar nwrich@denbighshire.gov.uk.

Dilynwch ni ar Bluesky [@nwrich.bsky.social](https://bsky.social/nwrich), Twitter/X [@NW_RICH](https://twitter.com/NW_RICH), [cofrestrwch i dderbyn ein newyddlen](#) ac ewch draw i [dudalennau gwe'r Hwb Cydlynu Arloesi](#) i gael mwy o wybodaeth.

Datblygiadau yn y gweithlu

Mae Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru'n helpu i gyflawni'r prif flaenoriaethau a bennir yn Strategaeth y Gweithlu ar gyfer 2024 i 2026. Y blaenoriaethau hynny yw:

- sefydlogi'r gweithlu
- dysgu a datblygu
- gwybodaeth am y gweithlu a chynllunio

Mae'r bwrdd wedi dal i ganolbwyntio ar y strategaeth gyffredinol a bu pob cyfarfod yn canolbwyntio ar wahanol thema â blaenoriaeth er mwyn hybu cynnydd yn yr holl

feysydd.

Daliwyd ati i ddatblygu'r trefniant cydweithio llwyddiannus gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru ledled y rhanbarth. Mae'r bartneriaeth hon yn dod ag awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd ynghyd i gynorthwyo â chomisiynu lleoedd hyfforddiant mewn therapi galwedigaethol. Mae gwaith yn dod yn ei flaen bellach i ddatblygu dull rhanbarthol o ymdrin â lleoliadau myfyrwyr a chyfleoedd i ôl-raddedigion. Dengys hynny sut y gall cydweithio fel un rhanbarth atgyfnerthu trefniadau cydweithio ac arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

Mae cyflenwi'r gweithlu gwaith cymdeithasol yng ngogledd Cymru'n dod dan wasgfeydd cynyddol ar gyllid a'r gallu i gyflawni. Er bod rhaglenni i ddatblygu gweithwyr presennol yn werthfawr ac yn effeithiol wrth gadw staff, mae heriau'n parhau. Mae hynny'n cynnwys cyfyngiadau ar gyllid myfyrwyr, costau hyfforddiant yn cynyddu a dal i ddibynnu ar staff asiantaeth.

Bu Bwrdd y Gweithlu'n trafod y risgiau hyn â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ynghylch:

- dylanwadu ar yr adolygiad o fwrariaethau, gan ganolbwyntio ar gynyddu'r cyllid ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol.
- datblygu dull cyson i'r rhanbarth cyfan bennu costau hyfforddiant gwaith cymdeithasol ar gyfer gweithwyr presennol.
- datblygu dull rhanbarthol o ragamcanu'r gweithlu i hwyluso cynlluniau yn y tymor canolig a'r tymor hir.
- ystyried gofynion y Gymraeg wrth ragamcanu'r gweithlu i hwyluso llwybrau hyfforddiant dwyieithog.

Mae Grant Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru'n dal i wneud cyfraniad pwysig at ddatblygu'r gweithlu drwy Gymru. Mae'n hybu mynediad cyfartal i'r holl ddarparwyr gofal cymdeithasol ac yn gyson â phroffil y sector ymhob rhanbarth. Defnyddir y grant i weithredu'r pump o themâu allweddol yn strategaeth datblygu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol:

- datblygu gweithlu sy'n barod yn ddigidol
- addysg a hyfforddiant rhagorol
- darparu addysg a hyfforddiant cymhwysu ac ôl-gymhwysu mewn gwaith cymdeithasol
- arweinyddiaeth a dilyniant
- cyflenwi'r gweithlu a'i ffurf

Mae hyn yn gyson â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth: Cod Ymarfer (2024) a'r disgwyliad y dylai comisiynu hybu dysg, dyfeisgarwch a gwelliant parhaus gydol y system.

Nid yw'r grant wedi cynyddu ers tair blynedd, fodd bynnag, a bu twf sylweddol yn y galw am hyfforddiant yn y sefydliadau sy'n bartneriaid. Mae hynny'n golygu fod gofyn i awdurdodau lleol wneud mwy gyda'r un swm o gyllid.

Mae ymgyrch Gofalwn Gogledd Cymru'n dal i hyrwyddo cyfleoedd yn y sector ac wedi bod yn bresennol mewn amryw ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Bu'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam yn arbennig o llwyddiannus, pan gynhaliwyd Diwrnod Gofalwn penodol a oedd yn cynnwys lansio'r Llyfryn Gofal Preswyl i Blant. Adnodd recriwtio rhanbarthol yw'r llyfryn hwnnw, a ddatblygwyd gan y partneriaid i ddarparu gwybodaeth am weithio ym maes gofal preswyl i blant.

Cynhaliwyd digwyddiad GradCon yng ngogledd Cymru am y tro cyntaf a neilltuwyd lle amlwg i Gofalwn yn Nhŷ Pawb yn Wrecsam. Daeth mwy na 130 o raddedigion i'r digwyddiad, a fu'n gyfle i hyrwyddo gyrfaedd gydol y sector, a chofrestrodd nifer fechan o raddedigion ar gyfer y cwrs Cyflwyniad i Ofal Plant.

Ym mis Ionawr 2026, cyfarfu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i drafod Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol, sy'n un o flaenoriaethau'r bwrdd. Roedd y sesiwn yn cynnwys siaradwyr gwadd o Lywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cafwyd ymateb calonogol ac fe wnaeth y sesiwn godi ymwybyddiaeth o'r pwnc ac annog trafodaeth ystyrlon yn ei gylch. Bwriedir cynnal gweithdy arall yn ddiweddarach yn 2026. Mae hyn yn gyson â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth: Cod Ymarfer (2024 a'r pwyslais ar gydraddoldeb, gwaith teg ac ymarfer cynhwysol ymhob gweithgaredd comisiynu.

Mae heriau'n parhau â'r gweithlu gydol y sector. Bydd Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru'n dal i weithio â phartneriaid a budd-ddeiliaid i gefnogi'r gweithlu ac ymateb i'r heriau hynny.

Mwy na Geiriau

Mae'r grŵp rhanbarthol Mwy na Geiriau'n ceisio annog defnyddio'r Gymraeg yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Bu'r grŵp yn diwygio ei gylch gorchwyl ac ehangu ei aelodaeth i gynnwys pobl ddi-Gymraeg er mwyn helpu i ehangu ymwybyddiaeth o'r iaith. Diben hyn yw helpu i sicrhau fod yr holl staff iechyd a gofal cymdeithasol yn deall sut y gall dysgu a defnyddio Cymraeg wneud gwahaniaeth cadarnhaol i brofiadau pobl mewn gofal.

Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru

Mae Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru'n dal i ddod â phartneriaid ynghyd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r trydydd sector/sector gwirfoddol er mwyn cyflawni'r dyletswyddau dan Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn unol â'r Cod Ymarfer, mae'r grŵp yn darparu cyfrwng lleol i gomisiynwyr, darparwyr a phartneriaid ddatblygu

cyd-ddealltwriaeth o werth cymdeithasol, hyrwyddo cydgynhyrchu ac annog datblygiad mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd a darpariaeth yn y trydydd sector.

Yn ystod 2025-26, canolbwyntiwyd ar atgyfnerthu sylfeini'r fforwm a sicrhau cysondeb â'r disgwyliadau statudol a blaenoriaethau'r rhanbarth. Aethpwyd ati i adolygu'r aelodaeth, cadarnhau pwrpas a swyddogaeth y fforwm yng nghyd-destun ehangach y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chydweithio i bennu diffiniad rhanbarthol cyffredin o werth cymdeithasol. Mae'r gwaith yn gyson â'r gofynion a bennir yn Nghod Ymarfer Rhan 2 i annog cydweithio, dysgu ar y cyd a datblygu dull cyson o gyflawni gwerth cymdeithasol, yn enwedig ym maes atal, ymyrryd yn gynnar a chanlyniadau 'beth sy'n bwysig' i unigolion a chymunedau.

Bydd y Grŵp Llywio'n awr yn rhoi blaenoriaeth i gyflawni rhaglen strwythuredig o waith yn unol â'r cynllun diwygiedig. Bydd hynny'n cynnwys cryfhau cysylltiadau â darparwyr a chomisiynwyr, helpu i gynyddu'r gallu i gyflawni gydol y sector ac arfer gwell dulliau o ddarparu tystiolaeth o'r effaith. Y cam nesaf fydd cefnogi'r fforwm i droi'r gwaith datblygu'n gyflawni, gan sicrhau ei fod yn chwarae rhan amlycach mewn dylanwadu ar drefniadau comisiynu, hyrwyddo arferion da a chefnogi modelau gofal a chymorth cynaliadwy a chymunedol ledled gogledd Cymru.

Cyfathrebu ac ymgysylltu

Mae ein grŵp 'newyddion da' yn cynnwys aelodau o dimau cyfathrebu'r chwech o gynghorau lleol a'r bwrdd iechyd. Mae'r grŵp yn cwrdd yn rheolaidd i amlygu straeon sy'n dangos effaith gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'u rhannu'n helaeth drwy ddatganiadau i'r wasg a dulliau eraill.

Eleni, fe rannom y datganiadau canlynol i'r wasg ledled gogledd Cymru:

- **Mehefin a Gorffennaf 2025** Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Her Heicio a Beicio Wythnos Anabledau Dysgu <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/gogledd-cymru-yn-dathlu-wythnos-anabledau-dysgu-gyda-her-heicio-a-beicio/>
- **Tachwedd 2025** Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: y Gwasanaeth Cyflogaeth â Chymorth Rhanbarthol <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/gogledd-cymru-gydan-gilydd-helpu-pobl-ag-anabledau-dysgu-i-ddod-o-hyd-ir-swyddi/>
- **Ionawr 2026** Gofal a chymorth yng ngogledd Cymru – rhowch wybod i ni beth sy'n bwysig <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/gofal-a-chymorth-yng-ngogledd-cymru-rhowch-wybod-i-ni-beth-syn-bwysig/>

Cyhoeddir y rhain yn ychwanegol i'r blogiau rheolaidd a rannwn am y gwaith sy'n mynd rhagddo yn y rhanbarth. Ein blogiau mwyaf poblogaidd yn ystod y flwyddyn oedd Lansiad Eisteddfod ar gyfer adnoddau newydd i gynorthwyo plant a theuluoedd yng ngogledd Cymru <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/lansiad-eisteddfod-ar-gyfer-adnoddau-newydd-i-gynorthwyo-plant-a-theuluoedd-yng-ngogledd-cymru/>,

neges ynghylch Treffynnon sy'n gyfeillgar i oedran a dementia

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/treffynnon-syn-gyfeillgar-i-oedran-a-dementia-cysylltiad-gofal-a-chymuned/> a'r wybodaeth ddiweddaraf am Arddangosfa Gofal Cymdeithasol Digidol Gogledd Cymru 2025

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/arganddosfa-gofal-cymdeithasol-digidol-gogledd-cymru-2025/>.

Y pump o dudalennau yr ymwelwyd â hwy amlaf ar wefan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol oedd:

- [Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru](#) (2,900 o ymwelwyr)
- [Llwybr Cymorth Cof Gogledd Cymru](#) (2,500 o ymwelwyr)
- [Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru](#) (1,400 o ymwelwyr)
- [Canolfannau Dementia Gogledd Cymru](#) (1,300 o ymwelwyr)
- [Fframwaith Iechyd, Lles a Gwytnwch Emosiynol](#) (730 o ymwelwyr)

Cynllun cyflawni blynyddol 2026/27

Cymeradwywyd y cynllun cyflawni blynyddol wedi i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynnal gweithdy i adolygu'r llwyddiannau a'r heriau a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae hon yn rhaglen waith uchelgeisiol na fydd modd i'r un sefydliad ei chyflawni ar ei ben ei hun.

Fe'i cyflawnir gan sefydliadau sy'n bartneriaid yn cydweithio drwy raglenni a phrosiectau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Wrth gefnogi **plant a phobl ifanc**, fe weithiwn ar y blaenoriaethau canlynol:

- Blaenoriaeth 1: Niwroamrywiaeth: Cefnogi plant a phobl ifanc i gael cyfleoedd bywyd cyfartal
- Blaenoriaeth 2: Cefnogi Lles Meddyliol: Gyda'n gilydd rydym yn ymrwymo i adeiladu system gydgyssylltiedig ledled Gogledd Cymru, sy'n blaenoriaethu cefnogaeth deg ar gyfer lles meddyliol babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cefnogaeth iechyd meddwl.
- Blaenoriaeth 3: Nid-er-elw mewn gofal: Ymrwymiad i gael gwared ar elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal

Wrth annog darparu'r modelau **gofal cymhleth yn nes at adref ac adref o'r ysbyty**, fe weithiwn ar y blaenoriaethau canlynol:

- Blaenoriaeth 1: Hwyluso hynt pobl adref o'r ysbyty'n ddiogel ac yn brydlon drwy leihau oedi yn y system y gellir ei osgoi
- Blaenoriaeth 2: Datblygu a gweithredu Gwasanaeth Rhanbarthol ar gyfer Atal Codymau ac Ymateb
- Blaenoriaeth 3: Rhag-gynllunio gofal yn fwy helaeth
- Blaenoriaeth 4: Defnyddio data iechyd a gofal i dargedu'r gefnogaeth Cartrefi Cynnes drwy'r Rhaglen Arloesedd ar Waith.

Wrth annog cyflawniad **gwaith atal a chydlynu gofal yn y gymuned** a modelau gofal sy'n seiliedig ar **iechyd a lles emosiynol**, fe weithiwn ar y blaenoriaethau canlynol:

- Blaenoriaeth 1: Gweithio i gynyddu'r gallu i gyflawni ym maes ailalluogi a gofal cartref – ystyried dulliau cyflawni gwahanol
- Blaenoriaeth 2: Cynyddu'r gallu i ddarparu gofal yn y gymuned
- Blaenoriaeth 3: Dal i ddatblygu canolfannau cymunedol ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar
- Blaenoriaeth 4: Gweithio â phartneriaid wrth ddal i ganfod gofalwyr di-dâl, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi er mwyn sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed.

Wrth annog **Atebion sy'n Seiliedig ar Lety**, mabwysiadwn ddull strategol wedi'i lywio gan anghenion y boblogaeth wrth ddatblygu dewisiadau llety sy'n hyrwyddo gofal yn nes

at adref ac yn gyson â'r strategaeth iechyd meddwl newydd i'r rhanbarth.

- Blaenoriaeth 1: Cyflawni'r disgwyliadau ar gyfer y deuddeg mis yn ôl y Rhaglen Gyfalaf 10 Mlynedd (cyllid cyfalaf o'r Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso)
- Blaenoriaeth 2: Sicrhau ein bod yn dangos y buddion a gafwyd wrth gwblhau cynlluniau cyfalaf
- Blaenoriaeth 3: Datblygu dull gweithredu rhanbarthol ar gyfer llety a gwasanaethau byw â chymorth i oedolion ag anabledau dysgu, gan gynnwys pobl sydd hefyd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth, a hynny ar sail data a rennir a dadansoddi'r data gyda'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth leol, brydlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a lleihau dibyniaeth ar leoliadau drud y tu allan i'r sir.

Wrth annog **cynllunio gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y dyfodol** a rhannu negeseuon cadarnhaol am ei drefniadau cydweithio, byddwn yn gweithio ar y blaenoriaethau canlynol:

- Blaenoriaeth 1: Adolygu rhaglen gyfredol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i ganfod gwasgfeydd ar systemau, risgiau strategol a goblygiadau ariannol.
- Blaenoriaeth 2: Dal i arfarnu prosiectau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a phrosiectau cyfalaf i gynorthwyo â chynllunio ar gyfer yr adeg pan ddaw'r cyllid i ben a pharatoi ar gyfer dulliau cyllido gwahanol yn y dyfodol
- Blaenoriaeth 3: Datblygu cynlluniau senario ar gyfer yr adeg y gallai'r cyllid ddod i ben, trefniadau pontio neu weithredu rhaglen gyllido newydd.
- Blaenoriaeth 4: Dal i ddatblygu'r grŵp Newyddion Da a bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn rhannu datganiadau i'r wasg yn gyson â thimau cyfathrebu'r chwech o gynghorau lleol a'r bwrdd iechyd. Hyrwyddo a diwygio gwefan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i bresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol.
- Blaenoriaeth 5: Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gydol y system drwy ddal i weithredu Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru.

Defnyddiwn ddulliau digidol, data a thechnoleg yn dda wrth greu gwasanaethau integredig, di-dor a chynaliadwy a hybu iechyd a lles drwy fabwysiadu a gweithredu'r fframwaith Digidol ym Maes Gofal a chyflawni'r blaenoriaethau canlynol:

- Blaenoriaeth 1: Cyflwyno'r Rhaglen Cysylltu Gofal, cwblhau'r drefn gaffael ar gyfer y system iechyd meddwl newydd a dechrau paratoi ar gyfer rhannu cofnodion gofal ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.
- Blaenoriaeth 2: Gweithio â phenaethiaid gwasanaethau oedolion a phlant wrth ymchwilio i ddulliau o reoli darpar werthwyr gwasanaethau digidol, cynnal mapiau cyfoes o ddyfeisgarwch digidol a hwyluso Rhwydwaith Arloesi Gogledd Cymru.
- Blaenoriaeth 3: Cyflawni amcanion ein cynllun Pethau Pwysig drwy greu tudalen SharePoint rhanbarthol a galluogi pobl i rannu dogfennau a chalendrau.
- Blaenoriaeth 4: Gweithio'n unol â'r fframwaith Digidol ym Maes Gofal wrth ymchwilio i ffyrdd o gofnodi'r arferion, cynlluniau peilot a phrosiectau presennol, eu

harfarnu a'u rhannu yn ogystal â datblygu strategaeth ddigidol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion.

Wrth ymdrin â datblygu ein **gweithlu** ac ymateb i'r **anghenion yn y dyfodol** yn y sector, fe ganolbwyntiwn ar y blaenoriaethau canlynol:

- Blaenoriaeth 1: Byddwn yn sefydlogi'r gweithlu presennol ac yn annog gweithwyr i aros yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a chynnal ac arwain gweithgarwch parhaus i ddenu a recriwtio staff.
- Blaenoriaeth 2: Byddwn yn creu gweithlu sy'n alluog ac yn hyderus wrth gyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys sicrhau bod y gweithlu'n barod i gefnogi cynlluniau digidol newydd.
- Blaenoriaeth 3: Fe weithiwn â phartneriaid i gasglu data perthnasol am y gweithlu'n sail ar gyfer gofynion a chynlluniau'r gweithlu yn y dyfodol.
- Blaenoriaeth 4: Fe gwblhawwn y gwaith ymchwil ac ymgysylltu sy'n ofynnol cyn cyhoeddi'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth diwygiedig ym mis Ebrill 2027, gan weithio'n agos â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i greu cysylltiadau â'r Asesiadau Lles.
- Blaenoriaeth 5: Fe weithiwn ar yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad i'w gyhoeddi yn 2027, gan gydweithio'n agos â'r holl bartneriaid a sicrhau cysylltiadau â'r holl brosiectau perthnasol yn y rhanbarth a'r data, gan gynnwys yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.
- Blaenoriaeth 6: Fe wreiddiwn Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

Y rhain yw ein blaenoriaethau **comisiynu** y byddwn yn eu cyflawni dan gyfarwyddyd ac arweinyddiaeth ein Bwrdd Comisiynu:

- Blaenoriaeth 1: Byddwn yn sefydlu a gweithredu Cytundeb Cyn Lleoli Gogledd Cymru ar gyfer Cartrefi Gofal, gan gynnwys llunio Manyleb Cartrefi Gofal.
- Blaenoriaeth 2: Byddwn yn diwygio Cytundeb Byw â Chymorth Gogledd Cymru i'w roi ar waith erbyn 1 Ebrill 2027
- Blaenoriaeth 3: Byddwn yn cynhyrchu a datblygu Strategaeth Gomisiynu Ranbarthol ar gyfer cartrefi gofal a chartrefi nyrsio, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad a'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.
- Blaenoriaeth 4: Fe weithiwn â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant i ddatblygu Strategaeth Comisiynu Lleoliadau Rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau plant.

Atodiad 1

Llinynnau Mesur Meintiol	Diffiniadau
HM1. Nifer yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth (cyfanswm bob chwarter)	Cyfanswm yr unigolion sy'n cael mynediad at y prosiect yn ystod cyfnod o dri mis.
HM2. Nifer yr unigolion newydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf	Nifer yr unigolion sy'n cael mynediad at y prosiect am y tro cyntaf.
HM3. Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd	Nifer yr unigolion a atgyfeiriwyd at y prosiect.
HM4. Nifer y cysylltiadau (gan gyfrif cysylltiadau lluosog â'r un bobl)	Nifer yr adegau mae unigolion wedi cael cyswllt â'r prosiect.
HM5. Nifer yr unigolion sy'n cael Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (cyffredinol)	Nifer yr unigolion sy'n cael gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
HM6. Nifer y bobl sy'n cael Cymorth a Chefnogaeth Gynnar (wedi'u targedu)	Nifer yr unigolion sy'n cael gwasanaethau cymorth a chefnogaeth gynnar sy'n targedu anghenion a phroblemau penodol. Gallai hyn gynnwys grwpiau a digwyddiadau.
HM7. Nifer y bobl sy'n cael Cefnogaeth Ddwys (wedi'i thargedu)	Nifer yr unigolion sy'n cael gwasanaethau cefnogaeth ddwys sydd wedi'u teilwra i fodloni eu hanghenion penodol a mwy cymhleth.
HM8. Nifer y bobl sy'n cael Ymyrraeth Arbenigol (arbenigwr)	Nifer yr unigolion sy'n cael ymyriadau arbenigol sydd angen gwybodaeth ddatblygedig ac arbenigedd i'w darparu.
HM9. Nifer y bobl a gwblhaodd arolwg neu a fynegodd farn	Nifer yr unigolion a gwblhaodd arolwg neu a fynegodd farn

Llinynnau Mesur Ansoddol	Diffiniadau
HW1. Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniodd y prosiect.	Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniodd y prosiect.
HW2. Nifer yr unigolion sy'n dweud eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarparwyd. HW2a. Nifer yr unigolion y gofynnwyd iddynt a oeddent yn fodlon gyda'r gwasanaeth a	Nifer yr unigolion sy'n dweud eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsant gan y prosiect.

Llinynnau Mesur Ansoddol	Diffiniadau
ddarparwyd ac a roes ateb.	

Llinynnau Mesur ar gyfer dementia'n benodol gogledd Cymru'n unig	Diffiniad
DEM1. Nifer y gofalmwyr a gefnogir gan y gwasanaeth (cyfanswm bob chwarter)	Cyfanswm y gofalmwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ystod cyfnod o dri mis
DEM2. Nifer y bobl sy'n byw â dementia sy'n cael sgysiau 'beth sy'n bwysig'	Nifer yr unigolion a gafodd drafodaethau 'beth sy'n bwysig'
DEM3. Nifer y bobl sy'n byw gyda dementia sy'n mynychu gweithgareddau / grwpiau / canolfannau dementia	Nifer yr unigolion sy'n mynychu gweithgareddau / grwpiau / canolfannau dementia
DEM4a. Nifer y bobl sy'n byw â dementia sydd wedi cyflawni beth sy'n bwysig iddynt	Nifer yr unigolion a ddywedodd eu bod wedi cyflawni beth oedd yn bwysig iddynt.
DEM4b. Nifer y bobl sy'n byw gyda dementia y gofynnwyd iddynt a oeddent wedi cyflawni beth oedd yn bwysig iddynt ac a roes ateb	Nifer y bobl sy'n byw gyda dementia y gofynnwyd iddynt a oeddent wedi cyflawni beth oedd yn bwysig iddynt ac a roes ateb.
DEM5a. Nifer y gofalmwyr sy'n dweud eu bod yn cael eu cefnogi i barhau â'u gwaith gofalu	Nifer y gofalmwyr sy'n dweud eu bod yn cael eu cefnogi i barhau â'u gwaith gofalu
DEM5b. Nifer y gofalmwyr y gofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau â'u gwaith gofalu ac a roes ateb	Nifer y gofalmwyr y gofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau â'u gwaith gofalu ac a roes ateb

Llinynnau Mesur y Gwahaniaeth a Wnaed	Diffiniadau
DM1. Nifer yr unigolion sy'n teimlo'n llai unig o ganlyniad i gefnogaeth y prosiect	Nifer yr unigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n llai ynysig ar ôl cael cefnogaeth gan y prosiect.
DM1a. Nifer yr unigolion y gofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo'n llai unig o ganlyniad i gefnogaeth y prosiect ac a roes ateb.	

Llinynnau Mesur y Gwahaniaeth a Wnaed	Diffiniadau
DM2. Nifer y bobl sy'n sôn eu bod yn cynnal neu wella eu hiechyd a'u lles emosiynol. DM2a. Nifer yr unigolion y gofynnwyd iddynt a oeddent yn cynnal neu wella eu hiechyd a'u lles emosiynol ac a roes ateb.	Nifer yr unigolion sy'n dweud eu bod yn cynnal neu wella eu hiechyd a'u lles emosiynol ar ôl cael cefnogaeth gan y prosiect.
DM3. Nifer y bobl sy'n sôn eu bod yn teimlo eu bod wedi dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. DM3a. Nifer yr unigolion y gofynnwyd iddynt ynglŷn â dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac a roes ateb.	Nifer yr unigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
DM4. Nifer yr unigolion a ddywedodd eu bod yn teimlo bod eu hannibyniaeth wedi gwella neu wedi aros yr un fath gyda chefnogaeth y prosiect. DM4a. Nifer yr unigolion y gofynnwyd iddynt a oedd eu hannibyniaeth wedi gwella neu wedi aros yr un fath gyda chefnogaeth y prosiect ac a roes ateb.	Nifer yr unigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo bod eu hannibyniaeth wedi gwella neu wedi aros yr un fath gyda chefnogaeth y prosiect.
DM5. Nifer yr unigolion sy'n teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio gwasanaethau yn dilyn cymorth y prosiect. DM5a. Nifer yr unigolion y gofynnwyd iddynt a ydynt yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio gwasanaethau yn dilyn cymorth prosiect ac a roes ateb.	Nifer yr unigolion sy'n sôn eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio gwasanaethau yn dilyn cymorth y prosiect
DM6. Nifer yr unigolion a gafodd gymorth sydd wedi atal lefel eu hangen rhag cynyddu. DM6a. Nifer yr unigolion y gofynnwyd iddynt a gawsant gymorth sydd wedi atal lefel eu hangen rhag cynyddu ac a roes ateb	Nifer yr unigolion a soniodd y cawsant gymorth sydd wedi atal lefel eu hangen rhag cynyddu

Llinynnau mesur lleol (gogledd Cymru'n unig)	Diffiniad
NWM 1a. Nifer y staff sy'n cael hyfforddiant	Nifer yr unigolion sy'n derbyn sesiynau hyfforddi a gynigir gan y prosiect.
NWM 1b. Nifer y dinasyddion sy'n cael hyfforddiant	Nifer yr unigolion sy'n derbyn sesiynau hyfforddi a gynigir gan y prosiect.
NWM 2a. Nifer y sesiynau hyfforddi a ddarparwyd i staff	Nifer y sesiynau hyfforddi staff a ddarparwyd gan y prosiect.
NWM 2b. Nifer y sesiynau hyfforddi a ddarparwyd i ddinasyddion	Nifer y sesiynau hyfforddi dinasyddion a ddarperir gan y prosiect.
NWM 5. Nifer y bobl sy'n cael cymhorthion ac addasiadau	Nifer yr unigolion sy'n cael cymhorthion ac addasiadau sy'n eu helpu.
NWM 6. Nifer y bobl sy'n dechrau Pecyn Technoleg Gynorthwyol	Nifer yr unigolion sy'n dechrau pecyn technoleg gynorthwyol a ddarperir gan y prosiect.
NWM 7. Nifer y bobl â mwy o wybodaeth am y gwasanaethau/cefnogaeth sydd ar gael iddynt.	Nifer yr unigolion sy'n dweud bod ganddynt fwy o wybodaeth am y gwasanaethau a chefnogaeth sydd ar gael iddynt.

03/2026

Cyngor Sir Ynys Môn Adroddiad Sgriwtini

Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
Dyddiad:	14 Hydref, 2026
Pwnc:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Corfforaethol
Cadeirydd Sgriwtini:	Cynghorydd Jeff Evans

1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

Aelod Portffolio	Rôl
Amherthnasol	
Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)	Rôl
Angharad Hughes	Rheolwr Craffu a Gwasanaethau Pwyllgor

2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2026/27

3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

- ☒ Er sicrwydd
- ☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
- ☐ Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

Gofynnir i'r Pwyllgor:

A1 gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2026/27

A2 nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Argymhelliad(ion):

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1.

6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

1. Cefndir

- 1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol¹. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:
 - i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
 - ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda²

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynnyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. Cyd-destun Lleol

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

¹ A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

² A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

Canlyniad: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwrtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwrtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwrtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwyllo'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwrtini:** mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwrtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

- i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
- ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
- iii. Parhau i esblygu.

3. Materion ar gyfer eu hystyried

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwrtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2026/27 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf³

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwrtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwrtini).

7. Asesiadau effaith

7.1. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☐ Do

☒ Naddo

³ Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwrtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Medi, 2026

Os naddo, eglurwch pam: Amherthnasol

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Amherthnasol

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Amherthnasol

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

Positif / Niwtral / Negyddol a sut
Amherthnasol

8 Goblygiadau ariannol

Amherthnasol

9 Atodiadau

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Corfforaethol 2026/27

10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

Elin Allsopp, Swyddog Sgrwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW

RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI

Cyfnod: Mai 2026 i Ebrill 2027 Fersiwn dyddiedig: 05/10/26

Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna [Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini](#) wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.

Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma.

Cysylltwch â'r Tîm Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [sgriwtiniscrutiny@ynysmon.llyw.cymru]

Mai 2026

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Mai, 2026 (12/05/2026)	Mai, 2026 (12/05/2026)
Ethol Cadeirydd: 2026/27	Ethol Cadeirydd: 2026/27
Ethol Is-gadeirydd: 2026/27	Ethol Is-gadeirydd: 2026/27

Mehefin 2026

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Mehefin, 2026 (10/06/2026) – Ch4	Mehefin, 2026 (09/06/2026) – Addysg / Iaith Gymraeg
Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2025/26	Y Gymraeg - Adroddiad Blynnyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2025/26 - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Mesur Cynnydd→2024/25

Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2026/27	Adroddiad ADY a Ch 2025/26-mesur cynnydd
Arolygiaeth Gofal Cymru	Eitem er gwybodaeth: Adroddiad Cynnydd Ch 4 2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Gorffennaf 2026

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dim cyfarfod wedi'i raglennu	Gorffennaf, 2026 (14/07/2026)
	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Cynllun Strategol Taclo Tlodi
	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Medi 2026

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Medi, 2026 (16/09/2026) – Ch1	Medi, 2026 (15/09/2026) -Cyfarfod Arbennig
Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2026/27	Adroddiad yn dilyn ymgynghoriad ar yr Ardoll Ymwelwyr
Strategaeth Tai Gwag 2023-2028-mesur cynnydd	Adroddiad Masnachfreinio Bysiau
Cynllun Strategol Rheoli Asedau (Tai) 2024-2029-mesur cynnydd	Casglu Gwastraff ac Ailgylchu Cyn-benderfyniad Sgriwtini
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	

	Medi, 2026 (28/09/2026)
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Hydref 2026

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Hydref, 2026 (14/10/2026)	Hydref, 2026 (13/10/2026)
Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2025/26	Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2025/26
Adroddiad Cynydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol	Tân ac Achub Gogledd Cymru
Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2025/26	Eitem er gwybodaeth: Uchelgais Gogledd Cymru: Adroddiad Cynnydd Ch1: 2025/26
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Tachwedd 2026

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Tachwedd, 2026 (11/11/2026) - Ch2	Tachwedd, 2026 (10/11/2026)
	Cronfa Lefelu i Fyny, Cronfa Twf Leol ac Adroddiad SPF
Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2026/27	Gwasanaeth ADY a Chynwysiant-mesur cynnydd
Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2025/26	Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg
Diogelu Corfforaethol	Eitem er gwybodaeth: Cynllun Strategol Rheoli Asedau-mesur cynnydd
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Ionawr 2027

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Ionawr, 2027 (19/01/2027) – Cyllideb 2027/28	Ionawr, 2027 (20/01/2027)
2027/28 Sefydlu Cyllideb (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn: - Adroddiad Blynnyddol 2025/26 - Trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant
Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau	Cynllun Strategol Tuag a Sero Net 2026-2031- mesur cynnydd (Targedau Ynni Gwasanaethau Tai)
	Eitem er gwybodaeth: Adroddiad Cynnydd Ch2 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Chwefror 2027

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Chwefror, 2027 (17/02/2027) –2027/28 Cyllideb	Chwefror, 2027 (16/02/2027)
Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2027/28 – refeniw a chyfalaf	Porthladd Rhydd Ynys Môn-mesur cynnydd
Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau	Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Mawrth 2027

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Mawrth, 2027 (10/03/2027) - Ch3	Mawrth, 2026 (09/03/2027)
Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2026/27	Grŵp Llandrillo Menai
Strategaeth Grant Cymorth Tai 2027-2031	Gwasanaeth ADY a Chynwysiant-mesur cynnydd
Adroddiad Blynnyddol ar Gydraddoldeb: 2025/26	Eitem er gwybodaeth: Adroddiad Cynnydd Ch3 2026/27 Uchelgais Gogledd Cymru
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Ebrill 2027

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dim cyfarfod wedi'i raglennu	Dim cyfarfod wedi'i raglennu

This page is intentionally left blank